

# ECO'R WYDDFA

RHIF 81

MAI 1983

Pris 20c



## Pencampwr Sgïo Cymru

*Daeth llwyddiant ysgubol i Timothy Lloyd o Ysgol Brynrefail yn ddiweddar. Enillodd Bencampwriaeth Sgïo Cymru dan 18 oed ac yna bu'n fuddugol ym Mhencampwriaethau'r Alban. Llongyfarchiadau iddo.*

## POB HWYL YN ABERAFAN



Parti Cerdd Dant 15-19 oed Ysgol Brynrefail. Roedd Sian Gibson o Ddeiniolen yn absennol pan dynnwyd y llun. Fe fydd hi a Rhian Owen (canol y rhes flaen) yn cystadlu ar y ddeuawd 15-19 oed. Mae Rhian yn cystadlu ar yr unawd hefyd.



Grŵp Cerddoriaeth Greadigol Ysgol Gynradd Llanrug. Testun y gystadleuaeth yw 'Glan y Môr.



Grŵp Dawns Greadigol Ysgol Llanrug yn ymarfer ar gyfer eu perfformiad o Chwedl Branwen.

Ddiwedd mis Mai bydd nifer o blant a phobl ifanc o'r fro hon yn teithio i Aberafan yn Ne Cymru i gystadlu ym mhroffion terfynol Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Ein llongyfarchiadau a'n dymuniadau gorau iddynt hwy a'u hyfforddwyr.

Am y tro cyntaf o fewn cof, mae gan Adran Bentref yr Urdd yn y Waunfawr ddau barti ac unawdydd offerynnol yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Aberafan dros y Sulgwyn. Bu cystadlu brwd yn yr Eisteddfod Gylch yng Nghaernarfon, pryd yr enillodd yr adran y nifer mwyaf o farciau o'r holl adrannau pentref yng nghylch Arfon. O'r partiön a'r unawdwyr a lwyddodd i gyrraedd yr Eisteddfod Sir ym Mangor, y rhai fydd yn teithio i'r Eisteddfod Genedlaethol yw: parti unsain dan 12 oed, parti recordyddion 12-15 oed, ac Anthony Marston yn canu'r basŵn.

Er mor llawen oedd pawb o

lwyddo fel hyn, roedd cryn bryder ynglŷn â'r costau teithio, ond nos Fercher Ebrill 20, cafwyd cefnogaeth hael gan y pentrefwyr pryd y trefnwyd cyngerdd a phaned yn Neuadd yr Eglwys gan y plant, i godi arian.

Yn ystod y cyngerdd, manteisiwyd ar y cyfle i ffarwelio â Kevin Jones, Crud yr Awel, sydd wedi bod yn arweinydd yr adran ers dwy flynedd, ac i ddymuno'n dda iddo ar ei briodas â Bronwen o Benisarwaun. Fel arwydd o'u gwerthfawrogiad cyfrannodd y plant i brynu anrheg iddo, sef llun o Lyn Tegid er cof am y penwythnosau difyr yng Nglanllyn.

(Llun gyda newyddion Waunfawr)



Parti unsain dan 12 oed, Adran Bentref Waunfawr.



Parti recordyddion dan 15 oed Waunfawr.



Unawdwyr offerynnol: Graham Williams, Llanrug (chwith) — pres o dan 15 oed ac Anthony Marston, Waunfawr (uchod) — chwythbrennau dan 15 oed.



# ECO'R WYDDFA

RHIF 81  
MAI 1983

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd  
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth  
Cymdeithas Gelfyddydau  
Gogledd Cymru

## SWYDDOGION A GOHEBWYR

### GOLYGYDD NEWYDDION

**CYFFREDINOL:** Twrog Jones, 23  
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

**GOLYGYDD ERTHYGLAU:** Dafydd  
Whiteside Tomas, Bron y Nant,  
Pontrhythallt, Llanrug (C'fon 3515)

**GOLYGYDD NEWYDDION:** Tony  
Elliot, Crud y Wawr, Bryneglwys,  
Penisarwaun (Llanberis 872438)

**TREFNYDD NEWYDDION  
YSGOLION:** Iwan Lloyd Williams,  
Bryn Idris, Llanberis (870515)

**DYDDIADUR Y MIS:** Miss Jane  
Morris, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont,  
Ffordd Capel Coch, Llanberis  
(871561)

**FFOTOGRAFFWYR:** Ifan Parry,  
Morwel, Ceunant, (Waunfawr 321)  
Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,  
Llanrug (C'fon 4669). Gwyndaf  
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug  
Islwyn L. Jones, Y Garn, Bryn  
Moelyn, Llanrug. (C'fon 5874)

**TREFNYDD HYSBYSEBION:** John  
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug  
(C'fon 5605)

**TREFNYDD GWERTHIANT:** Arwyn  
Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,  
Llanrug (C'fon 5510)

**TREFNYDD ARIANNOL:** Goronwy  
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,  
Llanrug (C'fon 4839)

**TREFNYDD GWERTHIANT POST:**  
Mrs M. Evans, Lloc, Llanrug (C'fon  
3227)

**GOHEBWYR PENTREFI:** Dyma'r bobl  
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran  
(Portdiorwic 670726).

**BETWS GARMON:** Mrs Brenda  
Jones, Bryn Tegid (Waunfawr 294)

**BRYNREFAIL:** D.G. Ellis, Gwledfa  
(Llanberis 871223)

**CEUNANT:** Ifan Parry, Morwel,  
(Waunfawr 321)

### CWM-Y-GLO:

**DEINIOL:** Mrs Nancy Rowlands,  
12 Pentre Helen (Llanberis 870267)

**DINORWIG:** O.R. Williams, 2 Bro  
Elidir (Llanberis 870671)

**LLANBERIS:** Mrs Siân Thomas, Tŷ'r  
Ysgol (Llanberis 870220)

**NANT PERIS:** T.J. Roberts, Llys Awel  
**LLANRUG:** Mrs Eirlys Pierce,  
Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)

**PENISARWAUN:** Mrs Mary Davies, 9  
Llys y Gwynt, (Llanberis 872329)

**TAN-Y-COED:** Miss Megan  
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed  
(Llanberis 870030)

**WAUNFAWR:** Mrs G. Jones, Rhandir  
Mwyn (Waunfawr 626)

**TREFNYDD PLYGU:** Edward Elias, 21  
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 3719)

## Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf  
o'r wasg  
**MEHEFIN 2**

Deunydd i law'r  
golygyddion perthnasol

**NOS FAWRTH  
MAI 24**

os gwelwch yn dda

# LLYTHYRAU

## APÊL MUDIAD YSGOLION MEITHRIN

Annwyl Ddarllenwyr,

Ysgrifennaf atoch ar ran  
Mudiad Ysgolion Meithrin i ofyn  
am eich help a'ch cefnogaeth  
partheg Apêl Genedlaethol yr ydym  
yn ei lansio fel rhan o  
weithgareddau ein Gŵyl Feithrin,  
Mai 7fed - 14eg, 1983.

Thema ein Gŵyl yw 'Anifeiliaid  
Arch Noa', ac yn gysylltiedig â hyn  
dymunwn gasglu llond gwlad o  
anifeiliaid tegau meddal i'w  
cyflwyno i Adrannau Plant  
Ysbytai Cymru. Nid tegau siop  
sydd eu heisiau ond rhai wnaed gan  
y cyhoedd ei hun, yn famau, tadau,  
teidiau, neiniau, a phlant; hynny  
yw, unrhyw un sydd am estyn  
cymorth i blant bach mewn ysbytai.  
Ga'i i bwysleisio mai tegau  
anifeiliaid sydd eu heisiau yn unol â  
thema ein Gŵyl Feithrin.

Cynhelir yr apêl rhwng Mai'r  
7fed a Gorffennaf 14eg, sef diwedd  
tymor y Cylchoedd Meithrin a bydd  
ein Cylchoedd yn fodlon derbyn a  
gofalu am eich rhoddion unrhyw  
bryd yn ystod y cyfnod hwn.

Byddwn yn casglu ynghyd yr holl  
deganau ar gyfer Arddangosfa  
arbennig ar faes yr Eisteddfod  
Genedlaethol yn Llangefni a bydd  
croeso i unrhyw un droi i mewn  
atom i weld y cynnyrch. Yna, ym  
mis Medi fe rennir y tegau yn  
gyfartal rhwng pob sir er mwyn eu  
dosbarthu i'r ysbytai.

Erfyniwn yn daer am eich  
cefnogaeth i'r ymgyrch deilwng  
hon.

Cewch wybodaeth bellach  
ynghlŷn â'r apêl gan: Ceinwen  
Davies, Cae'r Berllan, Lôn Las,  
Porthaethwy.

Yn ddiffuant

I. Bryan Jones, Cyfarwyddwr  
10 Park Grove Caerdydd

## CYMORTH CRISTNOGOL

Annwyl Olygydd,

Gwerthfawrogaf y cyfle hwn i  
gyfarch darllenwyr Eco'r Wyddfa  
ar drothwy Wythnos Cymorth  
Cristnogol 1983.

Bellach mae canghennau  
Cymorth Cristnogol fel y Papurau  
Bro yng Nghymru, wedi cynyddu  
yn ystod y blynyddoedd  
diwethaf, gan sefydlu eu hunain  
yn ran o weithgareddau lleol ar  
hyd a lled Cymru. Gwerthfawrogir yn fawr pob  
arwydd o gefnogaeth a geir gan  
ein cefnogwyr selog a theyrnga.

Mae thema'r wythnos eleni yn  
ein gwahodd i anfon ein  
rhoddion fel arwydd o'n gofal  
dros drueiniaid byd. A oes  
gennym gonsyrn am y di-gartref  
yng ngwlad Libanus a  
dioddefwyr rhyfel yn El  
Salfador? A ydym yn barod iddan  
— gos ein pryder am y newynog  
yn Ethiopia a llawer gwlad arall?  
Beth yw maint ein gofal am ein  
cyd-ddyn difreintiedig sy'n ceisio  
datblygu ei grefft a'i ddawn?  
Rhown gyfle i bawb fwynhau

bywyd a degwch a chyfiawnder  
yn y gwledydd tlawd.

Bydd ein rhoddion yn ystod  
Wythnos Cymorth Cristnogol,  
16-21 Mai, yn arwydd o'n gofal  
am anffodusion byd, gan alluogi  
Cymorth Cristnogol barhau i  
bartneru'n brodyr a'n chwiorydd  
mewn dros 100 o wledydd. Y  
llynedd dosbarthwyd o gwmpas  
£5 miliwn ar gyfer amrywiol  
gynlluniau yn y Trydydd Byd.  
Gwahoddwn chwi, felly, i alluogi  
Cymorth Cristnogol barhau'r  
gwaith ac i ychwanegu ein help  
i'r tlodion, y ffoaduriaid a  
dioddefwyr trychinebau.

Bydd casglyddion lleol yn galw  
heibio cartrefi eich hardal yn  
ystod yr wythnos uchod. Os  
gwelwch yn dda, byddwch mor  
hael ag y medrwch.

Gyda diolch cynnes iawn i bobl  
eich bro am bob cefnogaeth.

Yn ddiffuant,

Wynn Vittle,  
Ysgrifennydd Cymru  
Cymorth Cristnogol

## Capel Hebron

Annwyl Syr,

Beth amser yn ôl anfonais air i'r Eco  
yn holi a wyddai rhywun beth oedd enw  
a chyfeiriad perchennog hen Capel  
Hebron ar lethrau'r Wyddfa. Holais  
hefyd yn swyddfa hen stad y Faenol yn  
Adran Amaethyddiaeth y Swyddfa  
Gymreig yng Nghaernarfon, ond nid  
oedd y wybodaeth ar gael yno chwaith.  
Anfonais air at yr arwerthwyr yn  
Llundain, ond mae'n ymddangos eu  
bod yn dymuno anwybyddu fy llythyr.  
Roeddwn i wedi cael ar ddeall fod y  
gŵr o Lerpwl a brynodd yr hen Capel,  
— gyda'r bwriad o'i droi yn fath o gaffi,  
— wedi prynu darn o dir rhwng y ffordd  
a'r Capel yn ogystal, ond rwy'n deall  
gan Mrs Elsa Williams, Hafod Lydan  
gynt, mai eiddo ei mab yw y darn tir  
yma.

Yn sgîl yr holl ansicrwydd, nid ydyw  
yn bosib felly i wneud unrhyw  
symudiad ynglŷn â'r bwriad gwreiddiol  
o ymdrechu i adnewyddu Capel Hebron  
— (ar yr un dull â Chapel Newydd  
Nanhoron yn Llŷn) — i gofio'r hen  
gymdeithas unigryw a fu'n mynychu'r  
capel yng Nghwm Brwynog. Mae hyn  
yn ofid i mi o sylweddoli'r adwaith  
ffafriol dros ben a fu i'r syniad. Bellach  
bydd gweddillion y Capel yn syrthio'n  
adfeilion fel y tŷ capel a dyna gwmpas  
symbol olaf o fodolaeth yr hen dreflan  
yn y cwm.

Yn gywir,  
Rol Williams

Waunfawr

## CYNGOR GWLAD GWYNEDD

### GŴYL DDRAAMA IEUENCTID GYSTADLEUOL

Y mae Pwyllgor Arfon o Gyngor Gwlad Gwynedd wedi trefnu, am y drydedd  
flwyddyn yn olynol, Wyl Ddrama Ieuencid Gystadleuol, a gynhelir yn Theatr Seilo,  
Caernarfon, Mai 10, 11, 12 a 13, 1983.

Y beirniad yw Mr Edwin Williams, Llanfairfechan a'r llywydd, Mr Gwilym  
Humphreys, Cyfarwyddwr Addysg Gwynedd.

Y mae pymtheg cwmni, yn cynrychioli Ysgolion Uwchradd a Mudiadau Ieuencid  
yng Ngwynedd, yn cymryd rhan yn yr Wyl.

Os am unrhyw wybodaeth pellach, neu os am archebu tocynnau, ysgrifennwch neu  
ffoniwch i:

Swyddfa'r Cyngor Gwlad,  
Y Cei Llechi,  
Caernarfon.

Yn gywir J.R. Jones  
Ysgrifennydd Rhanbarth

## CYSTADLEUAETH LLYFRAU GWYNEDD

Annwyl Olygydd,

Hoffwn atgoffa eich darllenwyr am  
gystadlaethau llyfrau Gwynedd  
1982-83. Y dyddiad cau yw 31 Mai a  
dylid anfon ceisiadau i'r Swyddfa  
Addysg, Lôn Priestley, Caernarfon.

1. Chwef stirol fer am entwogion neu  
ddigwyddiadau yn hanes Cymru yn  
null 'Roeddwn I Yno', a hynny o  
safbwynt tystiolaeth plentyn neu  
deulu dychmygol (ar gyfer 7-9 oed).

Gwobr: £10 y llyfryn hyd at 15  
llyfryn.

2. Cyfres o daflenni gwybodaeth (o tua  
16 tudalen) ar amrywiaeth o  
atwedigaethau y gellir eu rhoi yn  
nwylo disgyblion hŷn yr ysgolion  
uwchradd.

Gwobr: £5 y daflen hyd at 20 taflen.

3. Nofel fer yn null llyfrau Antelope a  
Gazelle i blant.

Gwobr: £150 i'w rannu.

4. Llyfr yn ymdrin ag o leiaf ugain o  
arwyr cyfoes o fyd chwaraeon a  
gweithgareddau awyr agored, addas  
ar gyfer yr oedran 9-11.

Gwobr: £10 yr erthygl hyd at  
uchafswm o £200.

Yn gywir,

Gwilym Humphreys  
Cyfarwyddwr Addysg

## CYSTADLEUAETH GORAWL

Annwyl Olygydd,

Hoffwn hysbysu pob arweinydd  
côr o blith darllenwyr eich papur am  
gystadleuaeth gorawl Ryng-Geltaidd  
a drefnir yn Brest, Llydaw ar Fehefin  
y 4ydd a'r 5ed eleni. Y mae'r  
gystadleuaeth yn agored i dri  
chategori o gôr:

A. Corau S.A.T.B., 30-50 o  
gantorian.

B. Corau 4 llais  
cymysg-meibion-merched, 20-30 o  
gantorian

C. Corau cymysg 2, 3 neu 4 llais,  
20-30 o gantorian

a disgwylir i bob côr ganu dau ddarn.

Cynigir gwobrau o £150 a £300 i  
ddosbarth A; £100 a £200 i B a £75 a  
£150 i C ac mae gwobr ychwanegol o  
£275 ar gyfer canu gwaith  
gwreiddiol, newydd.

Telir y costau teithio gan y  
trefnwyr a darperir hostel a phrydau  
bwyd ganol dydd a hwyr yn rhad ac  
am ddim.

Am fanylion pellach sgifennir at:  
**Centre Breton d'Art Populaire,**  
**37, bis, rue Victor Hugo,**  
**29200 BREST**  
**LLYDAW-BRITANNY**

Ar ran y trefnwyr,

Dewi Morris Jones,  
Llwynderw,  
Bronant (264)



## LLYTHYRAU (Parhad)

### CŴN

Annwyl Olygydd,

Carwn dynnu eich sylw at lythyr H. Jones, Llanrug yn rhifyn diwethaf 'Eco'r Wyddfa', drwy ofyn yn gyntaf os yw Mr Jones yn sicr o'i ffeithiau pan ddywedai "Roeddwn yn cyfrif y diwrnod o'r blaen, ac yr oedd chwe ci wedi bod yn defnyddio fy ngardd"?

A ydych yn saff o hyn Mr Jones? Hwyrach mai un ci oedd wedi bod chwe gwaith yn eich gardd, ac os yw hyn yn wir, yr ydych yn cyhuddo pum ci sydd yn ddieuog o'r drosedd hon.

Fodd bynnag, oes yna ddim cytundeb rhwng dau bentref cyfagos fel Llanrug a Llanberis – un pentref yn cwyno am gŵn yn y gerddi, a'r pentref arall yn cwyno am ddefaid yn eu gerddi felly fy nghynigiad i Mr Jones yw, beth am ddod â chŵn Llanrug i erddi Llanberis a "lladd dau dderbyn ag un lwmp".

Fel myfi 'rwyn siŵr fod Mr Jones, hefyd, yn gwybod am rywun o'r teulu neu ffrindiau a fuasai'n falch o'r cyfle hwn – ryw fath o "one man and his dogs".

Meddyliwch trosto, Mr Jones, ac hwyrach y cawn gyfarfod i drafod y mater ymhellach.

B. Jones  
30 Stryd Fawr  
Llanberis

### DIOLCH

Annwyl Syr,

Erfyniaf eich caniatâd caredig i ddiolch am lawer iawn o lythyr yn cydymdeimlo â mi a'r teulu yn ein profedigaeth fawr o golli fy annwyl briod, Megan, ar Mawrth 15. Gan y byddai'n ormod o dreth arnaf i ateb pob un yn bersonol, fel y carwn, gwn y byddwch yn cydymddwyn â mi, tra'n mynegi fy ngwerthfawrogiad yn y ffordd yma yn 'Eco'r Wyddfa'.

Dioddefodd yn ddi-gŵyn ymosodiadau'r galon, yn barhaus yn ddiweddar, ac am ei harbed rhag hirboen pan ddaeth diwedd.

Carwn ddatgan ein cydymdeimlad cywir iawn â'i hannwyl chwaer, Mrs Gwladys Jones, Llanrug. Yr oedd y ddwy mor wirioneddol hoff o'i gilydd.

Diolch i chwi, gyfeillion annwyl, am eich cydymdeimlad, ac am eich cyfarchion pen-blwydd yn ddiweddar i mi, yn bedwar ugain oed.

Yr eiddoch yn ddiffuant,  
Edward J. Owen,  
4 Florence Terrace,  
Falmouth,  
Cornwall.

Er cof am  
Mrs Megan Mair Owen  
Tyddyn Rhuddallt, Llanrug

O'i chartref ym Mhonrhythallt  
Y daeth i Borth-y-De  
Megis gwarcheidol angel  
A'i fendith dros y lle;  
I bob credadun is y nen  
'Roedd drws 'Eryri' led y pen.  
Bu'n mynd a dod i Beniel  
Yn selog gyda'r saint;

Cyflawnai'r 'Pethau Bychain'  
A'i chyfri'n uchel fraint;  
Yn hardd ei gwedd, a'i chroeso iach  
A hwyliai bawb i'r 'Capel Bach'.

A'r heniaith ar yr aelwyd  
Mewn urddas yn ymdroi  
Ar lafar ac o lyfrau –  
Cymru ei hun a ddoi!  
Rhin pob Cymreigrwydd dan y ne'  
A berchid yn y man a'r lle.

Megis ei thad, ers talwm,  
'Roedd hithau 'Yn yr Ardd',  
A'i phennaf mwyniant ydoedd  
Rhannu ei blodau hardd:  
Fe fydd ei rhodiad yn y tir  
Yn dal i berarogli'n hir.  
(Y Parch R. Maurice Williams;  
Cyn-weinidog Capel Cymraeg  
Southport)

### CYFLE I BLEIDLEISIO

Annwyl Ddarllenydd,

Gyda dyfodiad S4C, bu'r misoedd diwethaf yn rhai cynhyrfus a diddorol i bawb sy'n hoffi difyrwch yn Gymraeg. Cawsom fwy o raglenni teledu yn ein hiaith ein hunain nag a gawsom erioed o'r blaen. Am hynny, penderfynodd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn eleni gynnal cyfarfod i wobrwyo rhai o'r bobl a roddodd berfformiadau rhagorol i ni yn ystod 1982-3. Dyma'r gwobrau a roddir:

Tlws i'r actor gorau (naill ai ar y teledu, ar lwyfan, neu ar y radio);  
tlws i'r actores orau (yr un amodau eto);  
tlws i'r actor mwyaf addawol (yr un amodau);  
tlws i'r actores fwyaf addawol (yr un amodau);  
tlws i'r sgriptiwr/sgriptwyr gorau;  
tlws am y cynhyrchiad gorau.

Sefydlir panel a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o feysydd teledu, y theatr, radio a'r Eisteddfod, a gwaith y panel fydd enwebu o enwau ym mhob un o'r categorïau a nodir uchod. Yna anfonir papurau pleidleisio i'w cynnwys yn eich Papur Bro chi. Gobeithiwn yn fawr y bydd gennych chi ddiddordeb mewn llenwi'r papur pleidleisio, fel y gellwch gymryd rhan yn y gwaith o ddewis pwy gaiff y tlysau.

Cynhelir cyfarfod i gyflwyno'r Tlysau Teilyngdod yn Theatr Newydd yr Eisteddfod ar y maes yn Llangefni. Bydd y cyfarfod o dan nawdd Pwyllgor Drama Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn. Fe'i recordir gan HTV, a'i ddarlledu yn gynnar yn yr hydref (mae'n debyg).

Mae'n gynllun cyffrous! Cymerwch ran ynddo! Edrychwch am y papur pleidleisio yn rhifyn nesaf y papur hwn!

Yn gywir iawn,  
Derec Llwyd Morgan  
(Cadeirydd Pwyllgor Gwaith  
Eisteddfod 1983)

Annwyl Syr,

Daeth rhifyn Ebrill o'ch papur, 'Eco'r Wyddfa' i'm llaw a chefais bleser pur wrth ddarllen drwyddo. Dyma'r gwerth 20 ceiniog gorau a gefais ers tro byd! Llauer o ddiolch.

Daliodd colofn Mary Lloyd Williams fy sylw ac, yn arbennig,

"adroddiad" y Dydd Diolchgarwch. Diddorol yw'r hyn a ddywaid amdano ac y mae'n cytuno, yn rhannol, â'r hyn sydd gennyf innau i'w ddweud. Cofiaf glywed yr "adroddiad" hwn am y tro cyntaf mewn cyfarfod adloniadol yn hen ysgol Garreg Onnen, Soar, Bodorgan, a minnau ar y pryd yn hogyn go ifanc, ac wedi mynd yno hefo 'nhad a oedd yn gofalu am yr eglwys (M.C.) yn yr ardal ddiddorol honno. (Bûm innau'n gofalu amdani hefyd flynyddoedd yn ddiweddarach. Nid yn aml y digwydd hynny – tad a mab yn eu tro yn bugeilio'r un eglwys. Ond stori arall yw honno.)

Cofiaf y noson o dan sylw yn glir iawn. Gwas-fferm cyhyrog oedd yn adrodd y darn a chafodd ddylanwad rhyfedd ar bawb oedd yn bresennol. Erys argraff ar fy meddwl i rywun ddweud mai efô a'i cyfansoddodd. Tybed ai y "gwas bach ar fferm yn Amlwch" y sonia M.L.I.W. amdano ydoedd yr adroddwr y noson honno – wedi "newid lle" yn ôl arfer gweision Ynys Môn y pryd hynny ac wedi tyfu yn "was mawr"? Fodd bynnag, gofynnodd fy nhad iddo am gopi o'r "adroddiad" ac y mae hwnnw o'm blaen y funud yma – yn ei lawysgrifen ei hun. Nid yw yr un fath ag un M.L.I.W. air am air. Y mae'n amlwg fod rhai camgymeriadau yn ei chopi hi – rhai "argraffu" fe ddichon? Ac yn sicr y mae'r paragraff olaf yn anghywir a chymysglyd iawn. Fel a ganlyn yw'r copi sydd gennyf i:  
"Dydd Diolchgarwch diweddfaf daeth Dinah Daniels, dynes dal, denau, drwsiadus dros draethell Dulas dan dynu delysg. Daliodd Dic Dafydd dew, daltentog,

di-dduw. Dechreuodd Dic dyngu, dilorni, difrio Duw, damnio dyn. Daeth dychryn dros Dinah Daniels, dywedodd dan deimlad dwys, Daw dydd dial Duw, Dic Dafydd; dydd dychrynlyd, dydd difrod, dydd dinystr, dydddigofaint dwyfol. Diffydd Duw drahauster dyn, delwa (sic: "deil" a ddylai fod?) dynion dan dreio dianc; daw diawlaid diffwys, dirwasgant, dirdynnant, dygant Dic Dafydd dan dyngu – dyn drwg, dyna damaid Diafol. Daeth dychryn dros Dic Dafydd, dechreuodd dywallt dagrau diferol. Duw Dad, dolefodd, dyro drugaredd dirion Dad, dyro drugaredd dros draethell Dulas. Drachefn daeth dolef Dic, Duw Dad dyro drugaredd, dyro drugaredd dirion Dad, dyro drugaredd.

Duw Dad drugarhaodd, dosturiodd, dileodd droseddau duon Dic Dafydd: dilynnodd Dydd Diolchgarwch diddan, dedwydd – dim damnio Dic Dafydd, diolch diderfyn."

Sylwer nad yw'n bosibl cael y treigladd cywir bob tro.

Ifor Rowlands, Ponciau  
(Gweinidog Croesywaun a'r  
Ceunant erstalwm)

O.N. Cofiaf adrodd y darn mewn noson lawen i ddathlu Gŵyl Ddewi pan oeddwn yn fyfyrwr yn Aberystwyth tua diwedd yr Ail Ryfel Byd. Y Gŵr Gwadd ydoedd Mr Saunders Lewis a bu'n fy holi ar y diwedd beth oedd hanes y cyfansoddiad rhyfedd. Ond yr hyn a erys ar y cof ydyw'r hyn a ddywedodd arweinydd y noson wedi imi orffen adrodd, Emrys Davies un o fyfyrwyr y Coleg Diwinyddol. Meddai, yn ei ffordd ddi-ffrwt ei hun: "Dros drueiniaid diwinyddol, diolch." Chwarddodd Saunders Lewis yn iach dros y lle a bu'n rhyw bwffian chwerthin bob hyn a hyn am y gweddill o'r noson!

### De Affrica yn galw Llanberis

Pan aeth Mr Gwilym Jones, Llwyn Gwian Bach, Dyffryn Ardudwy i Dde Affrica yn ddiweddar, daeth i gysylltiad â gŵr sy'n hannu o Lanberis. Dymuniad Mereydd Jones, sydd yn ei saithdegau, ac yn byw yn Kimberley yw cysylltu ag unrhyw un sy'n debygol o'i adnabod yn yr hen fro.

Dyna'r ychydig wybodaeth a gawsom amdano. Ymfudodd John Robert a Margaret Gwladys Jones, sef ei dad a'i fam, o Lanberis i Dde Affrica yn 1912. Soniwyd bod dau

frawd gan ei dad – William ac Edward Jones. Roedd ei dad yn fardd ac enillodd gadeiriau mewn eisteddfodau yn Ne Affrica.

Os oes unrhyw un o'n darllenwyr yn adnabod Mr Meredydd Jones, neu'n gwybod unrhyw beth am ei deulu, yna byddai'n falch iawn o dderbyn gair. Ei gyfeiriad yw: 61. Milner St., Kimberley, 8301, Republic of South Africa.

Ein diolch i Mr Gwilym Jones, Dyffryn Ardudwy am gysylltu â'r Eco.

# CABS PADARN

## FFÔN:

### LLANBERIS 871347

#### Gwasanaeth Tacsï a Bws Mini

#### Gwasanaeth Maes Awyr a Phorthladd

#### Unrhyw bellter: Hur Contract



# LLANBERIS

**Gohebydd – Mrs Siân Thomas, Tŷ'r Ysgol, (Llanberis 870220)**

**Y PRYDAU PAROD** – Mae'r Prydau Parod (Meals on Wheels) wedi aildechrau eto ar ôl y gwyliau. Y trefnydder y dechreuad ydoedd Miss Ann Jones, Teras Minafon, ond gyda ysgrifenyddiaeth Clwb yr Henoed, a'i gwaith gwirfoddol gyda Chartref Pengwaith teimlai na fedrai gario ymlaen. Ond, mae aelod arall o Bwyllgor Clwb yr Henoed, Mrs Doris Hughes, Beech Bank wedi ymgymryd â'r gwaith. Carwn fel Llywydd Clwb yr Henoed ddiolch i Miss Ann Jones am ei ffyddlondeb ac i Mrs Doris Hughes am ei pharodrwydd i ymgymryd â'r gwaith. Diolch hefyd i'r aelodau eraill sydd yn paratoi y 'Te Bach' bob yn ail ddydd Gwener, ac am bresenoldeb y pensïynwyr.

**PANTOMEIM** – Go dda yn wir – pantomeim gwreiddiol o 'Sinderela' yn cael ei berfformio yn hynod o naturiol gan adran leol o'r Brownies yn y Ganolfan ddiwedd Mawrth. Diolch yn fawr i Bethan Hughes ac Alicia Sparkey am hyfforddi'r plantos, ac hefyd i rai o'r Guides am ddarparu'r baned de.

**DATHLU'R PASG** – Bu'r eglwys lleol yn dathlu'r Pasg drwy ddulliau amrywiol. Yn Nant Padarn yn y bore cafwyd cyfarfod o gofio'r Wyl gan yr aelodau, ac araith gynhwysfawr iawn yn yr hwyr gan Mr Tom Henry Jones, Rallt Goch.

Yn Jerusalem bnawn Sul trefnwyd pasiant gan blant yr Ysgol Sul yn adrodd hanes y Croeshoeliad. Arweiniwyd gan Mr William Roberts. Cyfeiliwyd gan Mr Robert Lloyd a rhoddwyd yr annerchiad i'r plant gan Mr John Hugh Hughes.

Yng Nghapel Coch trefnwyd gwasanaeth undebol dan arweiniad y Parchedigion Huw John Hughes a Gwynfor Williams bnawn Gwener y Grogllith pryd y gweinyddwyd y cymun.

**I CANADA** – Un arall o'r trigolion i fynd i Canada yw Mrs Katie Griffith, Maes Padarn. Mynd yno am ysbaid at ei chwaer Mair y mae. Dymunir iddi siwrnai dda ac amser difyr yno.

**'YNG NGHWMNI'** – Llongyfarchiadau i Rosalind a Myrddin a'u gwesteion am raglen ddifyr iawn. Yr unig fai ydoedd fod y rhaglen mor fyr. Carai pawb a fu'n ffodus o'u clywed fod wedi cael rhyw hanner awr ychwanegol o'u canu grymus ac effeithiol. Beth am noson arall Rosalind a Myrddin? Mae mwy na digon o raglenni Saesneg ar Sianel S4C ac mae gwir angen am fwy o raglenni Cymraeg.

**CONFFIRMASIWN** – Sul y Blodau bythgofiadwy fydd Sul y Blodau 1983 i rai o bobl ifanc yr ardal. Dyma'r Sul, yn Eglwys hynafol Llanbeblig, Caernarfon, y confirmiwyd 14 o aelodau Sant Padarn gan Esgob Cledan, esgob newydd Bangor.

Dyma'r aelodau newydd a dderbyniwyd i Eglwys Crist: Cheryl Edwards; Diane Jones; Ceri Lynne Parry; Vera Lynne Jones; Alice Gaynor Jones; Beverley Ann Pitts; Eleri Williams; Nia Williams; Mrs Eluned Parry Jones; Mrs Ann Gwendoline Ellis; Gareth Wyn Owen; Dylan Roberts; Darren Ellis; Neil Ellis.

**CYDYMDEIMLAD** – Yn ystod y mis bu profedigaeth yn curo wrth ddrws rhai o'r ardalwyr, estynnir y cydymdeimlad llwyraf iddynt oill:

Cafodd **Mr A.J. Lambert**, 65 Maes Padarn, wybodaeth am farwolaeth sydyn ei frawd yng ngwlad Belg.

Cafodd **Mrs Pat Williams** wybod am farw ei thad oedd yn aros gyda'i chwaer yn Salisbury.

Colli ei mam wnaeth Mrs Phyllis Jones, Dôl Elidir. Roedd yn byw ym

Methel, ger Caernarfon.

Yn Cesarea y bu farw mam Evan Thomas, Maes Padarn.

Cael ei lladd ar y briffordd ger Watford wnaeth chwaer yng nghyfraith Mrs M. Hughes, Pen-y-Gilfach. Cydymdeimlir â hi a'i mab, Selwyn yn eu profedigaeth.

**CASGLIAD BARNARDO** – Casglwyd dros £100 at Gartrefi Barnardo eto eleni, a dymuna y trefnydd Mrs Dorothy Jones ddiolch i'r cyfeillion a fu'n casglu yn ddygn iawn o dŷ i dŷ yn yr ardal.

**CYNGERDD** – Nos Sul y Pasg cynhaliwyd cyngerdd yng Nghapel Coch gan Barti Godre'r Garth, Pontypridd. Y Llywydd ydoedd Mr John Hugh Hughes, Prifathro Ysgol Dolbadarn, ac arweiniwyd y noson gan William Morus Jones.

Trefnwyd y cyngerdd gan Bwyllgor Drama Llanberis.

**SEFYDLIAD Y MERCHED** – Cynhaliwyd cyfarfod mis Mawrth yn y Ganolfan gyda Mrs Hannah Jones, Tawel Lan yn llywyddu. Darllenwyd y cofnodion a'r llythyr Misol gan yr ysgrifenyddes. Cydymdeimlwyd â Mrs Jane Lloyd Jones ar golli ei brawd yn Iwerddon, a dymunwyd yn dda i Mrs Janet Davies, Stryd y Dŵr, a Mrs Katie Griffith, Maes Padarn ar ei hymweliad â Canada yn ystod yr wythnosau nesaf yma. Penderfynwyd eto eleni fynd i'r opera yn Llandudno yn ystod mis Mai i weld perfformiad o'r 'Vagabond King', gan Gwmni Opera Llandudno.

Y gŵr gwadd y mis hwn ydoedd Mr Bob Thomas, Swyddog Atal Tân, o Gaernarfon. Cafwyd sgwrs ddifyr iawn ganddo a ffilm i ddysgu sut i atal a diffodd tân yn y tŷ. Diolchwyd iddo gan Mrs Rona Thomas, Stryd Newton, ac eiliwyd y diolchiadau i Mr Thomas a'r cyfeillion a drefnodd y sosial, gan Mrs Dwynwen Roberts. Trefnwyr y sosial ydoedd: Mrs Kate Morris, Mrs M.W. Thomas, Mrs Gwen Edwards a Mrs J. Lloyd Jones. Enillwyd y raffl gan Mrs Annie Blodwen Jones.

**JUDO** – Concwest eto i Adrian Williams yng Nghampwriaethau Blyneddol Gwynedd gyda Judo. Enillodd y Fedal Aur yn ei oed a'i adran. Dewisiwyd Adrian yn aelod o Dim Judo Prydain, ac mae hyn yn anrhydedd mawr ac yn profi ei allu arbennig. Llongyfarchiadau i chi Adrian, daliwch ati.

Hefyd llongyfarchiadau i Gillian Evans, Isallt, Stryd Newton am ennill dau dlws yng Nghystadleuaeth Adran Gwynedd a gynhaliwyd yng Nghaergybi ar Fawrth 19. Llwyddodd i ennill y Tlws Pres yn y gystadleuaeth i Enethod Iau o dan 50 kg, a'r Tlws Arian yn y gystadleuaeth i Ferched Hŷn o dan 48 kg. Hefyd yn gynharach yn y flwyddyn enillodd y tlws arian yn y gystadleuaeth o dan 48 kg ym Mhencampwriaeth Adran Ogleddol o Gymdeithas Judo Cymru, a gynhaliwyd ym Mhlas Madog, Wrecsam. Tair ar ddeg oed yw Gillian ac mae'n aelod o Glwb Judo Bushido, Bangor ac yn ddisgybl yn Ysgol Brynrefail, Llanrug.

**MEINI GORPHWYSFA** – Pryderu y bu amryw o aelodau Capel Gorphwysfa wrth weld yr adeilad yn cael ei ddymchwel a'r meini sgwâr yn cael eu cludo i ryw 'dym' nid nepell o'r ardal. Ond cymerwch gysur, mae'r gwenithfaen a fu'n furiau cadarn i'r capel i'w gweld wedi eu codi yn wal solat ar y chwith ym 'Mhen Greuor' tua allan i Lanrug. Mae'n bleser i'r llygaid gael edrych ar gampwaith crefftwyr cyffredin. Pwy bynnag yw'r ddau saer-maen sy'n gweithio ar godi'r wal, derbyniwch longyfarchiadau pob teithiwr sydd yn mynd heibio – a gobeithio y pery'r

wal cyn hired ag y bu'r capel ar ei draed.

**LLONGYFARCHIADAU** i'r plant yma yn eu arholiadau gyda'r piano:

**Rhagarweiniol:** Anna Roberts, Euron Thomas, Alan Pritchard, Iestyn Roberts, Marc Lloyd Williams.

**Gradd 4:** Sian Pritchard.

**CARNIFAL 1983** – Mae Carnifal 1983 wedi dechrau ar y gwaith yn barod. Dyma'r plant a ddewiswyd i berfformio am eleni:

**Brenhines y Carnifal:** Sharon Wyn Prydderch.

**Morynion:** Carys Wyn Owen, Olwen Harries.

**Cudwr y Goron:** Derfel Owen.

**PRIODAS** – Yng Nghaernarfon ychydig wythnosau yn ôl priodwyd Elaine, merch Mr a Mrs Percy Jones, Plas Coch â David Michael Evans o Ddeiniolen. Dymunir i'r pâr ifanc bob bendith a hir oes.

Dymuna David ac Elaine Davies ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu priodas. Maent wedi gwneud eu cartref yn London House, Clwt-y-Bont, Ddeiniolen.



**GWAELEDD** – Yr adeg hon o'r flwyddyn yw'r amser caletaf i'r claf. Bu'r gaeaf a'i fisoedd oer a gerwin yn hir a diddiwedd, ac yn awr ar drothwy'r gwanwyn mae'r salwch yn aml yn ymweld yn drwm a diobaith. Gadewch inni gofio y rhai hynny, ein cyfeillion a'n cymdogion sydd wedi brwydro drwy'r gaeaf ac sydd yn dyheu am haul a hindda, ac am adnewyddiad corff a meddwl, ond cofier, hir fydd yr araf yn cyrraedd ei daith. Dymunwn adferiad i bawb o'n cyfeillion yn yr ardal sydd yn wael yn eu cartrefi neu yn yr ysbyty. Hwyrach fod rhai wedi dychwelyd adref o'r ysbyty – da wir – adferiad llwyr iddynt, yn yr ysbyty neu yn eu

cartrefi:

Mrs Katie Williams Derwen Deg, Mrs Enid Roberts Maes Padarn, Mr Cledwyn Pritchard Rhes Vaynola Mrs Myfanwy Jones Llys Eryri yn yr ysbyty; a Mrs Mary Roberts Newton Hall, Mrs Annie May Lucas Dôl Elidir, Mr Thomas Arthur Pritchard Central Garage a Mrs Peris Thomas Maes Eilian gartref.

**MARWOLAETH** – Mae'r pentrefwyr hynaf yn cofio Richard Hughes a'i briod Lilla yn byw am flynyddoedd lawer yn Fron Olau, a dau o blant ganddynt, mab a merch, Gwilym a Wenna. Mab i'r diweddar Robert Hughes a'i briod Llwyndyrus oedd Richard, a'i briod yn ferch i Mr a Mrs W. Roberts, Cwm Eilir ac yn ddiweddarach yn Rhif 1, Padarn Road. Ddiwedd mis Mawrth tra'n croesi un o draffyrdd prysuraf Watford, trawyd Lilla i lawr a'i lladd yn y fan a'r lle. Roedd yn 78 oed. Claddwyd ei gweddillion ym mynwent Nant Peris. Cydymdeimlir â'i chwaer yng nghyfraith Mrs W. Hughes, Pen-y-Gilfach a'i nai Selwyn.

**CYMDEITHAS MERCHED LLANBERIS** – Ym mis Chwefror aeth nifer o ferched Llanberis at ei gilydd i sefydlu cymdeithas newydd – Cymdeithas Leol y Merched. Maent yn cyfarfod ar y gyntaf a'r drydedd nos lau o bob mis yn y Ganolfan, ac unwaith y mis ceir gŵr gwadd i roi annerchiad. Mae croeso i'r hen a'r ifanc ymuno. Y swyddogion yw: Llywydd: Mrs Joan Hardwyn, Glan-y-Bala; Trysorydd: Mrs Ellen Houdle, Afallon, Stryd Newton; Ysgrifenyddion: Mrs Gartside, Crompton House a Mrs Gruffydd.

**I'R YSBYTY** – Ar ôl misoedd o ddisgwyl mae Bob Owen, Coed Mawr wedi cael galwad i Ysbyty Gobowen lle y bydd yn disgwyl triniaeth lawfeddygol. Dymunir iddo adferiad llwyr yn fuan iawn.

**WYTHNOS WYL** Mudiad Ysgolion Meithrin, 7-14 Mai – Cynhelir Noson Goffi ac arwerthiant yn y Ganolfan, nos lau, 12 Mai am 6.30 er budd yr Ysgol Feithrin, Llanberis.

**LLONGYFARCHIADAU** – I Carl a Gwawr Wager, Manceinion ar enedigaeth eu plentyn cyntaf, mab Gareth Antony – ŵyr i Bert ac Anne Parry, Llys Orwig, Stryd Newton a Mr a Mrs Colin Wager, Lythyrdy, Brynrefail, 20 Ebrill – yr un diwrnod â phen-blwydd ei daid Llanberis. Mae Carl a Gwawr wedi ymgartrefu yn Ashton-under-Lyme ers tair blynedd. Bydd y bedydd yn Eglwys Nant Peris yn y dyfodol agos.

## EGLURO

Ofna Bert Parry, Llys Orwig, Stryd Newton na chaiff ei adnabod fel Idwal Bertram Parry oddi ar bapur enwebu Cyngor Cymdeithas Llanberis. Fe'i hadnabyddir yn y pentref fel Bert Parry, mab y diweddar George Parry, Turner.

Ar gyfer pob parti . . .  
I ddathlu pob achlysur . . .



# Gwesty'r Foelas

(Richard a Meirwen Thomas)

## Llanrug

Ffôn: CAERNARFON 4652



## CWM-Y-GLO

EISTEDDFOD CLWB Y GRAIG - Dyma restr o'r enillwyr yn yr Eisteddfod a gynhaliwyd nos Wener, Mawrth 18.

**Adrodd:** dan 4 oed, 1. Gwennan Roberts a David Wager. 4-6 oed, 1. Ellen Roberts 2. Terry Williams. 6-8 oed, 1. Carys Williams a Nicola Houston 2. Owain Gwynn a John Evans. 8-10 oed, 1. William Wordle 2. Nia Hughes 3. Kelvin Houston. 10-12 oed, 1. Sally Ellis 2. Catrin Gwyn 3. Einir Gwyn. 12-15 oed, 1. Nerys Williams a Allison Jones. Parti Cydadrodd, 1. Cwm y glo. Adrodd dros 50 oed, Mrs A. Hughes. Brawddegau a storïau, dan 10 oed, 1. Nia Hughes 2. Eira Wyn Evans 3. Rhian Morris a William Wordle, dan 12 oed, 1. Catrin Gwyn 2. Einir Gwyn 3. Glenda Walters, dan 15 oed, 1. Alison Jones 2. Myfanwy Roberts 3. Karen Ffoulkes. Brawddeg yn cynnwys y llythrennau 'Cestyll Cymru', 1. Mrs Lennon. Parodi, 1. Mrs G. Chick 2. Mr Llew Hughes. Llinell Goll, 1. Mrs G. Chick 2. Mr E.T. Jones.

**Canu:** dan 4 oed, 1. Iola Davies 2. Gwennan Roberts a David Wager. 4-6 oed, 1. Delyth Morris 2. Ellen Roberts. 6-8 oed, 1. Debbie Jones 2. Owain Gwyn 3. Carys Williams a Nicola Houston. 8-10 oed, 1. Kelvin Houston 2. Nia Hughes 3. Rhian Morris. 10-12 oed, 1. Catrin Gwyn 2. Sally Ellis 3. Paula Walters a Monica McAfferty. 12-15 oed, 1. Alwen Jones 2. Myfanwy Roberts. Côr Plant, 1. Côr Alwen, Brynrefail. Enillydd Cwpan Canu'r Piano, Caron Jones, Brynrefail. Enillwyr Cwpan Câr Werin, Côr Merched Brynrefail.

**Arllunio:** dan 5 oed, 1. Tony 2. Iola a Ellen 3. Martin Wyn a Sara. Dan 7 oed, 1. Emma 2. Marian a Debbie 3. Nicola a Gareth Davies. Dan 9 oed, 1. Owain Gwyn 2. Iolo Eilian a William Wordle 3. Sharon Thomas. Dan 12, 1. Catrin Gwyn 2. Karen Williams a Moria Evans 3. David Ffoulkes a Paula

Walters. Dan 15, 1. Alison Jones 2. Nerys Williams 3. Medi Jones.

**Gwnio** 1. Mrs M. Lennon. Croshio, 1. Mrs D. Parry. Côt i faban, 1. Mrs D. Jones 2. Mrs O. Roberts a Miss S. Roberts.

**Cacennau** Ffansi, dan 15 oed, 1. Eleri Gwennan a Sandra Williams. Sbwng Victoria, 1. Mrs McAfferty 2. Myfanwy Roberts.

Rhoddydd y cwpanau gan y Clwb leuencid a Mrs Eryl Roberts.

**GWAELEDD** - Deallwn fod Mr Peris Roberts, Penrallt yn Ysbyty Môn ac Arfon. Dymuniadau gorau iddo, a gobeithio y bydd adref yn fuan. Mae Mrs Williams, New Street wedi dychwelyd adref ar ôl ysbaid yng nghartref Pengwaith, Llanberis. Hyderwn y caiff hithau fwynhau gwell iechyd yn y dyfodol, a phawb arall yn y pentref sydd yn dioddef gwaeledd ar hyn o bryd.

**CLWB POBL Y CWM** - Yng nghyfarfod y clwb bawn lau, Ebrill 7fed rhoddodd Mrs Mary Lloyd Williams, Llanrug sgwrs ddiddorol ar ei phrofiadau amrywiol wrth ymweld â gwahanol eglwysi o Sul i Sul. Mae ei dawn arbennig o draddodi yn bleser i wrando arni bob amser. Diolchwyd iddi gan y Llywydd, Mr Llew Hughes.

Cydyrdeimlwyd â Mr a Mrs R.H. Parry yn eu profedigaeth ddiweddar. Rhoddwyd y te gan Mrs E. Hughes, Hyfrydle a Mrs B. Williams, Mona a'r raffl gan Mrs Morris, Hafan. Enillwyd y raffl gan Mr H. Pritchard, Bryn Gwynedd.

Awel ddiolch i bawb am eu caredigrwydd ar achlysur ei ben blwydd yn ddeunaw oed.

**LLONGYFARCHIADAU** i Alan ac Iestyn ar basio Gradd 1 ar ganu piano, a hefyd i Sian Ellen am radd 4, a David am radd 6 ar ganu offeren chwyth. Mae dylanwad cerddorol Taid, sef T.J. Roberts, Llys Awel yn amlwg yn yr wyrion.

**LLONGYFARCHIADAU** i Mr Meirion Wyn Pritchard, Tŷ Isa a'r teulu ar y rhaglen Cefn Gwlad ar S4C. Yn anffodus nid oedd yn bosib i ni yma yn y Nant ei gweld gan nad yw S4C wedi cyrraedd yma eto. Yn ôl y rhai a'i gwelodd roedd yn rhaglen dda iawn.

## CYNGOR CYMDEITHAS LLANBERIS

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor yn Angorfa Mawrth 31 dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd Francis Jones.

### Tapiau Cau Dŵr

Penderfynwyd gofyn i'r Cyngor Sir i ailosod y tapiau cau dŵr sydd ar balmentydd Llanberis er diogelwch y cyhoedd.

### Cystadleuaeth Gerddi Tai Cyngor

Mae cystadleuaeth wedi ei threfnu dan nawdd Cyngor Arfon, i denantiaid eu tai cyngor. Bydd dwy wob, un i'r ardd lysiau ac un i'r ardd flodau orau. Y beirniad yw Mr R.T. Jones, Penygroes.

### Lamp newydd

Mae'r cyngor wedi gwneud cais i'r Cyngor Sir i gael lamp ychwanegol yn Nheras Fron Deg Uchaf.

### Cefnogi 'Bysys Bach y Wlad'

Mae'r cyngor yn bwriadu cefnogi cwmni bysiau K.M.P. i gadw'r hawl i ddefnyddio'r safle parcio ger ffatri Greengate. Bydd hyd yn sicrhau parhad y gwasanaeth bysiau preifat yn y pentref.

### Addewid

Mewn cyfarfod rhwng aelodau'r cyngor chynrychiolwyr y Bwrdd Canolog Cynhyrchu Trydan Mawrth 7 cafwyd addewid y byddai'r Bwrdd yn cau'r pwll dŵr yng ngheg y twnel yn Nant Peris a'i wneud "mor ddiogel ag sy'n bosibl".

### Defnyddio tir Stryd Goodman

Gofynnwyd i'r Cynghorydd Francis Jones godi mater y tir gwag yn Stryd Goodman mewn cyfarfod o Gyngor Arfon gyda'r bwriad i'r Cyngor ddarganfod a oes diddordeb i'w brynu gan drigolion y tai cyfagos.

### S4C i Nant Peris

Bu'r Cynghorydd Francis Jones

mewn cyfarfod â Phrif Swyddog Technegol a Thrysorydd Cyngor Arfon. Y canlyniad yw y bydd y gwasanaeth ar gael i bobl Nant yn weddol fuan. Mae cyfarfod cyffredinol yn Nant Peris wedi ei drefnu gan y Cynghorydd Francis Jones i drafod y mater o gyfrannu.

### Gwasanaeth Bysiau Bangor - Llanberis

Yn ôl adroddiad o'r Cyngor Sir a anfonwyd i'r Cyngor bydd y newidiadau canlynol i'r gwasanaeth bysiau yn digwydd Mai 16:

1. "Unir y siwrneiau 5.30 a 6.10 pm i gychwyn o Fangor am 5.40 a rhedeg i Fethel via Seion gyda chysylltiad N99 i Lanberis." Bydd hyn yn rhoi "amser hwylusach i weithwyr siopau ac yn osgoi dyblygu gwasanaethau."
2. Unir y 6.28 pm Llanberis - Bangor a'r 6.40 pm Rhiwlas - Bangor i gychwyn o Fethel am 6.33 (gyda chysylltiad N99 o Lanberis) a rhedeg via Seion a Rhiwlas i gyrraedd Bangor am 7.18 pm." Bydd hyn yn rhoi "amser hwylusach i ymweld â Bangor gyda'r nos ac osgoi dyblygu gwasanaethau."
3. Y 9.05am Bangor - Llanberis a'r 10.13am Llanberis - Bangor i redeg 15 munud yn hwyrach". Bydd hyn yn caniatáu "digon o amser i newid gyrwyr yn y depo ar ôl gweithredu siwrnai ysgol."

Nid yw'r Cyngor Cymdeithas yn cytuno â'r ddau gyntaf. Y dymuniad yw cael gwasanaeth lle nad oes rhaid newid bws. Roedd cytundeb ynglŷn â'r trydydd.

## NANT PERIS


GOHEBWYR - Mr a Mrs J.W. Elis, Glanrafon

**GWAELEDD** - Ein cofion a dymuniadau da i Mrs N. Jones, 2 Glanrafon, Mrs A. Lloyd Roberts, Gwyndy gynt a Mr Elwyn Searall, Dwyfor sydd ar hyn o bryd mewn gwahanol ysbaid yn derbyn triniaeth. Gobeithir eu gweld gartref yn fuan wedi gwella.

**LLONGYFARCHIADAU** i Alwena a Dafydd Jones, Llanilyfni ar enediggaeth mab, brawd bach i Dylan a Nia ac ŵyr i Mr a Mrs T. Gwyn Pritchard, Bronallt.

**DIOLCH** - Dymuna David John, Llys

## ETHOLIAD CYNGOR BWRDEISTREF ARFON



Y Cyng. Francis Jones (Llafur)



Y Cyng. Brian Jones (Llafur)



John Gwyn Williams (Plaid Cymru)



Dei Tomos (Plaid Cymru)

Dyma'r pedwar sy'n ymladd am y ddwy sedd yn ward Llanberis, Nant Peris, Cwm-y-glo a Bro Rhyddallt yn etholiad Cyngor Arfon, ddydd Iau Mai 5. Francis Jones a Brian Jones yw'r cynghorwyr presennol.

## A ydych chi mewn busnes? A ydych chi'n meddwl cychwyn ar eich pen eich hun?

Mae Uned Diwydiannau Bychain yr Awdurdod yma i'ch helpu i fod yn llwyddiannus.

Fe gewch gyngor gan arbenigwyr profiadol ym mhob agwedd o redeg busnes. Yr ydym wedi dysgu sut i ddewis y ffordd orau i lwyddo ac yn gwybod am yr anawsterau.

Gallwch fanteisio ar ein cysylltiadau niferus gyda mudiadau eraill sydd yn awyddus i'ch cynghori, ac mae benthychiadau ar log isel ar gael i rai mathau o weithgareddau.

Mae eich swyddfa leol ym Mangor. Cysylltwch â ni i drefnu cyfarfod gydag un o'n cynghorwyr; cewch drafod eich syniadau a'ch gofynion yn rhad ac am ddim.

Uned Diwydiannau Bychain,  
Awdurdod Datblygu Cymru,  
Llys Garth, Ffordd Garth,  
Bangor. Ffôn: Bangor 352606

**Welsh  
Development Agency**



## TARO TANT

Fe fydd Teledu'r Tir Glas yn recordio dwy raglen o'r gyfres canu ysgafn Taro Tant ar gyfer S4C yn Theatr Gwynedd Bangor, Ar Fai 16, gyda Dafydd Iwan, Aelodau Cwmni Bara Caws, Dave Curtis ac Undeb Un; ac ar Fai 17 gyda Trebor Edwards, Margaret Williams, River City Jazzmen ac eraill. Tybed a fyddai diddordeb gan rai o'ch darllenwyr neu unrhyw un arall o'r ardal, fod yn rhan o'r gynulleidfa yn un o'r nosweithiau?

Mae tocynnau i'w cael yn rhad ac am ddim gan Theatr Gwynedd Bangor, neu gan Deledu'r Tir Glas. Fe fydd y drysau ar agor rhwng 7.00 a 7.20 o'r gloch. Croeso i bawb sydd â diddordeb.

## Costau Hael ac eS Di Pop – yn y Môn-Sŵn!

Mae cystadleuaeth canu pop ac ati yn beth cyffredin ymhob eisteddfod erbyn hyn. Ond yn Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn ym mis Awst eleni, mi fydd 'na ddau beth anghyffredin sy'n siŵr o ddenu mwy o gystadlwyr – costau teithio hael a chystadleuaeth canu eS Di Pop!

Mi fydd y grwpiau fydd yn cystadlu yn cael costau teithio yn dibynnu ar ba mor bell yw eu canolfan arferol o Faes yr Eisteddfod yn Llangefni.

Mae 'na dair graddfa o dalu: A, rhwng 30 a 75 milltir – £20; B, rhwng 76 a 120 milltir – £40; C, 121 milltir a rhagor – £60!

(Rhaid gwneud cais am y granitiau cyn Awst 12 eleni. Ni ellir ystyried unrhyw gais a dderbynnir wedi'r dyddiad hwnnw.)

**Beth ar y ddaear ydy eS Di Pop?** Yn syml iawn, fel y blaid wleidyddol ddiweddaraf sydd rhwng y dde a'r chwith, mae canu eS Di Pop yn ganu 'plesio pawb' neu 'ganol y ffordd'.

Felly, os oes 'na ryw Barry Manilow bach yng nghefn gwlad Cymru yn ysu am gynulleidfa – dewch i gystadlu yn y Môn-Sŵn!

Mae 'na gystadlaethau eraill, wrth gwrs, – o ganu gwerin i gyfansoddi cân rege a chanu roc, hefo gwobrwyon hael, tlysau arbennig gan bobl fel yr Urdd, MACYM ac Undeb Cymraeg Colegau Bangor ac eraill.

Y beirniaid fydd Caryl Parry Jones, Myfyr Isaac a Linda Healy. Mae'n rhaid i'r cyfansoddiadau gyrraedd Swyddfa'r Eisteddfod erbyn Ebrill 1, 1983 a rhaid i'r cystadlwyr llwyfan anfon ffurflen gais at y Trefnydd erbyn Mai 1, 1983.

Os am fanylion pellach a Rhaglen y Môn-Sŵn, ysgrifennwch yn syth bin at Swyddfa'r Eisteddfod, Stâd Ddiwydiannol, Llangefni, Ynys Môn LL77 7JA, neu ffoniwch Llangefni (0248) 724444.

Yn fy nodiadau yn y rhifyn diwethaf soniais am y gwahanol fathau o ganeries a'r lliwiau a ddatblygwyd dros y blynyddoedd. Un math ar Budgie sydd yn bod o hyd ond mae'r amrywiaeth lliwau a geir yn gwneud hyd yn oed yr enfys yn dlawd. Yn wir y mae math a elwir yn 'rainbow' gydag amryw lliwiau yn ymdoddi i'w gilydd. Mae math arall wedi ei rannu lawr y canol ar ffurf 'counterchange' gydag un lliw ar un ochr a lliw hollol wahanol ar yr ochr arall. Ceir budgies mewn pobl lliw o dan yr haul ac eithrio du a phinc ac mae gwobr hael – ac anfarwoldeb – yn disgwyl y cyntaf i fagu aderyn yn un o'r ddau liw yma. Cafwyd amryw yn proffesu fod ganddynt budgie pinc, ond proffwydwyd bob tro mai twyllwyr ydynt – rhai drwg, a rhai direidus.

Brodor o Awstralia ydyw'r Budgie, ac yno mae i'w gael o hyd mewn heidiau o filoedd ar filoedd yn bwydo ar hadau gwair, ac yn magu'r cywion mewn tyllau mewn coed – ei hoff goeden yw'r Eucalyptus. Yr unig liw a geir ar yr aderyn gwyllt yw gwyrdd, a datblygwyd yr amryliw eraill gan ddyn drwy fagu gofalus. Er bod yr aderyn wedi ei ddofio ers degau o flynyddoedd bellach, deil yr hen elfen o gymdeithasu yn ei gyfansoddiad o hyd, gan mai hapusach o lawer ydyw mewn ystafell yn llawn adar nag ar ei ben ei hun. Yn wir, ychydig iawn o lwyddiant a gafwyd erioed gan neb yn ceisio magu cywion gan un pâr yn unig, a bron na ddywedwn ei bod yn anhepgor cael mwy nag un pâr i'r adar setlo i lawr i fagu teulu. Peth od yw nad yw'n angenrheidiol iddynt weld ei gilydd gan fod clywed sŵn y gweddill yn eu bodloni.

Yn ddi-os os oes rhywun eisiau dechrau cadw adar gyda chyn lleied o drafferth ag sydd modd, y Budgie yw'r math gorau iddo. Maent wedi ymgartrefu yn rhagorol yn hin y wlad yma ac yn fodlon iawn ar eu hamgylchfyd, a gelwir hwy allan yng nghanol y gaeaf gyda'r eira ar lawr. Mae amryw o arddwyr yn cadw ychydig o'r rhain ac yn adeiladu 'aviary' fel canolbwynt i'r ardd. Mae'n nafodol, wrth gwrs, gofalu am loches iddynt yn ystod y nos.

Rhai blynyddoedd yn ôl bu ymdrech gan amryw i sefydlu straen arbennig o'r budgie gyda'r bwriad o'u gollwng yn rhydd yn ystod y dydd ac iddynt ddychwelyd gartref i fwrw'r nos – fel colomenod.

Yn flaenllaw iawn yn yr arbrawf yma oedd Dic Bedrod, a bu'r arbrofi yn eithaf llwyddiannus a gwelir rhai

## Ym myd yr adar

gyda Ieuan Williams



Dyma'r math o 'aviary' sydd yn atyniadol iawn mewn gardd a chyda'r Budgies yn hedfan o glwyd i glwyd yn creu ychwaneg o liw. Y mae'r rhain hefyd yn gymorth i'r adarwr profiadol gan fod yr awyr iach yn fanteisiol i'r stoc. Perchennog hon yw Mr Dewi Roberts, Glaslyn, Bethel, sydd wedi arbenigo yn y gorffennol mewn magu Budgerigars melyn.

yn hedfan o amgylch yr ystâd o hyd. Mae'r syniad o weld adar tramor yn hedfan o gwmpas yn un atyniadol iawn. I'r rhai ohonoch a ymwelodd â Burton-on-the-Water yn y Cotswolds, gwyddoch pa mor brydferth y gall rhai o'r adar estron yma fod yn hedfan ymysg y tai yno.

Gyda llaw, ym 1970, prynodd Len Hill, sefydlydd y 'Birdland' yn Burton, ddwy o ynysoedd y Falklands, – y Grand a'r Steeple Jason – ac mae'r ddwy gyda'i gilydd yn 60,520 acer. Y pris oedd £7,500. Bwriad Len Hill oedd gadael i'r Penguins.

Safon isel, yn gyffredinol, sydd ar y Budgies a gedwir ar y sustemau a grybwyllwyd yn barod. Fel gyda phopeth arall, os am gadw a chodi safon rhaid dethol yn ofalus a gofalu fod y ceiliog iawn yn caru gyda'r iâr a ddewisir iddo a'r unig ffordd i wneud hynny yw cadw pob pâr mewn cawell unigol, ond fel y dywedwyd eisoes, o leiaf o fewn sŵn eu cymdogion. Ar ôl gorffen magu gellir eu gollwng i un cawell mawr a gorau oll os oes modd iddynt fynd allan i'r awyr iach gan fod hyn yn iachusol dros ben iddynt.

Mae dau beth yn unigryw i'r Budgie. Yn union uwchben ei big mae math o grachen, ac o liw'r grachen gellir dweud beth yw rhyw yr aderyn. Mae crachen y ceiliog yn las a chrachen yr iâr yn winau. Peth arall unigryw yn perthyn i'r Budgie yw'r smotiau a geir ar waelod ei

wyneb. Mae'r rhain yn bwysig iawn mewn aderyn sioe. Chwe smotyn ddylai fod – tri pob ochr – a mwyaf yn y byd, gorau yn y byd, ond iddynt beidio a bod yn ddi-siâp ac yn cyffwrdd ei gilydd. Mae hawl i'w trin cyn y sioe a diddorol yw gweld smotiau'r Budgie yn cael yr un driniaeth ag aeliau merch. Mae prynu Budgie da yn eithaf costus, a rhaid meddwl rhywle o gwmpas £25 am bâr go lew. Talwyd miloedd yn ddiweddar gan Harry Bryan, un o brif ddynion yr adar, am un ceiliog.

Gofynnir i mi'n aml ai ceiliog neu iâr yw'r gorau mewn cawell yn y tŷ. Yn ddios y ceiliog yw'r gorau gan ei fod yn hawdd i'w ddofio, ac os cewch bigiad gan iâr yn y croen rhwng eich bawd a'r bysedd, mae'n un fythgofiadwy.

"Mae'r budgie bach acw yn dweud popeth, a byddwn yn sgwrsio am oriau," meddai gweddwr wrthyf ym Methel yn ddiweddar. Chware teg iddi yn meddwl cymaint o'i haderyn, ond myth hollol oedd ei syniadau. Ni all yr un aderyn siarad, ac yn sicr ni all sgwrsio. Dynwaredwr yw'r Budgie, yn ailadrodd yr un sŵn trosodd a throsodd heb yr un syniad o'u hystyr. Dynwaredwr rhagorol arall yw'r drydwen (starling), a dyna hanes Branwen i brofi hynny.

Felly, os yw "Jowi Bach" yn mynnu rhegi pan ddaw'r pen blaenor neu'r ficer ar ymweliad – digwyddiad hollol yw hynny.

## LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

### CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR



Ffôn 291

(yn ystod oriau agor)

AR AGOR  
9-7pm  
9-5pm Sadwrn

AR GAU  
SUL,  
MERCHER.

GWLÂU SENGL O £39 I FYNY  
GWLÂU DWBL O £75 I FYNY

DEWIS EANG O '3 PIECE SUITES'  
O £200 i £800

LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'

5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI MEWN STOC  
– ALLWCH CHI FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?



## 45 Stryd Fawr LLANBERIS

Ffôn: LLANBERIS 871 278

(Danny a Nerys Roberts)

Pryd gorau'r fro



## CHWILOTA

(Bwriad y gyfres hon yw 'chwilota' i hen hanesion, chwedlau a digwyddiadau yn ardal bro'r 'Eco'. Esgryn sychion yn unig fydd y mwyafrif ohonynt, ond gobeithir cael mwy o gnawd ar ambell un gyda help y darllenwyr. Os oes gan unrhyw un sylw neu wybodaeth ar unrhyw destun yn y gyfres, byddwn yn falch o glywed gennych. Anfonwch eich cyfraniadau i'r Golygydd Erthyglau.)

Daeth llythyr i law y mis hwn am 'Hen Fysus Bach y Wlad':

Tybed a fuasech yn caniatáu i mi apelio at eich darllenwyr i anfon i mi hen luniau o'r bysus oedd yn rhedeg o'r cylch i Gaernarfon ers dechrau'r ganrif hon. Y mae yn fy mwriad i baratoi casgliad o'r lluniau a'r hanesion amdanynt a'u cyhoeddi mewn llyfr.

Yr wyf eisoes wedi prynu hen goets Whiteways Waunfawr, Rhif DCC 125. 'Rwyf yn cael pleser mawr i'w hatgyweirio a gobeithiaf allu ei hadfer fel yr oedd yn newydd ym 1955. Efallai y cymer i mi ddwy flynedd i wneud hyn yn fy oriau hamdden. Buasai lluniau o'r goets yma pan oedd hi ar waith gan Whiteways 1955-1979 ac yn cario teithwyr ôl a blaen trwy'r wlad, yn werthfawr iawn i mi.


Lluniau hefyd o hen fysus D.M. Pritchard, Robin Huw, Nedw, Whiteways, Clynnog a Trefor, Crosville, Eric Morris, Cae Lloi, ac unrhyw gwmni arall fyddai'n rhedeg yng nghylch Caernarfon. Yr wyf eisoes wedi cael help a chynghorion gwerthfawr gan rai o'r cylch a diolchaf i chwi.

Pob llwyddiant i 'Eco'r Wyddfa' yn y dyfodol.

Diolch yn fawr i bawb.

Yr eiddoch yn gywir,

John A. Lloyd Williams  
Pine Lodge,  
23 Bury Road  
Old Harlow  
Essex CM17 0ED.  
gynt o Dwynfa  
Bontnewydd



Llun o'r goets yn cael ei thrwsio mewn garej yn Old Harlow. Cymerodd y siwrnai o'r Bontnewydd i Lundain 10 awr.



Dyma lun o un o fysus Crosville wedi mynd i'r wal rhyw fore, rai blynyddoedd yn ôl. Roedd newydd fod yn danfon rhai o'r chwarelwyr i Chwarel Dinorwig.

A wyl rhywun ymhle yn ardal Deiniolen y digwyddodd y ddamwain, a pha bryd? Un o ddynion Crosville sy'n sefyll wrth y bws, ond pwy yw'r bacheg sydd â'i gefn at y camera? (Llun trwy garedigrwydd Mr Gwyn Parry, Bro Dawel)

## Siopau Bach, Bach

Ni thybiais erioed y byddai cymaint i ddiddordeb gan gymaint o ddarllenwyr yn 'Yr Hen Aardal'. Bûm yn ymholi unwaith eto â Mrs Martin Owen, Stryd Newton, a chefais ganddi y wybodaeth yma am y **Siopau Bach, Bach**. Dyma'r siopau fyddai ar gongl y bwrdd yn y gegin – neu ar ryw hambwrdd a'i symud pan fyddai cwsmer yn y drws. Meddai Mrs Owen – “Llefydd difyr iawn oedd y siopau bach, bach yma. Prynu rhyw werth dimai o halen neu finag a rhyw hanner awr o sgwrs ddifyr wrth y tân efo Jane Jones neu Catrin Williams.” Roedd Siop Bach, Bach ym mhob stryd bron:

### Stryd y Ffynnon

Siop Catrin Williams (nain y diweddar R.J. Williams)

### Stryd yr Wyddfa

1. **Siop Maggie Roberts** – mam i Maggie Roberts oedd yn athrawes yn Ysgol Dolbadarn.
2. **Siop Jane Jones** – Pawb yn tyrru yno i gael pennog picl, nionod picl a chabej coch. Collodd Jane Jones ei phriod yn y chwarel ac roedd pawb am ei chefnogi – roedd mor ddiolchgar ac mor ddoniol bob amser.

### Stryd Goodman

Siop Mrs Pritchard

### Stryd Ceunant

Siop Robert Jones – da-da, pricia, matches, sebon

### Rallt Goch

Siop Siani Da-da – (y tŷ yn adfeilion ers blynyddoedd)

### Siopau Stryd Newton

1. **Siop Fara** a becws yn y cefn. Cario allan â chart a cheffyl bob dydd o'r wythnos.
  2. **No. 1 Stryd Newton** – Siop Mrs Roberts. Canhwyllau, halen, bob dim at ddiwrnod golchi, lliw glas, sebon.
  3. **Newton Hall** – Siop Bob Dim – paraffin, burum, bwyd, priciau. Cael ei chadw gan gwpwl *neis iawn* – Daniel a Christina Roberts, Annibynwyr selog iawn.
  4. **Siop Tŷ Clyt** – (Islwyn House). Siop ar gyfer y trigolion oedd yn byw yn y rhan uchaf o'r pentref.
  5. **Siop Refal** – Siop fechan – rhan o'r tŷ yn Bryniau Gerddi. Mrs Williams oedd y perchennog.
- 23 Manchester Row**  
Siop Robert Parry Baw – Gweithio ar y 'Council' oedd Robert Parry, ac yn reidio beic 3 olwyn i bob man!

Bydd rhestr faith o siopau'r Stryd Fawr, Llanberis yn dilyn y mis nesaf.

## DINORWIG

LLONGYFERCHIR Mr Kevin Jones, 4 Bro Elidir, Dinorwig, sy'n ddisgybl yn Ysgol Brynrefail, ar ei ddewis i chwarae pêl-droed yn adran Bechgyn Ysgol Gogledd Cymru, yn Ffrainc a Watford dros y Pasg. Pob hwyl i'r dyfodol Kevin.

CROESO O'R YSBYTY – Croesewir adref o'r ysbyty Mrs Katie Griffith, Arwelfa, Dinorwig, ar ôl cael ei tharo'n wael. Dymunir gwellhad pellach iddi.

CYMDEITHAS ADDYSG Y GWEITHWYR – Nos Fercher, Mawrth 30, yn y Ganolfan bu'r dosbarth olaf am dymor y gaeaf. Cafwyd darlith ar 'Hanes y Chwareli' gyda'r athro Mr Ted Williams, Bangor. Bwriedir cynnal dosbarth eto yn nechrau Hydref o dan y Gymdeithas.

TE'R CHWIORYDD – Daeth tymor Te'r

Chwiorydd Eglwys M.C. Dinorwig i ben am y gaeaf eleni. Y swyddogion yw: Mrs Betty Peris Roberts, 11 Maes Eilian yn ysgrifennydd, a Mrs Katie L. Hughes, 2 Maes Eilian, yn Drysorydd.

DIOLCH – Dymuna Mrs Katie Griffith, Arwelfa, Dinorwig, ddiolch o galon i'r teulu a ffrindiau am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag ati tra yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor, ac ar ôl dod adref, am y cardiau a'r blodau. Diolch i'r meddygon a'r staff yn Deiniol Ward, Ysbyty Dewi Sant, ac Ysbyty Môn ac Arfon. Diolch i bawb.

CYSGODFAN BWS – O'r diwedd, da gweld cychwyn ar y Gysgodfan yn Nhy'n Fawnog. Bydd o fantais i amryw o'r ardalwyr.

EIN COFION at yr ardalwyr sydd wedi bod yn cwyno trwy'r gaeaf. Dymunir gwell iechyd i bawb o hyn ymlaen.

## BETWS GARMON

DAMWAIN – Dymunir gwellhad llwyr i Mrs A. Edwards, Minffordd wedi anffawd i'w throed yn ei chartref.

GENI – Ganwyd merch i Mr a Mrs D.E. Williams, Eureka (Min Afon gynt). Chwael fach i Tamsyn – Sophie.

CYDYMDEIMLAD – Cydymdeimlwn â Mr a Mrs I. Evans, Talwrn (Eirian, Ty'n Weirglodd gynt) – collodd Idris ei fam yn ystod y mis.

## E.W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202

TREFNWYR ANGLADDAU  
CEIR AR GYFER PRIODASAU  
GWASANAETH TACSI

## SCIPIAU TIM



o £16

CYTUNDEB DYDDIOL  
NEU WYTHNOSOL

LLANBERIS 871354



# WAUNFAWR

**Gohebydd : Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr 626).**

CLWB CANT – Mis Ebrill – 1. Keith Owen Tŷ Capel, 2. T. Griffith Ty'n yr Onnen, 3. John Ellis Glyn Awel.

**CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR** – Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am mis Mawrth:

1af £40 – Gwilym Hughes 16 Trefilian

2il £25 – R.H. Jones Gardden

3ydd £10 – T.A. Coates Fairfield

**LLONGYFARCHIADAU:**

I Mrs Myra Turner, Collfryn, ar ennill y Tlws ar adrodd darn o'r Ysgrythur yn Eisteddfod Bontnewydd. Hefyd roedd yn ail ar y brif adroddiad. Hefyd enillodd Mr Hefin Jones, Glyn Afon, y wobwr gyntaf ar yr Unawd Gymraeg.

I'r Parchedig John Glyn Jones, B.A., B.D., Tŷ Gwyn, Stad Tŷ Hen, ar ei ddyweddïad â Miss Sioned Higham, merch y Parchedig a Mrs Vernon Higham, Caerdydd. Mae'r Parchedig John Glyn Jones yn weinidog Eglwys Efynglaidd Gwyrfaï sy'n cyfarfod yn Ysgoldy Moreia, Waunfawr.

I Valerie Griffiths, Tref Eilian ar ei ddyweddïad â Stephen Williams o Gaernarfon.

I Karen Denton, Tai Isa, ar ei phriodas â Ramon Ross o Gaernarfon. Byddant yn gwneud eu cartref yng Nghaernarfon.

I Mr a Mrs Arthur Ellis, Min y Nant, ar ddathlu eu priodas arian.

I Mr a Mrs Peter Evans, Preswylfa, ar fod yn daid a nain eto. Ganed mab i Rhiannon ac Andrew. Ac i Mr a Mrs T.E. Jones, Cartrefle, ar fod yn daid a nain am y tro cyntaf. Ganed mab, Rhys, i Trystan a Carolyn.

I Janet Greasley, Min Afon, ar ei phen blwydd yn 21 oed.

I Llion ac Elliw Iwan, Penyberth, ar lwyddo hefo'i arholiadau Gradd 3 yn ddiweddar, Llion hefo'r Clarinet ac Elliw hefo'r Ffliwt. Maent yn cael eu hyfforddi gan Rona Morgan Edwards, Afon Wen.

I Joanna Marston, Blaen-y-Nant, ar ennill ar yr unawd offerynnol yn Eisteddfod Cricieth.

I Rob, Alma, a'r teulu, Tan-y-Fron, a John, Rhian a'r teulu, Glyn Awel, ar eu llwyddiant yn ddiweddar ar y rhaglen deledu 'Twylo'r Teulu'.

**DIDDOROL IAWN** oedd gwranddo ar Mrs Mary Vaughan Jones yn sgwrsio gydag un arall o'r Waun, sef Dei Tomos, ar y rhaglen deledu 'Awyr Iach' yn ddiweddar. Mae ei gwybodaeth ar fyd natur, fel llawer i destun arall, yn ddihysbydd. Llwyddodd, mae'n siŵr, i ddod ag atgofion melys yn ôl i lawer un sydd wedi ei eni a'i fagu yn y Waun, wrth sôn am yr 'Islands'. Edrychwn ymlaen am gael ei gweld eto yn o fuan yn y gyfres.

**YN YR YSBYTY** mae Mrs Hughes, 11 Bryn Golau, Mr Eric Jones, Tref Eilian, Mrs Bracegirdle, Bro Waun, a Mrs Peggy Jones, Glyn Afon. Anfonwn ein cofion atynt a dymunwn iddynt lwyr wellhad buan.

**ADREF O'R YSBYTY** – Da oedd clywed fod Mr Gwyn Davies, Bryn Eithin, a Mr Chadwick, Tan y Coed, yn gwella ar ôl eu triniaeth yn yr ysbty. Hyderwn y gwnânt barhau i wella.

**CYDYMDEIMLWN** â theulu y diweddar Mr R.J. Williams, Bryn Golau.

**DATHLU GWYL DDEWI** – Dathlwyd Gwyl Ddewi nos Fawrth, Mawrth 1af, yn hwyliog iawn yn nhafarn y 'Snowdonia Park' yng nghwmni Dafydd Iwan a Morus Elfryn. Roedd y lle yn orlawn a gwnaethpwyd elw o £161 tuag at Gronfa'r Ganolfan a Muscular Dystrophy. Diolch i bawb am eu cefnogaeth ar y noson a'r

rhoddion a dderbyniwyd.

**MERCHED Y WAWR** – Cynhaliwyd cyfarfod mis Mawrth, nos Iau, 24ain yn Neuadd yr Eglwys. Y llywydd oedd Irene Roberts ac fe groesawodd y gŵr gwadd, Mr Owain Owain, Dirprwy Gyfarwyddwr Addysg Gwynedd, gan ddiolch iddo am ddod i'r adwy ar fyr rybudd. Cawsom sgwrs ganddo ar y testun 'Teithio'r Gofod'. Cawsom adroddiad gan Mr Katie W. Jones, ein cynrychiolydd ar Bwyllgor yr Anabl, a hi hefyd a ddiolchodd i Mr Owain. Yn gofalu am y te roedd Nan Huws Roberts a Beryl Lloyd Jones. Mrs Beryl Jones a enillodd y raffl, a roddwyd gan Mrs Greta Hughes.

Gobeithir trefnu bws i Theatr Gwynedd nos Lun, Mai 16, pryd y bydd Dafydd Iwan yn recordio rhaglen ar gyfer S4C (yn y gyfres Taro Tant). Unrhyw un â diddordeb i gysylltu â Llinos Cadwaladr, 3 Glyn Afon.

**CYNGOR ARFON** – Y ddau sydd wedi eu henwebu ar gyfer ein cynrychioli ar Gyngor Dosbarth Arfon yw O.T. Jones, 13 Bryn Golau, a Dic (R.G.) Jones, Lliwyn Onn.

**CROESO'N ÔL** i Marged a Roger Dafydd sydd newydd ail ymgyrtrefu yn Glanfa gyda'u merch fach, Gwenllian.

**CARNIFAL** – Cynhelir Carnifal yr Ysgol Feithrin 9 Gorffennaf. Trefnwyr y Carnifal am eleni yw: Eluned Roberts, Swn-y-Gwynt; Jenny Jones, Glyn Ceris; Heulwen Jones, Cynnant Lodge. Trefnydd ariannol: Liz Jones, Bryn Teg. Aelodau'r Pwyllgor: Carys Owen, Bethan Williams, Carys Jones, Rhiain Jones, Jean Jones, Christine Davies, Llinos Cadwalader, Chris Roberts, Carys Jones, Sue

Bydd gweithgareddau'r Carnifal yn dechrau hefo Cymanfa Ganu yng Nghapel Bethel Mehefin 26, dan arweiniad Mr Rob Jones, Tan Lon a bydd plant y pentref yn cymryd rhan, o dan hyfforddiant Miss Eirlys Jones. Gorffennaf 1 – Coroni Brenhines 1983 yn neuadd yr Eglwys.

Gorffennaf 4 – Pel droed ar Gae'r Ysgol.

Gorffennaf 6 – Gemau Giamocs ar Gae'r Ysgol.

Gorffennaf 9 – Y Carnifal a'r Mabolgampau.

**NEWYDDION YR YSGOL** – Dros Wyliau'r Pasg bu plant yr ysgol yn brysur iawn yn eu hymgyrch 'Noddi Tasgau'. Rhoddwyd tasgau iddynt i'w dysgu a rhaid oedd wedyn perswadio noddwyr i gefnogi eu hymdrech. Bu'r fenter yn llwyddiant mawr a rhaid yw diolch yn fawr iawn i bawb am roddi cefnogaeth mor dda iddynt. Casglwyd bron i £500. Gellir yn awr brynu meicro-gyfrifiadur i'r ysgol yn ogystal ag offer angenrheidiol eraill. Derbyniodd Telor Iwan wobwr arbennig am gasglu fwyaf o arian, sef £26.

**CYNGERDD** – Bydd plant yr Ysgol Iau, dan arweiniad Mrs Eames yn cynnal 'Noson Gerddorol' nos Wener 17 Mehefin. Y canwr gwadd eto eleni fydd Dafydd Iwan a bydd yr elw tuag at y Ganolfan.

**YMGYRCH LYFRAU** – Y mae'r plant hynaf yn cymryd rhan eto eleni yn yr Ymgyrch Lyfrau. Diolchwn ymlaen llaw am eich cefnogaeth barod iddynt.

**CAPEL BETHEL** – Mawrth 29 yn y Ffestri cynhaliwyd eisteddfod fach llwyddiannus a chartrefol i blant yr Ysgol Sul a'r Gobeithlu.

Y beirniad oedd: Cerdd – Mrs Einir Wyn Williams, Rhiwlas; Adrodd a Llên – Mr Dewi Jones, Ysgol Dyffryn Nantlle; Arholiad Ysgrythurol – Mrs Rhian Ellis, Waunfawr; Arlunio – Mr R. Gwynn Davies, Waunfawr.

Arweiniwyd y noson gan Mrs Meira Turner, Collfryn a'r cyfeilydd oedd Miss Eirlys Jones, Maelor.

Dyma'r canlyniadau:

**Unawd dan 5:** 1. Gavin, 2. Andrew, 3. Llio a Huw, 4. Heddus, Kevin a Dylan. **5-7:** 1. Meilir, 2. Elin, 3. Ceirion a Delyth, 4. Eilir. **7-9:** 1. Osian, 2. Manon, 3. Alaw, 4. Rhodri. **9-11:** 1. Ella, 2. Gwenan, 3. Nia, 4. Dylan a Rhys. **11-13:** 1. Sian, 2. Sandra, 3. Wayne, 4. Nan. **13-16:** 1. Huw.

**Deuawd dan 14:** 1. Sian a Wayne, 2. Sandra ac Ella.

**Parti Unsain dan 14:** 1. Parti'r Genod, 2. Parti'r Hogia, 3. Parti Bach.

**Parti Deulais dan 14:** 1. Parti Anti Eirlys.

**Canu'r Piano dan 12:** 1. Helen, 2. Gwenan.

**12-16:** 1. Huw.

**Canu Offeryn Chwyth dan 12:** 1. Sandra,

2. Ella. **12-16:** 1. Huw.

**Adrodd dan 5:** 1. Heddus, 2. Llio, 3. Gavin, Huw a Dylan. **5-7:** 1. Elin, 2. Delyth, 3. Meilir, 4. Ceirion. **7-9:** 1. Osian, 2. Alaw, 3. Manon, 4. Fflur. **9-11:** 1. Rhys, 2. Dylan, 3. Gwenan, 4. Ella. **11-13:** 1. Nan. **13-16:** 1. Huw.

**Côr Adrodd dan 12:** 1. Parti Tan y Fron, 2. Parti bach.

**Llên dan 9:** 1. Ella, 2. Osian, 3. Rhodri. **9-12:** 1. Helen, 2. Gwenan, 3. Nia. **12-16:** 1. Sian.

**Arholiad Ysgrythurol dan 9:** 1. Rhys, 2. Gwenan. **9-11:** 1. Wayne, 2. Dylan. **11-14:** 1. Huw, 2. Iona, 3. Sian ac Adrian.

**Arlunio dan 6:** 1. Geraint, 2. Delyth. **6-8**

**oed:** 1. Alaw, 2. Fflŷr, 3. Rhodri ac Elin.

**8-10:** 1. Osian, 2. Nia, 3. Gwenan. **10-12**

**oed:** 1. Sandra a Wayne. **12-16:** 1. Adrian,

2. Sian.

Diolchwyd i bawb am eu gwasanaeth gan Lywydd y Pwyllgor, Mrs Phyllis Jones, Rhos Lan.

**CANOLFAN WAUNFAWR**

Yn ddiweddar cyfarfu nifer fechan o'r pwyllgor i restru enwau pobl sydd wedi gadael yr ardal ond a fyddai efallai yn dymuno gwneud cyfraniad i goffrau'r ymgyrch. Danfonir llythyr atynt yn fuan yn esbonio amcan yr ymgyrch ac yn eu gwahodd i gyfrannu. Gofynnir i unrhyw un sydd ag enwau y dylid cysylltu â hwy i roi enwau a chyfeiriad y bobl hyn i Mrs Margaret Owen, Bryngwylan. Mae'r Cadeirydd mewn cysylltiad gyda nifer o gronfeydd ariannol y gellid danfon atynt am gyfraniadau, ee, Cronfa Pantyfedwen; Cyfleoedd i Gyrff Gwirfoddol; a Chronfa'r Tywysog Siarl, ond pwysleisir, hyd yn oed os y byddwn yn llwyddiannus gyda'n cais am gymorth oddi wrth y cronfeydd hyn y bydd yn rhaid i'r pentref a'r ardal hefyd gyfrannu'n hael.

Mae'r Bingo, yng ngofal Edgar Owen, yn mynd o nerth i nerth gyda mwy o bobl yn cystadlu bob gornest. Llwyddwyd, drwy garedigrwydd Edgar, i gael hyd i wobrau hael dros ben i'w cynnig i enillwyr.

Cyfarfu nifer o ieuenctid â Gwilym Williams yn ddiweddar ac maent am drefnu digwyddiad arbennig i godi arian i'r Ganolfan, sef parti a disgo yn y Fictoria Llanberis.

Mae gwaith plastro'r Ganolfan yn mynd yn ei flaen yn dda, a chafwyd tywydd addas ar gyfer y gwaith. Gobeithir y bydd y maes parcio ar gael erbyn Medi, sef y dyddiad pryd y

disgwylir y bydd y Ganolfan yn barod. Mae Cyngor Arfon wedi cytuno mewn egwyddor i ddarparu maes parcio ond bydd angen pwyso'n galed arnynt o hyn ymlaen i sicrhau eu bod yn cadw at eu haddewid.

Trwy garedigrwydd y Fns Glenys Williams trefnir barbecyw arbennig yn Nhŷ'n Weirglodd, Betws Garmon, nos Wener Mai 20.

**DIOLCH** – Dymuna Pwyllgor Grŵp Arfon o *Muscular Dystrophy* ddiolch yn fawr iawn i blant ac athrawon Ysgol Gynradd Waunfawr am eu rhodd o £20 eto eleni.

**CLWB GWYRFAI** – Treuliwyd pnawn difyr dydd Iau Ebrill 21 yn Neuadd yr Eglwys o dan gadeiryddiaeth y Ficer. Roedd y Parch Trefor Jones wedi trefnu panel o 4 i ateb llw o gwestiynau gan aelodau'r Clwb. Y panel oedd y Rheithor, Y Parch Barry Thomas; y Prifardd Emrys Edwards; Miss Irene Burden, Noddfa; a'r Dr Miles a chafwyd cwestiynau amserol ac atebion trwyadl a hwyliog. Diolchwyd i'r Ficer ac i aelodau'r panel gan Mr Owen Williams, Gwynfa a Mrs Morgan Jones.

## LLYTHYR O'R AMWYTHIG

Yn ddiweddar derbyniodd Mrs Glenys Jones, Gohebydd yr Eco yn Waunfawr, lythyr oddi wrth Mr John Peter Williams, 36 Ffordd Shelton, Yr Amwythig. Yn ei lythyr mae Mr Williams yn sôn am nifer o bethau diddorol. Yn gyntaf holai am gymorth i gael copi llawn o gywydd William Thomas (brawd John Thomas, Brynmelyn) m Sôn mae'r bardd am ei salwch (darfodedigaeth) oedd arno, a chofiai Mr Williams iddo glywed ei frawd yn adrodd y geiriau lawer gwaith. Un darn yn unig a gofiai Mr Williams erbyn hyn sef:

"Yn fy lung ymeifl angau,  
Hen deyrn hyf am gadarnhau  
Ei orsedd, a chreu arswyd;  
Hwn greodd loes a grudd lwyd  
O! na chawn lung iach wna les  
Mi wn y datganwn gerdd  
Fal eosiaid felysgerdd ..."

Gyda'i lythyr mae Mr Williams yn amgau llun a dynnwyd ganddo o'r gwaith o adeiladu Cofeb y Waun. Credai Mr Williams mai Idwal Roberts yw'r dyn sydd yn gwisgo cap, ac mai William Aneurin Jones yw'r un gyda'r het, ond nid ydyw'n sicr pwy oedd y saer maen. Tybed a oes rhywun a fedr ei enwi i ni?

Diolch yn fawr iawn i Mr Williams am ei lythyr diddorol, ac i Glenys am ei drosglwyddo.

## FFARWELIO Â'U HARWEINYDD



Kevin Jones gyda'r anrheg a gafodd gan aelodau'r Urdd yn adran Bentref Waunfawr.



# TAN-Y-COED

Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tanycoed (Llanberis 870030)

ESTYNNWN ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs Christine P. Strudwick, Tan-y-Coed Cottage, Sarah a David a'r teulu oll yn y brofedigaeth sydyn a'u goddiweddodd ddydd Llun, Ebrill 11 pryd y bu farw'n ddisymwth iawn Mr Strudwick, priod a thad caredig.

Claddwyd Mr Strudwick ddydd Gwener Ebrill 15 ym Mynwent Llanrug gyda'r Tad P. Macnamara yn gwasanaethu.

CROESO ADRE o'r ysbyty i Tudor Wyn Jones, a'n dymuniadau gorau am adferiad buan iddo. Da deall fod Tudor yn gwella ar ôl y driniaeth lawfeddygol gafodd.

Ein cofion a'n dymuniadau da hefyd i Mrs Margaret Williams, Bryn Beuno, hithau yn gwella ar ôl gwaeledd. Adferiad llwyr a buan iddi hithau. Ein cofion hefyd at bawb arall yn yr ardal sy'n llesg ac mewn oedran.

LLONGYFARCHIADAU i Bethan Lewis Parry, Ael-y-Bryn ar basio dwy arholiad canu'r piano dan nawdd y

Royal School of Music. Safodd Bethan y ddwy arholiad yr un diwrnod, a llwyddodd Gradd 2 gyda theilyngdod, a Gradd 3. Athrawes Bethan yw Mrs J. Turner, Penisarwaun.

OLYDAW - Ar hyn o bryd y mae saith ar hugain o blant o Lydaw yn aros yng nghartrefi plant Ysgol Brynrefail cylch Eco'r Wyddfa. Y mae un ohonynt, Yolene Le Ster yn aros gyda Manon Llwyd Evans Carwyn, ac yn mwynhau ei harhosiad yn y fro. Hwyl fawr i'r ymwelwyr o Lydaw ymhlith plant Brynrefail ac yn y cartrefi lle maent yn aros.

BLAENORIAID - Bnawn Sul Ebrill 17 o dan arolygiaeth y Parch John Owen B.A. a Mr John Wyn Owen dewiswyd blaenoriaid i Eglwys Tan-y-Coed. Y tri ddewiswyd yw y Parch W.O. Roberts, Manod, Mrs Jane Humphreys, Las Ynys a Mrs Katie Roberts, Tainewyddion.

Byddant yn cael eu hordeinio yng nghyfarfod yr Henaduriaeth yng Nghapel Dinorwig ym mis Mehefin. Llonyfarchiadau iddynt a phob bendith iddynt yn eu swydd newydd.

## CYFARFOD CYFFREDINOL YR ECO

Cynhaliwyd y seithfed Cyfarfod Cyffredinol blynyddol yr Eco, nos Fawrth, Ebrill 5 yn Neuadd yr Eglwys, Waunfawr. Eleni eto, siomedig fu'r ymateb o ran nifer - dim ond naw yn bresennol. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Mr Don Roberts, Waunfawr.

Yn ei adroddiad i'r cyfarfod diolchodd y Golygydd Newyddion Cyffredinol am gydweithrediad y tim mawr sy'n dod â'r Eco i'r darllenwyr yn fisol. Talodd deyrnged arbennig i'r ffotograffwyr sydd nid yn unig yn tynnu lluniau, a hynny yn aml ar fyr rybudd, ond hefyd yn eu datblygu a'u printio. Y farn gyffredinol yw fod lluniau'r Eco, bron yn ddi-eithriad, o safon dda.

Er bod mwy a mwy o bobl yn dod yn ymwybodol o werth yr Eco hoffai'r Golygydd Newyddion Cyffredinol danlinellu ei apel flynyddol ar bobl roi gwybod i weithwyr y papur os oes hanesion diddorol i'w gael yn eu hardaloedd. Pwysleisiodd nad newyddiadurwyr proffesiynol yw gohebwyr yr Eco - ac y dylai rhai darllenwyr gofio hynny ar adegau.

Amlinellodd waith y flwyddyn gan sôn mai yn ystod yr wythnosau diwethaf y bu'r datblygiad mwyaf cyffrous yn hanes byr y papur hyd yn hyn - sef tudalen yr ysgolion. Ymdrech ymwybodol ydy hon i gael plant y fro i gyfrannu'n uniongyrchol at yr Eco a gosod cyfrifoldeb arnynt.

Cyfeiriwyd hefyd at y gweithgareddau cymdeithasol. Bu'r ffug-eisteddfod yn llwyddiant ysgubol. Bwriedir trefnu Gŵyl Ddrama ar gyfer yr hydref.

Trafodwyd y dulliau o gynyddu gwerthiant yr Eco. Penderfynwyd cysylltu â'r Trefnydd Gwerthiant, oedd yn methu bod yn bresennol, i drafod y pwynt ymhellach cyn gweithredu. Dywedodd Gwyndaf Hughes ei fod yn rhoi'r gorau i'w swydd o Drefnydd Plygu. Diolchwyd iddo am ei wasanaeth. Etholwyd Edward Elias, 21 Glanffynnon, Llanrug i ymgymeryd â'r swydd. Ar wahân i hyn, etholwyd yr holl swyddogion.

Gweler isod fanylion adroddiad y Trefnydd Ariannol:

### CYFRIFON AM Y FLWYDDYN I MAWRTH 31, 1983

| Gwariant                   | c.      | Incwm               | £. c.   |
|----------------------------|---------|---------------------|---------|
| Costau argraffu            | 6790.00 | Gwerthiant          | 4308.18 |
| Ffotograffiaeth            | 99.02   | Hysbysebion         | 2670.20 |
| Stampiau, labelau etc      | 176.78  | Rhoddion            | 160.96  |
| Gwobrau                    | 10.00   | Grantiau            | 710.00  |
| Defnyddio ystafell         | 2.00    | Elw'r eisteddfod    | 137.05  |
| Colled y ddrama            | 18.60   | Marathon Owen Eilir | 96.70   |
| Incwm yn fwy na'r gwariant | 986.69  |                     |         |
|                            | 8083.09 |                     | 8083.09 |

### MANTOLEN AR MAWRTH 31, 1983

|                     |         |                     |         |
|---------------------|---------|---------------------|---------|
| Cronfa'r Eco 1.4.82 | 354.36  | Arian yn y banc     | 1816.35 |
| Elw am y flwyddyn   | 986.69  | Arian heb ei gasglu | 128.30  |
|                     | 1341.05 |                     |         |
| Dyledion            | 603.60  |                     |         |
|                     | 1944.65 |                     | 1944.65 |

## "Pwy fydd yma mewn can mlynedd?"

Dyma deitl caset arbennig dros heddych, sy'n cynnwys un ar ddeg o draciau, wedi eu recordio gan wahanol unigolion a grwpiau. Ymhlith y cyfranwyr mae Ail Symudiad, Clustiau Cŵn, Trwynau Coch, Malcom Neon a Chwarter i Un.

Cwmni Lola sy'n cynhyrchu'r caset. Ei bris yw £3 a bydd yr holl

elw i'r Mudiadau Gwrth Niwclear. Gellir prynu'r caset (Lola MW006) mewn siopau recordiau neu yn uniongyrchol oddi wrth Lola, 28 Heol Ynysgedwyn, Ystradgynlais, Abertawe. £3.25 yn cynnwys cludiant. (Taler Geraint Williams).

## W.J. GRIFFITH

PLYMAR  
A GOSODWR  
GWRES CANOLOG  
PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

GOSODWR SWYDDOGOL  
SYSTEMAU  
GWRESOGI OLEW  
GWRES BP



Aelod o'r National  
Association of  
Plumbing and Mech-  
anical Services  
Contractors.

Dim un dasg rhy fychan,  
Dim un dasg rhy fawr..

## GWASANAETH TRIN GWALLT YN EICH CARTREF

# Linda

MOBILE HAIRDRESSER

Lliwedd

Ffordd  
Glanmoelyn

Llanrug

Ffoniwch

CAERNARFON 3674

i drefnu amser



Dewch am lond gwlad o chwerthin  
iach a mwynhau doniolwch



## TAIR COMEDI FER

### THEATR CYMRU yn cyflwyno

John Huws Drws Nesa gan Cynan  
Y Pwyllgor gan D.T. Davies  
Y Practis gan Leyshon Williams

Tair comedi ysgafn, ffraeth a phoblogaidd o gyfnod oes aur y ddrama gegin. Actorion parhaol y Cwmni fydd yn cyflwyno'r hen ffefrynau yma rydd wledd o chwerthin i bawb o bob oed.

## Theatr Seilo, CAERNARFON Mawrth 24 MAI, 7.30

Tocynnau: Siop y Pentan, Caernarfon  
Ffôn 5262

£2.00 (oedolion) £1.75 (pensiynwyr a myfyrwyr)  
Gostyngiadau a manteision arbennig i bartion  
Gyda chymorth Cyngor Celfyddydau Cymru a  
chydweithrediad Cymdeithas Theatr Cymru

## BILL ac EILEEN GRIFFITHS



## Antiques Ivy Cottage BETHEL

Ffôn:

Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da  
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol



# YSGOL GYNRADD LLANRUG

## DYDDIADUR Y DAITH I WLAD BELG

Saif ein hysgol ni ger y sgwâr yn Llanrug. Nid yw yn hen iawn. Erbyn hyn mae'n weddol fodern, gan fod rhannau wedi eu hadeiladu ati a'i thu mewn wedi ei atgyweirio. Mae'n lliwgar iawn y tu mewn gyda llawer o bethau diddorol ar y muriau. Mae deuddeg o athrawon yma gan gynnwys Mr Gruffydd ein prifathro. Tua dau gant a hanner o blant sy'n dod i'r ysgol, ond mae'r rhif yn newid bob blwyddyn.

Cawn fwyd blasus iawn gan Mrs Horman a'i chriw, a byddwn yn cael digon ohono. Byddwn yn mynd gyda'r ysgol i Lan-llyn, Rhyd-ddu a Gwlad Belg a bu'r ysgol unwaith yn Guernsey.

Cawn nifer o wersi eraill heblaw gwaith ysgol. Mae gwersi recordyddion, ffidil, telyn, cynn a gitar. Rwyf hefyd yn perthyn i'r Urdd. Bob nos Lun bydd gwersi beiciau, ymarfer y ddawns greadigol ar nos Fawrth, ac ymarfer y grŵp cerddoriaeth creadigol ar nos Iau.

Iona Pritchard

### Dydd Iau

Ysgolion Penisarwaun, Fflint, Treffynnon, Bethel, Bontnewydd a Llanrug yn cychwyn am Wlad Belg. Cyrraedd Llundain, gweld Big Ben, Gorsaf King's Cross, Regent Street a llawer o strydoedd enwog eraill. Aros mewn gwesty o'r enw 'Eden'. Mynd i chwilio am swper gyda'r nos - dinas swnllyd, ceir yn canu corn, pobl yn gweiddi a cherddoriaeth swnllyd. Ond er hyn, roeddwn yn hoffi Llundain.

(Julie)

### Dydd Gwener

Cychwyn am borthladd Dover ar ôl brecwast cynnar. Byrddio'r llong am 1.45. Trip stormus braidd ond doeddem ni ddim yn sâl! Glanio yn

Calais am 2.30. Roeddwn ar bigau'r drain i weld sut le oedd Gwlad Belg. Digon o le yn y gwesty, roedd ein ystafelloedd yn hyfryd. Ar ôl pryd blasus cawsom noson o ymlacio. Roedd siop yno, a chawsom gan ffranc i'w wario - cadw fy nghan ffranc a wnes i.

(Barley a Karen)

### Dydd Sadwrn

Yn y bore aethom i Oostende ar dram. Ni phrynais ddim, ond mwynhau edrych ar y siopau. Roedd y ffenestri siopau yn ddiddorol iawn. Ymweld â'r Eglwys Gadeiriol, roedd awyrgylch arbennig iawn yno. Ymaith i Brugge yn y prynhawn. Gweld llawer o dai gwych hynafol

wrth deithio ar y camlesi. Cerdded i ben clochdy prydferth. Noson lawen gyda'r nos.

(Iona)

### Dydd Sul

Taith i weld bedd Hedd Wyn a chael gwasanaeth yno. Teimlo yn ddigalon wrth feddwl amdano yno.

'Hwrê' gwaeddodd pawb wrth gyrraedd Parc Meli. Cael stamp ar fy llaw i ddangos fy mod wedi talu. Mynd ar y Monorail yn gyntaf yna ar y 'Pirat', 'Rollercoaster', sigleni, olwyn fawr, ac ar gwch oedd yn mynd ar daith i ddangos gwenyn yn gwneud mêl. Roeddwn wedi blino, ond cefais hwyl yno.

(Karen Lloyd)

### Dydd Llun

I'r Iseldiroedd heddiw. Croesi darn o fôr cyn cyrraedd tref Middleburg. Aros ar y ffin mewn siop oedd yn derbyn arian o bob gwlad. Stido bwrw! Troi am adref. Ymweld â melin wynt ar y ffordd yn ôl, ac yna aros am baned o goffi yn Blankenburg.

(Angela)


### Dydd Mawrth

Gorfod codi yn gynnar i ddal y cwch. Llyncu tabled ar ôl brecwast. Ddim yn edrych ymlaen i fynd yn ôl, gan fod y môr wedi bod yn stormus ar y ffordd drosodd. Diolch byth, roedd y môr fel llyn chiad. Wedi cyrraedd Cymru, dechreuodd pawb ganu 'Hen Wlad Fy Nhadau'. Cyrraedd adref yn saff ond wedi blino'n llwyr.

(Sian W. Jones)




## D.H. DAVIES



Yn Ypres mae cofgolofn i'r rhai a laddwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf, y milwyr na chafwyd hyd i'w cyrff. Mae'r gofgolofn yn croesi'r ffordd fel pont, ac mae enwau ar bob ochr iddo. Mae arno 33,000 o enwau milwyr o Brydain. Ar ddydd Sul y Pasg, bu plant yr ysgol yno. Yn y llun cyntaf, mae saeth wen yn pwyntio at enw D.H. Davies, ar 'Wal 22'. Cyn mynd i ffordd, rhoddais gopi i Sion Dafydd o lythyr gan y Swyddfa Gartref yn dweud fod y gŵr ar goll. Cefais ef gan fy nhad, oedd wedi ei gael gan ffrind iddo sydd yn gweithio gydag ef yn 'GPO Bangor'. Roedd D.H. Davies yn Ewyrth i'r dyn hwn. Nid oes neb o'r teulu wedi gweld y bedd, felly yr oedd eisiau i ni ei weld yn eu lle. Methais i â mynd, felly fe welwch Sion yn y llun yn dal y llythyr o flaen 'Wal 22'.

David Gwyn Jones



### HEDD WYN

Lladdwyd Hedd Wyn yn 1917 yn dri deg oed yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd yn enwog fel bardd. Tra roedd mewn gwersyll yn Lloegr, cyfansoddodd gerdd i Eisteddfod Genedlaethol Penbedw. Yn fuan wedyn fe alwyd arno i fynd i ymladd yn y ffosydd.

Yn yr Eisteddfod, dywedodd y beirniad fod 'Fleur-de-lis' yn llawn haeddu y gadair, a gofynnwyd i'r bardd buddugol sefyll. Ni safodd neb. Yna cyhoeddwyd fod 'Fleur-de-lis', sef Hedd Wyn, wedi ei ladd, a gorchuddiwyd y gadair â mantell ddu.

Mae Hedd Wyn wedi ei gladdu ger Ypres yng Ngwlad Belg. Ar drip gyda'r ysgol, fe aethom i ymweld â'r fynwent ar fore Sul y Pasg. Mae bedd Hedd Wyn yn un o tua mil tri chant sydd wedi eu gosod mewn rhesi taclus. Mae dau ddeg wyth o fynwentydd fel y rhain o amgylch Ypres.

Cawsom wasanaeth byr ar lan y bedd oedd yn cynnwys rhai o'i gerddi. Plaen iawn yw ei garreg fedd, gyda'i enw iawn, dyddiad ei farw ac ar y gwaelod 'Y Prifardd Hedd Wyn'. Gosodwyd blodau arni. Yn ôl yn y bws meddylliais nad oedd bosib fod yr holl ladd yma'n iawn.

SION DAFYDD WILLIAMS, Safon 4



Mam Ti adref yn gynt heddiw Merch Ydw, fe losgais ryw Beth yn y wers goginio Mam Beth? Merch Yr ysgol!

Roedd yna ddau bacad creision yn cerdded pan stopiodd rhyw gar. "Ydach chi eisio pas?" "Dim diolch, WALKERS crisps ydan ni".

### CASGLIAD ARWYDDION TYWYDD SAFON 1

#### Am faint o'r rhain y gwyddoch chi?

Os bydd gwawr goch ar fachlud haul, bydd yn ddiwrnod braf drannoeth.

Gwawr goch yn y bore - bydd glaw cyn nos.

Enfys y bore, aml gawode

Enfys y prawn, hindda a gawn.

Mwg o'r simdde yn mynd yn syth i fyny - arwydd o dywydd braf.

Mwg taro - storm yn dyfod.

Os yw gwartheg yn sefyll yn y dŵr fe gawn dywydd braf.

Os yw'r defaid yn swatio wrth y wal fe gawn dywydd braf.

Os yw'r wennol yn hedfan yn isel fe gawn dywydd glawog.

Os yw'r wennol yn hedfan yn uchel cawn dywydd teg.

Niwl fel cap ar Foel Eilian yn y bore bydd yn glawio cyn nos.

Mis Chwefror tyner, haf poeth.

Llawer o aeron ar y celyn - gaeaf caled.

Niwl yn dod am yr Wyddfa gyda'r nos o Gonwy, braf yfory.

Niwl o Gricieth at y chwarel, glaw yfory.

Ffenestr yn sgleinio ym Mwlch Llanberis, glaw cyn nos.

Dail yn troi tu chwith yn y gwynt, storm yn agos.

Mynyddoedd yn edrych yn gadarn a phell - tywydd sych; mynyddoedd yn edrych yn agos - glaw.

Yr wylan fach adnebydd

Pan fo'n gyfnewid tywydd -

Hi hed yn deg ar adain wen

O'r môr i ben y mynydd.

Fflam las yn y tân, mae'n siŵr o eira.

Awyr draeth, glaw drannoeth.

Os gwelir cymylau fel blew geifr yn yr awyr - cawn wynt cryf.



# EIN TAITH I SEGONTIUM

O'r diwedd roeddem allan o'r ganolfan hamdden wedi bod yn nofio ac yn cerdded ar hyd y lôn. Cawsom daith eithaf hawdd trwy Sgubor Goch cyn cyrraedd Segontium ac er mawr syndod i mi, lle bach iawn ydoedd.

Cymerodd y criw awr a hanner i weld y pethau i gyd a phethau da oeddent hefyd. Yng nghanol yr Amgueddfa safai delw o filwr Rhufeinig a tharian a gwaywffon yn ei ddwylo. O amgylch ei fol gwisgai wregys haearn ac o hwnnw crogai ei gleddyf a'i ddagr. Ar ei ben roedd helm lliw aur ac am ei draed roedd sanalau lledr.

Fel yr oedd Mr Roberts yn dangos cleddyf Rhufeinig i ni, daeth curadur yr Amgueddfa atom a dangos cleddyf arall yr oedd bechgen wedi ei ddarganfod yn ei ardd gefn. Daeth o hyd iddo wrth balu. Dim ond darn hir o ddur ydoedd a hwnnw wedi rhydu. Roedd lle i'r carn ond roedd hwnnw wedi pydru. Dywedodd y curadur fod y cleddyf yn mynd i lawr i'r Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd i gael gweld yn union faint oedd ei oed.

Roedd yr Amgueddfa ei hun yn llawn rhyfeddodau. Roedd yna bethau crefyddol yno, bowlen i ddal calon gafr ynddo ar ôl ei lladd. Roedd patrwm o ddail ar darian y milwr.

Hefyd, ni fuasai caer yn gaer heb yr olion! Roeddynt yn hawdd eu gweld ac yn drawiadol iawn. Roedd yn bosibl darganfod yn union beth oedd pob adeilad yn ei amser.

Roedd yr amgueddfa yn lle da iawn i fynd ac af yno eto rywbryd.

**Siôn Llwyd Elis, Safon 4**



Llun: Amlyn Llwyd Evans

## PRYF AR Y WAL

Pwy oedd yr athrawes druan oedd yn methu'n glir â chychwyn ei char yr wythnos diwethaf?



## PRYF AR Y WAL

Wyddoch chi fod rhywun wedi gorfod addasu gwydrau sbectol oherwydd cryfder yr haul mewn un rhan o'r ysgol?

## Y BUNT NEWYDD

Digon hawdd i'w cholli (*Anwen*)  
Buasai babi yn gallu ei llyncu (*Karen*)  
Yn well na'r hen bunt - para'n hirach (*Kevin*)  
Bydd eich pwrs yn mynd yn drymach ac yn drymach, ac yn ... (*Anwen*)  
Wnaiff hi ddim chwythu i ffwrdd yn y gwynt (*Gillian*)  
Llawer llai na'r disgwyl (*Nerys*)  
Hawdd cymysgu gyda darnau arian eraill (*Tammy*)  
Llawer gwell na'r hen bunt (*Bryn Ceirion*)

## DAETH Y GWANWYN



Michael Wyn Jones

# POS ADAR

ALPSAWSRTGHESCOCINRHG  
TGYLFINIRTWDDYDEHEARC  
SNBBCDFESHMRMCDSSLCDB  
EANEMOLOCYUSSYRTSEWCA  
DUDLCMNROWOAMRBSDFOHL  
CLGEHIARDDWRECEDECNDLW  
ALISBLSPTRHTRATRYEIDR  
LYNLAPWRPHESANTWRL LHT  
YTFICACLONNEWGHUUGITS  
RYWYCRWHWBILSRYCNI BIC  
WFRHCOGNITITWTOMOSLAS  
URLWITHGBRANDDULIYARF  
TOUYTIDLNADBGHRNGDCFF  
SNAACTRFEDLMNOCYANALD  
RFBDRWYPIODENRCHWSULR  
AA YEUMDGIHOPHRMHNWYEB  
EIWNDAWCOCHYBERLLANGA  
CTOHNWYALCHENWILISTSS  
OHRNCREYRGLASONHLGRAL

Mae deg ar hugain o adar wedi eu cuddio yn y pos yma. Anfonwch eich atebion i Anwen Parry, Ysgol Gynradd Llanrug. Bydd gwobr i'r ateb cywir cyntaf i'w dynnu.



## LLYGAI D Y LLOER

Hen leuad oer, be weli di  
drwy'r brigau main a llwm?  
Weli di'r geubren hen a gwag  
a'r dylluan yn chwilio'r ddaear am fwyd?  
Weli di'r plentyn bach yn cysgu  
yng nghynhesrwydd y cwrlid moethus?  
Weli di'r llwynog cyfrwys yn rhwygo  
corff gwaedlyd yr iâr?  
Weli di gysgod y lleidr yn sleifio'n  
llechwraidd ar berwyl drwg?  
Weli di'r herwheliwr medrus yn  
osgoi golau fflachlamp y cipar?  
Glywi di'r awel bêr yn sisial  
fod y gwanwyn mwyn ar ei ffordd?  
Glywi di gŵn yn udo yn y tywyllwch?  
A wyddost ti pwy fydd farw?  
Hen leuad, hen a doeth,  
Ga'i wybod dy gyfrinachau di?

Grwpiau Elidir a Lliwedd, Safon 4

# CARTREF

Cartef i mi yw teulu dedwydd.  
Cartref i mi yw dad dewr a hapus.  
Cartref i mi yw mam annwyl a gofalus.

Cartref cynnes a glân a thanllwyth o dân braf yn goleuo'r ystafell.

**Lowri Williams**

## ERYR Y MYNYDD

Ehed yn gyflym yn chwilio am ysglyfaeth,  
bob man dros y llyn, mae'n chwilio am bryd o  
fwyd i lenwi boliau barus y cywion.  
Ar graig, ar silff, mae nythod yr eryrod.

Pan fydd yr eryr yn hela oen bach, neu yn pysgota,  
bydd y cywion yn adar dewr yn sgrechian nerth eu pennau.

Yr helwyr,  
yn hofran yn y gwynt ... dyna un - ac i lawr i ladd.

Yn ôl at y cywion ifanc, gyda physgodyn iau,  
a chyda'r crafangau fe'i torrwyd yn ddau.  
Llyncodd y cywion ysglyfaeth y rhiant  
a thrwy'r pig main, fe gafwyd pryd blasus.

Yn yr awyr chwyth y gwynt,  
ac yna bydd yr eryr mawr cyfrwys yn hofran, yn disgwyl,  
yn chwilio am fwy.

Christopher Tilston, Safon 4



## CORNEL Y CERDDI ANIFEILIAIDD

### Y LLYGOD

Yn iard Gilfach Ddu y mae llygod,  
Rhai mawr a rhai bach a rhai hynod,  
Mae Delyth yn crynu,  
Ond Dafydd sy'n gwenu,  
A Thwm yn parablu'n ddiddarfod.

Gofynnwyd i Pete ddod i'r mwstwr,  
Mae ef yn arbennig fel lladdwr,  
Gosodwyd y trapiau, ac aros am  
ddyddiau  
I weld a oedd yno goncwerwr.

Os llygod sydd 'nawr yn eich poeni,  
Wel galwch am Dafydd yn deidi;  
Fe ddaw yn lled-fuan  
I wared y truan  
O haint fawr eu maint sy'n difrodi.

*Y Prydydd Hen*

Deallwyd bod un o drigolion *Yr Eco*  
wedi mynd a'i gi am dro, fel yr arferai  
wneud bob penwythnos. Y tro yma ni  
bu'r daith mor ddigwyffro â'r rhai  
blaenorol.

Cyfansoddwyd y penillion hyn i  
gofio'r hanes. Ni ddylid derbyn  
enwau'r person na'r ci fel rhai dilys.

### Pero a'r Palethorpes

Un diwrnod yn y gwanwyn  
Aeth Twm a'r ci am dro,

## CADWYN

Yn ystod mis Mawrth  
ymddangosodd y rhifyn cyntaf o  
'Cadwyn' - taflen newyddion misol a  
gyhoeddwyd gan "Gofal  
Cymdeithasol Gwynedd"; pwrpas y  
daflen fydd i weithio fel dolen gyswllt  
effeithiol i'r oll fudiadau gwirfoddol  
sydd yn ymwneud â'r maes  
gwasanaethau cymdeithasol  
personol yng Ngwynedd. Ceir yn y  
daflen eitemau o newyddion o'r  
mudiadau gwirfoddol, ac hefyd  
pytiau o wybodaeth fydd o ddefnydd  
i'r rhai hynny sydd yn ymwneud â'r  
maes hwn.

Cychwynnwyd Gofal  
Cymdeithasol Gwynedd ym mis  
Ionawr 1983 fel cynllun i geisio  
gwella'r cysylltiad rhwng y  
mudiadau gwirfoddol a'r cyrff  
statudol megis yr Adran  
Gwasanaethau Cymdeithasol; yn y  
modd hynny gobeithir gwella yn  
gyffredinol y gwasanaeth  
cymdeithasol personol a gynigir i  
bobl yng Ngwynedd. Cynllun tair  
blynedd yw hwn yn cael ei weinyddu  
gan Bwyllgor Rheoli sydd yn  
cynrychioli'r mudiadau gwirfoddol. Y  
Cyngor Gwlad ac Adran  
Gwasanaethau Cymdeithasol  
Gwynedd; noddur y cynllun yn  
ariannol gan y Swyddfa Gymreig.

**WELDIO OFFER FFERM  
A PHEIRIANNAU  
DIWYDIANNOL  
GWNEUD GIATIAU,  
FFENSYS AC ATI  
AR GYFER Y CARTREF  
ATGYWEIRIO TAI  
GWAIR**

**E. PUGH**

**WELDING &  
FABRICATING  
32 GLANFFYNNON  
LLANRUG  
Ffôn: Caernarfon 5394**

Ar hyd y llwybr lle bu'r lein  
Yn rhedeg o Gwmglo.

Rhaid cerdded llawer milltir  
I gadw Labrador  
Yn ystwyth a rhag mynd yn dew  
Er bod y gwynt yn ôr.

Fe gerddodd Twm yn araf  
A Phero aeth ymlaen,  
Ar hyd y llwybr ger y llyn  
Fel gwnaeth sawl tro o'r blaen.

Fe redodd Pero rownd y tro  
Ac yno yr oedd criw  
Yn eiste'n braf ar bwys eu car  
A'u brid ar farbaciw.

'Roedd ogle seoj hyfryd  
Yn lledu dros y cwm,  
A mynd am rheini wnaeth y ci  
Heb wrando dim ar Twm.

Fe lyncodd Pero'r seoj  
Fel pe heb fwyd ers mis,  
Heb ddwedyd diolch am y scam  
Na chwaith heb ofyn plis.

A Twm, os ei di eto,  
Gofala, 'neno'r Duw,  
Nad ei di a Phero'n agos  
I'r lle mae barbaciw.

**Cytuno'n llwyr! Tybed ai hwn oedd y  
ci a ddaeth heibio un o erddi  
Glanffynnon, Llanrug, ar ei ffordd  
adref o'r wledd? - Gol.**

**CEFNOGWCH  
EIN  
HYSBYSEBWYR**

**IEUAN  
WILLIAMS**

**Glanffrwd  
DEINIOLEN  
Llanberis 870484**

- \* Bysus o 12 i 53 sedd
- \* Teithiau Lleol a  
Thramor
- \* Gwaith Contract
- \* Telerau arbennig i  
bensynwyr, myfyrwyr  
a phlant ysgol

STORFA

**Mace**

**O.R. & M.  
PARRY**

**Sgwâr  
Llanrug**

Caernarfon 2790

Dewis hael  
o fwydydd, llysiau  
a diodydd

## TRÊN BACH Y CHWAREL

Bydd trê'n bach arbennig iawn  
i'w gweld yn Llanberis yn ystod  
misoedd yr haf. Mae nifer  
ohonoch yn cofio'r injis a'r  
wagenni oedd i'w gweld oddi  
amgylch rhai o'r chwareli llechi  
yng Ngwynedd, ond sydd bellach  
wedi distewi ers blynnyddoedd  
lawer. Dyma gyfle yn awr i ail-fyw  
rhai o'r atgofion amdanynt, ac i'r  
plant weld injan stêm, yngyd â  
nifer o wagenni o wahanol fathau,  
wedi eu llwytho ac yn teithio ar  
hyd rheilffordd.

Dyma'r bwriad, yn fras iawn: ar  
yr ail ddydd Sadwrn ym mhob  
mis, o fis Mehefin hyd fis Medi  
(h.y. Mehefin 11, Gorffennaf 9,  
Awst 13 a Medi 10), bydd injan yr  
Amgueddfa Lechi, Una yn  
wreiddiol o chwarel Penyrorsedd,  
Nantlle, yn cael ei stemio a'i gyrru  
ar hyd y rheilffordd sydd yn  
arwain o'r Gilfach Ddu, Llanberis,  
hyd lannau Llyn Padarn. Mae  
cyfle i'w gweld yn codi stêm yn yr  
Amgueddfa o tua 9.30 hyd 10.30,  
ac yna bydd i'w gweld ar  
Reilffordd Llyn Llanberis, ynghyd  
â'i thrên o wagenni. Daw y rhain o  
nifer o chwareli yng Ngwynedd -  
o Ddinorwig, Croesor, Graig Ddu,  
Maenofferen, ac yn y blaen. Yn  
ogystal, bydd trenau teithwyr  
Rheilffordd Llyn Llanberis yn  
gweithredu fel arfer, gan roi cyfle  
ychwanegol i weld y drên fach yng

Nghei Llydan, ar lannau'r llyn.

Tâl mynediad i'w Amgueddfa  
yw 60c ar gyfer oedolion, 30c ar  
gyfer plant, ac mae digon i'w weld  
yno. Mae'r adeilad, yr  
arddangosfeydd a'r gweithdai yn  
agored o 9.30 i 6.30 yn yr hwyr,  
mae yn siop lyfrau, ac fe gewch  
baned o de ym mwyty'r  
Rheilffordd. Mae'r maes parcio  
cyfagos yn rhad ac am ddim, a  
gallwch hefyd grwydro drwy Barc  
Padarn i weld ysbyty'r chwarel, y  
barics, sinc Vivian, ac ati. Os am  
fanylion pellach, ysgrifennwch,  
neu ffoniwch Llanberis 870630.

Mae  
**G.  
JORDAN**

**CEFN ELAN  
LLANRUG**

wedi prynu  
busnes

**ERIC GOVER  
LLANBERIS**

I fenthyg  
cymysgwyr  
concrit, cludo  
llwythi ysgafn,  
clirio safleoedd a  
sbwriel ac am  
dywod, gro, brics  
ynghyd â gwaith  
trydanol fel o'r  
blaen

Ffoniwch:  
**CAERNARFON  
3581**

Dysgwch yrru'r car gydag

**Y.Y.O.  
YSGOL YRRU  
OFALUS**

- \* Gwasanaeth 7 diwrnod
- \* O ddrws i ddrws
- \* Control Deuol

**D L  
PRITCHARD  
43 glanffynnon  
LLANRUG  
CAERNARFON 5112**

Cymeradwyir gan yr Adran  
Drafnidiaeth

**DEINIOLEN**

**C  
A  
B  
S**

Gwasanaeth 24 awr -  
unrhyw bellter  
Eich rhedeg i'r Maes  
Awyr neu'r Porthladd

Ffôn: Llanberis

**871591**

JIM WILLIAMS, 12 TAI FAENOL



# PENISARWAUN

**Gohebydd:** Mrs Mary Davies, 9 Llys y Gwynt, (Llanberis 872329)

**EGLWYS SANTES HELEN** – Bu cyfarfod o Undeb y Mamau nos Lun Ebrill 11eg. Y wraig wadd oedd Mrs N. Jones, Bryn Hyfryd, a chawsom ei hanes yn Hong Kong ynghyd â sleidiau. Diolchodd Mrs A. Pritchard, Pen Sarn. Rhoddwyd y te gan Mrs O.C. Roberts, Elidir View, Llanrug.

Fore Sul y Pasg daeth nifer dda i'r cymun Bendigaidd. Cymerodd y plant eu rhan yno, ac fe fedyddiwyd Eleri Wyn, merch Mr a Mrs Gareth Williams o Lanrug. Roedd yr eglwys wedi ei haddurno a diolch i'r rhai hynny a ddaeth i helpu ac i'r rhai a anfonodd flodau a phlanhigion.

**LLONGYFARCHWN** Nerys, 10 Bryntirion a William Thomas, o Gaernarfon ar eu priodas yng Nghapel y Glasgoed ddydd Sadwrn Ebrill 16; a hefyd Ffion Parry, Tawelfa a Derek Roberts o Lanrug, hwythau wedi priodi yn yr Eglwys Babyddol, Llanberis.

**LLONGYFARCHWN** David a Rosemary ar enedigaeth merch fach, Sarah Louise. Mae Mrs Eirlys Williams, 23 Bryn Tirion yn Nain am y tro cyntaf. Ganwyd mab bach i Elfyn a Mena, sef Aled Wynne, yn gwneud Mr a Mrs T.W. Griffiths, 16 Bryntirion yn daid a nain unwaith eto.

**YN YR YSBYTY** yn Bryn Seiont mae Mr L. Parry, Cefn y Coed, ac ym Mangor mae Mr W.J. Jones, Cae Corniog, a Mr Peter Williams, Llwyn Derw. Anfonwn ein cofion atynt.

Da clywed fod Mrs Margaret Williams, Carrog; Mrs Alice Thomas, 10 Tai Arthur; Mrs Gwanwyn Griffith, Cefn Ffordd; a Mrs R. Griffiths, Groeslon Isaf, yn gwella ar ôl bod yn yr ysbyty.

**PRIODAS AUR** – Dathlodd Mr a Mrs Owen Thomas, 3 Tai Newyddion eu priodas aur ar Ebrill 7. Llongyfarchiadau calonnog iddynt.

**DIOLCH** – Mae Mrs Margaret Williams, Carrog, yn diolch yn fawr am y cardiau a phob caredigrwydd a dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty. Hefyd dymuna David a Rosemary ddiolch am y cardiau a'r holl ddymuniadau da a dderbyniwyd ar enedigaeth eu merch fach.

**CLWB YR HEULWEN** – Bu cyfarfod ddydd Mawrth Ebrill 19. Y gŵr gwadd oedd y Parch Trefor Lewis, Deiniolen. Cafwyd prynhawn difyr yn ei gwmni. Rhoddwyd y te gan Mrs K. Williams a Mrs Porter, Llys-y-Gwynt. Enillodd Mrs M. Jones, 5 Llys-y-Gwynt, y raffl. Diolchodd Mrs Nesta Jones i bawb. Bydd y cyfarfod nesaf ddydd Mawrth 16 o Fai.

**CYDYMDEIMLWN** â Mr David Owen, Bryn Hyfryd, sydd wedi colli perthynas iddo yn ddiweddar.

**PRYDAU AR OLWYNION** – Diolch i'r

merched o'r pentref sydd yn rhoi o'u hamser i fynd â'r prydau parod o dŷ i dŷ. Mae'r rhai sydd yn eu derbyn yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth yn arw iawn.

**CAPEL BOZRA** – Bore Sul y Pasg cafwyd gwasanaeth arbennig o dda dan ofal plant yr Ysgol Sul, a daeth cynulleidfadau iawn yno i wrando arnynt. Peth braf oedd gweld y sêth fawr yn llawn o blant, a diolch i'r athrawon Ysgol Sul am eu dysgu mor dda. Yr organyddes oedd Mrs Ann Evans.

Bydd Cymanfa y Wesleiaid yn Llanfairfechan ym mis Mai a bydd plant y capel yn cymryd rhan. Yn yr hwyr bydd Miss Bronwen Rees Hughes, 1 Bryn Hyfryd yn arwain.

Bydd Cymanfa yr Annibynwyr yn Llanberis ar Ebrill 24.

**YR YSGOL FEITHRIN** – Cynhelir arwerthiant nos Fawrth Mai 3 am 6.30 pm yn Neuadd yr Eglwys Penisarwaun er budd yr Ysgol Feithrin. Paratwir cwpaned o de a diod oren i'r plant. Dewch i droi'ch lwc gyda'r gemau a'r raffl ac i brynu oddi ar ein byrddau.

Os oes gennych bethau addas i'w gwerthu, bwydydd, hen lyfrau, dillad neu rywbeth felly, bydd y mamau yn barod i'w derbyn yn y neuadd rhwng 10 ac 11 o'r gloch ar foreau Mawrth a lau ac yn ddiolchgar hefyd am unrhyw gyfraniad tuag at y stondin gacennau ar y noson.

**EGLWYS Y SANTES HELEN** – Fe fydd y gweinyddiad o'r Cymun Bendigaidd am 10.30 o'r gloch y bore, dydd Sul Mai 8, ac yn yr hwyr am 5 o'r gloch bydd Gosber. Y pregethwr gwadd fydd y Parch Ganon Robert David Roberts.

**YSGOL TAN-Y-COED** – Llongyfarchiadau i Barti Canu'r Ysgol ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Sir yr Urdd ym Mangor yn ddiweddar. Daethant yn ail.

**PRIODAS** – Ebrill 2, Sadwrn y Pasg, priodwyd Richard a Rhian yng nghapel Saron, Llanfaglan. Mab ieuengaf Mrs Eluned Elis Owen a'r diweddar William Ellis Owen, Bryn-y-Maen ydi Richard, a Rhian yn ferch hynaf Mr a Mrs Hugh Jones, Tryweryn, Llanwnda.

Gweinyddwyd y briodas gan y Parch Daniel James Hughes, Llanfaglan, a'r Parch W.O. Roberts, Llanrug.

Pob bendith a hapusrwydd yw ein dymuniad iddynt yn eu cartref Gilwern, Ty'n Llan, Llanwnda.

## AR WERTH

**SIWT KARATE** – plentyn 10-11 oed - fel newydd. £10 neu'r agosaf. Caernarfon 5484.

# LLANRUG

**Gohebydd:** Mrs Eirlys Pierce, Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)

**GWELLHAD BUAN** – Ein dymuniadau gorau am wellhad llwyr a buan i Mr Evan Owen, Tŷ Fry.

**Y SEINDORF** – Bu'r Seindorf yn brysur yn ddiweddar yn paratoi tuag at ddwy gystadleuaeth, y gyntaf yn Preston y mis diwethaf, a'r ail yn Pontins, Southport ddydd Gwener y Groglith. Daethant yn bumed allan o 32 yn Preston. Yn Southport daethant yn bedwerydd allan o 21 a theilyngu i gystadlu yn y rownd derfynol a gynhelir ym Mhrestatyn ym mis Hydref.

Roedd cyfarfod blynyddol y seindorf ar Ebrill 7. Yswyddogion am 1983-84 yw: Cadeirydd, Mr Merfyn Ll. Jones; Is-gadeirydd- Trysorydd, Mr Gareth W. Hughes; Ysgrifennydd, Mr James Jones; Cyfarwyddwr Cerdd, Mr Frank Boylin; Arweinydd, Mr John Tame; Dirprwy Arweinydd, Mr Glyn Williams.

Cymerwyd rhan mewn cyngerdd gyda Rosalind a Myrddin ym Methesda ar Ebrill 22. Cynhelir y gystadleuaeth flynyddol i aelodau'r Seindorf ar Fai 7.

**BEDYDD** – Bnawn Sul, Ebrill 17 yn Eglwys Sant Mihangel, bedyddiwyd Colin a Lynn, efeilliaid bach John Richard a Nerys Wyn Jones, 2 Gwynfryn, Stryd yr Orsaf. Gwasanaethwyd gan y Rheithor, y Parch Aled J. Williams.

**CYMDEITHAS CHWIORYDD CAPEL MAWR** – Nos Iau, Ebrill 14 cynhaliwyd noson goffi. Daeth cynulliad da ynghyd a chafwyd noson fendithiol. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Mrs W.O. Roberts, Manod.

Rhoddwyd croeso cynnes i bawb ac anfonwyd cofion at y rhai oedd yn wael. Diolchwyd i'r rhai a anfonodd nwyddau ac arian at y gwaith er yn methu â bod yn bresennol. Rhoddwyd y coffi gan Mrs L. Horman, Venice a Mrs M. Jones, Ogwen. Diolchwyd iddynt gan Mrs W.O. Roberts.

**MERCHED Y WAWR** – Nos Fawrth, Ebrill 12 yn Ysgol Gynradd Llanrug cyfarfu y gangen leol o Ferched y Wawr dan lywyddiaeth Mrs Ann Llwyd Jones.

Daeth cynulliad da ynghyd i gyfarfod y wraig wadd, Mrs Eira Lewis Roberts.

Testun sgwrs y wraig wadd oedd 'Byd Geiriau'. Cafwyd noson ddiddorol iawn yn gwrando ar Mrs Eira Lewis Roberts yn sôn am ei phrofiad fel awdures. Bydd yn sgwennu meddai am na fedr hi ddim peidio. Yn ddiweddar mwynhawyd addasiad o'i gwaith – Min Afon ar y teledu.

Diolchwyd i Mrs Roberts gan Miss Phyllis Ellis. Paratowyd paned o de gan Mrs Awena Elias, Mrs Mair Hughes, Mrs Eileen Jones, Mrs Gwyneth Roberts a Mrs Sian Williams a diolchwyd iddynt gan Mrs Jennie Williams.

Cydymdeimlwyd â Mrs Gwladys M. Jones, Dalar Deg a golodd ei chwaer yn ddiweddar.

Cynhelir y Cyfarfod Blynyddol nos Fawrth Mai 10. Trefnir amser yn ystod y noson i wrando ar eitemau i'n diddori gan aelodau Brethyn Cartref. Cynhelir y cyfarfod yn yr Ysgol Gynradd.

**HAFAN ELAN** – Nos Iau Ebrill 14 cafwyd noson hwyliog iawn gyda cwis wedi ei drefnu gan Mrs D. Jones y Warden. Yr oedd wedi cael cwestiynau rhagorol ac amrywiol iawn. Mrs Jones hefyd a drefnodd y lluniaeth. Diolchwn hefyd i Mr Arthur Jones am gadw'r cyfrif.

Mae un o'r trigolion wedi bod yn wael yn ddiweddar sef Mrs G. Orritt, Rhif 10 – dymunwn wellhad buan iddi.

**CLWB BLODAU'R GRUG** – Pnawn Iau, Ebrill 14 cafwyd cwis dan ofal Mr Eifion Roberts, Nant-y-glyn a mwynhawyd yr ornest yn fawr gan yr aelodau. Diolchwyd i Mr Roberts gan Mrs J.G. Jones, Ger-y-ffynnon, Ystâd Tal-y-bont ac eiliwyd gan Mrs M. Pritchard, 4 Hafan Elan. Rhoddwyd y te gan Mrs Jones, 22 Hafan Elan, Mrs C. Owen, 9 Hafan Elan a Mrs N. Williams, Glanmoelyn. Enillwyd y raffl gan Mrs Jones, Sŵn-y-gwynt. **GENI** – Llongyfarchiadau i Eirian ac Elfed Roberts, 24 Glanffynnon ar enedigaeth merch, a chwaer fach i Iwan, ar Ebrill 25 yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor.

**DIM ETHOLIAD** – Ni chynhelir Etholiad Cyngor Bwrdeistref Arfon yn Llanrug ddechrau'r mis. Etholwyd y Cynghorydd presennol, sef Gwynndaf Jones, yn ddi-wrthwynebiad.

## DRAENOG



Llongyfarchiadau i'r Cyngor Sir. Os cawn haf sych, ond trafndiaeth ysgafn, y mae pob gobaith y cwblheir dwy droedfedd a hanner arall o'r lôn rhwng Llanrug a Phonrug erbyn diwedd Awst 1983. Pe buasai'r gwaith ar lôn osgoi Bangor yn mynd rhagddo ar yr un cyflymdra byddai'n barod i'w hagor ganol y flwyddyn 2017 (tua'r un pryd â'r ysbty newydd ym Mangor).

**J.M. JONES A'I FAB**

**GWAITH CERRIG BEDDAU**

**A THREFNWYR ANGLADDAU**

**DEINIOLEN**

**Ffôn: LLANBERIS 872518 (Dydd)**

**Y FELINHELI 670124 (Nos)**

**PENSIYNAU**

**YSWIRIANT**

**MORGAIS**

Gwasanaeth newydd i bobl y fro

**Robert Jones** a'r Cwmni

Ymgynghorwyr Yswiriant a Morgais

**SIOP ISAF, 7 HEOL-Y-DŴR,**

**PENYGROES**

**Ffôn: 880027 (24 awr)**

Codwch y ffôn heddiw am bris

Mae gennym Gynlluniau Pensiwn, Bywydau, Yswiriant Eiddo, Adeiladau, Cyfrifoldebau, Ceir etc. ar gyfer pawb

**ASiantaeth Leol Cymdeithas Adeiladu'r Halifax**



# Agor

## Ffiniau'r Gorffennol

### Pegio Mochyn

Byddai mochyn neu ddau yn cael eu magu yn Llys Awen mewn cwt yn yr ardd bob amser pan oeddwn i yn blentyn. Byddai'r mochyn yn cael sylw a moethau gan bawb. Byddem yn rhoi enw ar y mochyn, yn siarad hefo fo, ac yn prynu melysion iddo. Diwrnod trist oedd diwrnod gwerthu'r mochyn a chael grôt (pedair ceiniog) y pwys amdano.

Ond yr helynt fwyaf fyddai diwrnod pegio'r mochyn. Gallaf gofio'r oruchwyliaeth arswydus yma yn iawn. Fel hyn y disgrifiodd fy nhad y gorchwyl yn ei golofn 'Detholion o'r Dyddiau Gynt' yn Yr Herald, Mai 1af 1944. Am begio'r moch yn y Clegir y sonia fy nhad.

"Gorchwyl pur gynhyrfus a thrysfawr fyddai pegio'r moch erstalm, cyn i'r modrwyau ddyfod i arferiad cyffredinol, fel y maent yn awr. Byddem yn mynd at y gof i roi ordor am hanner dwsin o begiau. Gwnai ambell of celfydd yr hanner dwsin mor debyg i'w gilydd fel na welech wahaniaeth rhwng y naill a'r llall: y cwbl wedi eu llunio gyda dim ond morthwyl, ac ychydig gemdid ym mhob un. Ni thalai neb i begio'r moch gan fy nhad yn y Clegir ond Evan William, Tŷ Capel, sef hen was fferm. Byddai'r moch fel rheol yn dri mis neu ragor. Daliai fy nhad y mochyn rhwng ei goesau, gan afael yn ei drwyn a'i law chwith, ac yn ei glust a'i law dde. Yna, byddai Evan William hefo'r myniawyd yn tyllu dau dwll yn nhrwyn y mochyn ac yn stwffio'r peg cyntaf, a chyrlio ei flaen gyda hen agoriad mawr a luniwyd i'r pwrpas gan y gof du. Yna stwffio yr ail beg a'i gyrlio i fyny. Yna edrych a fyddai'r ddau beg yn ddigon llac i beidio peri poen. Yna gollwng y mochyn truan sgrechlyd, gwichlyd, a dyna dawelwch mawr am funud, cyn myned trwy yr un oruchwyliaeth gyda'r mochyn arall. Byddai Evan William yn crynu ychydig, a byddai pawb yn yr ardal yn gwybod pan y byddem yn pegio'r moch, oherwydd y byddent yn sgrechian mor ofnadwy tra byddai'r oruchwyliaeth begio yn parhau. Weithiau collai un o'r moch ei begiau, a byddai'n rhaid ei ail begio. Erbyn hyn byddai'r mochyn yn rhy fawr i'w ddal rhwng coesau a rhoddid rhaff yn ei enau i'w ddal. Byddai pwt o bren yn sownd wrth y rhaff i'w thro i wasgu ar drwyn y mochyn a'r enw ar y pren a'r rhaff oedd "twts".

Dyna sgrechladau anaeorol! Creulondeb meddech. Onibai'r pegiau buasai'r moch yn codi popeth, - y caeau a'u cytiau a phopeth. Pan oedd y moch yn byw'n wyllt gynt, cyn i ddyn eu dofi at ei wasanaeth, byddent yn tyllu a rhychu'r ddaear yn ddychrynlyd i chwilio am eu hymborth, sef cnau daear, a gwreiddiau

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

coed, a llysiau a thrychfilod, a llyngyr daear. Gwnaed trwyn y mochyn yn bwrpasol at y gwaith o dyrchio'r ddaear, ac er iddo gael pigion o India Corn a llaeth, i dyrchio'r ddaear y try o'i gwt; felly rhaid ei begio."

### Percy Bysshe Shelley

Meddai fy nhad yn ei golofn Ebrill 24, 1944:

"Y mae gan bobl Sir Gaernarfon rywbeth i'w ddweud am y bardd Seisnig hwnnw sef Percy Bysshe Shelley, oherwydd bu'n byw am gyfnod mewn tŷ heb fod ymhell o Borthmadog, sef Tanrallt. Bu'n byw hefyd yn Iwerddon, ond yn y diwedd aeth i'r Eidal i fyw mewn tŷ yn y wlad, mewn lle o'r enw Lerici. Ei gyfeillion yno oedd Trelawny, Byron Leigh Hunt a Capten Williams. Anffyddiwr ydoedd Shelley, cyhoeddus hefyd: ond yr oedd yn ŵr o athrylith fawr ac yn awdur nofelau a barddoniaeth.

Aeth Shelley a Capten Williams am daith fôr gyda chwch, ond cododd yn storm fawr meddir, dymchwelwyd y cwch yn rhywle rhwng Teghorn a Bae Spezia. Ond amheuwyd gan rai mai gwaith lladron oedd dymchwel y cwch er mwyn cael ysbeilio Shelley o'i arian poced. Golchwyd y cyrff i'r lan gan donnau'r môr, a chladdwyd hwy yn frysiog yn y tywod i arbed trwbl gyda'r awdurdodau, oherwydd cyfraith y 'quarantine' oedd yn yr Eidal ar y pryd.

Yn ddiweddarach llosgwyd corff Shelley ar lan y môr. Casglwyd y llwch dynol a'i roddi mewn blwch a'i gludo i fwrdd y llong 'Bolivar'.

Y mae'r hanes am losgi corff Shelley yn y Gentleman's Magazine am Medi 1822. Digwyddodd y trychineb Gorffennaf 8. Trelawny adroddodd yr hanes. Gwnaeth fy nhad rwydd gyfieithiad ohono o'r 'Sunday Express'. Mae'r cyfieithiad yn yr Herald Ebrill 24, 1944.

1800

Yn Nant Peris, claddwyd gwraig a'i dwy ferch yr un diwrnod, oddeutu'r flwyddyn 1800. Dyma'r englyn sydd ar y garreg fedd:

Angau du, ing yw dy wedd, -  
ergydiaist  
Wraig Edwards yn farwedd;  
Dwy eneth o'i dŷ annedd,  
Tori o'r byd tair i'r bedd.

John Thomas, Pentrefoelas  
Caiff y ceiliog gloi heddiw!

Y Ceiliog  
Y ceiliog sydd dda, 'rwy'n coelio -  
y bore

I beri i ti ddeffro:  
Ni wna'r cloc ond fy mocio,  
A tharo pan fynno fo.  
Absalom Roberts  
oddeutu 1820

## COFIO HEN GYMERIADAU

Gair bach i ddweud gymaint yr wyf yn mwynhau'r Eco bob mis, yn enwedig rhai o'r cerddi, un ddifyr iawn gan Emrys Owen yr wythnos hon, yn gwneud i mi gofio am lawer o hen gymeriadau yn gweithio yn Chwarel Dinorwig.

Mae llawer yn cofio, mae'n debyg, hen gymeriad o Fethel o'r enw Thomas John Michael, a oedd ar ddiwedd ei yrfa yn glanhau y 'Caban Mills' yn 'Ffiar Injan'. Cofiaf ef yn dda yn dweud ei hanes yn Rhyfel 1914-18 yn gwersylla tu allan i Walton ger Lerpwl.

Cawaant eu symud yn ddisymwth i Gretna Green, lle anial iawn medda 'rhen Dom, a rhaid oedd i 'Taff' wneud penillion ar yr achlysur, o'i fath newid o dref fawr Lerpwl i anialdir yr Alban, a dyma'r penillion enillwyd iddo beintiau lawer medda fo.

I haven't seen a single smile  
Since I left Walton for Carlisle  
Today I'm far in Gretna Green.  
The loniest place we've ever seen.  
The Scottish mist surrounds me thick  
I can't go out without a stick  
And even not a single light  
To lead us back to camp at night  
The Scottish lassies call me Taff  
Ten thousand girls can't make me laugh  
When I get back to dear old Wales  
I'll tell my friends some funny tales  
In Walton jail I'd sooner be  
Than serving in the RDC.

"Beth oedd yr RDC 'rhen Dom,' meddwn wrtho. "Royal Defence Corp," medda ynte, "a rhyngo ti a fi maent wedi gofyn i mi gadw llygaid ar y Rhyfel yma hefyd," sef 39-45 wrth gwr.

Ia, Tomos John Michael, cymeriad ar ben ei hun ac os rwyf yn cofio yn iawn, yn dad i Nell Hughes (Penrhosddu) chwedl fy nain.

Hoff bleser hogiau rybela yn y ffiar injan fyddai mynd bob awr ginio at Ned y Glo i'r Efail. Ambell waith mi fyddai eisiau taro hefo'r hen ordd fawr, a thro arall caem sgwrs a barddoniaeth a hanes gan yr hen of.

Cofiaf ef yn dweud am Glan Rhyddallt yn gyrru i fyny gyda bachgen o'r enw Michael iddo wneud cŷn newydd iddo a dyma'r englyn: Ned y Go a wneid di gŷn

Hwnnw'n denau fel sglodyn  
Ei fin hollta fain welltyn  
Lliw y dorth yn llaw y dyn.

Wedi cwblhau'r gwaith dyma Ned y Gof yn ei ateb fel hyn:

Mi a wnes i chwi'r cŷn gorau  
A hollta hyltodd o lechan  
A'r hâl Fichael a'i feichiau  
Bod i hwn dy foddhau di.

Roedd yr awen yn fyw iawn ganddynt, yr hen gymeriadau hoff.

Cymeriad difyr iawn arall oedd Robert Jones Parc, Dinorwig. Bob amser yn reidio ei feic i'r chwarel ac adref, un o Sir Fôn yn enedigol ac wrth ddod adref o'r chwarel, byddai'r chwarelwyr yn arfer cerdded ar yr ochr chwith, a gadael lle i hongian beics ei pasio ar y dde.

Clwyem Robat Jones yn dod o bell, achos ni fyddai'n stopio canu ei gloch, ac ambell un yn gweiddi MOCHYN, oherwydd dyna fyddai pobl Môn yn cael eu galw, a'r hen Robat Jones yn gweiddi yn ôl yn ei lais basaid: "Os magwch chi ful, mul fydd o."

Ia, hen gymeriadau'r chwarel, ys gwn i sawl plentyn sydd heddiw'n cofio am Swper Chwarel, a nos Wener Cyfrif Mawr?

Hwyl fawr,  
Walter Jones  
(Parc, Llanrug gynt)  
26 Nant-y-glyn  
Cyffordd Llandundo

## GŴYL LAFUR

Toriaid Allan! Dyna yw neges syml yr Ŵyl Lafur i'w chynnal ym Mangor ar ddydd Sadwrn, Ebrill 30. Trefnir yr Ŵyl eleni gan Gynghorau Undebau Llafur Gogledd Cymru gyda help y Gymdeithas Sosialaidd ym Mangor. Estynnir croeso cynnes i bawb am weld diwedd buan ar deyrnasiad y Toriaid.

Prif thema'r Ŵyl yw effeithiau'r Toriaid ar y gwasanaethau cyhoeddus, diweithdra ac undebau llafar. Am 1.00 pm gorymdeithir o storfa John Edwards ar lôn Caernarfon, drwy Fangor, i Ganolfan Bron Castell. Yno, cynhelir cyfarfod cyhoeddus am 2.00 pm yn

cynnwys trafodaethau agored ar effeithiau'r Toriaid ar iechyd, gwaith, yr iaith, addysg ac undebau. Cynigir amrywiaeth o ffilmiau ar arfau niwclear, diweithdra, hanes gweithwyr Cymru a gwrthdaro diwydiannol.

Rhoddir gwobr o Gronfa Goffa Joe Atkinson i berson ifanc a gyfrannodd yn sylweddoli achos heddwch a sosialaeth yng Ngogledd Cymru. Gweithgareddau eraill yr Ŵyl fydd arddangosfeydd, stondinau llenyddiaeth, adloniant ysgafn, cerddoriaeth a disgo gyda'r nos. Darperir lluniaeth ysgafn.



## BECWS DEINIOLLEN

(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn: LLANBERIS 870232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

## SCIPIAU ARFON

YMGYMERIR Â CHLIRIO SBWRIEL O BOB MATH  
SBWRIEL ADEILADU, CARTREF A  
DIWYDIANNOL  
TELERAU RHESYMOL

Ffôn:

Dydd Caernarfon 5670  
Llanfairfechan 680 329

Gyda'r Nos  
Llanberis 872236





## O BANTRI BETH



Yn aml byddaf yn paratoi cawl cartref i de, a'i fwyta efo brechdanau cig neu gaws. Mae'n faethlon a blasus ac nid oes eisiau dim ond teisen i orffen y pryd.

### Cawl Lentils a Tomato

4 owns o lentils  
1 moronen  
1 wynwynsyn bach (nionyn)  
1 sleisen o gig moch  
1 tun mawr o domatos  
1 peint o ddŵr  
hanner peint o lefrith  
papur a halen

Torrwch y cig moch yn ddarnau a'i ffrio'n gyflym mewn sosban. Torrwch y foronen a'r nionyn yn fân a'u hychwanegu ato. Ffriwch y cyfan nes bod y wynwns yn feddal.

Ychwanegwch y ddŵr, y llaeth, y lentils a'r tomato a chodi'r cawl i'r berw. Trowch y gwres i'r isel a'i adael nes fydd wedi digoni tua awr a hanner.

Rhowch y cyfan drwy hylifwr ac ychwanegu'r pupur a'r halen wrth eich bodd.

### Torth Gnau

6 owns blawd codi  
4 owns siwgr  
2 owns sultanas  
2 owns cnau ffrengig (wedi eu malu)  
1 ŵy  
ychydig o lefrith

Rhowch y defnyddiau sych mewn powlen ac yna ychwanegwch yr ŵy a'r llefrith. Cymysgwch yn dda a rhowch y cymysgedd mewn tun wedi ei iro'n dda a'i waelod a'i ochrau wedi eu gorchuddio â phapur menyng.

Craswch mewn popty cymedrol am awr. Nwy 4.

A rhywbeth neis, neis i de

## BRYNREFAIL

D.G. Ellis, Gweledfa (Llanberis 871223).

CLWB Y MAMAU – Yng nghyfarfod y mis yn Nhŷ Glas, cafwyd noson ddiddorol ac addysgiadol yng nghwmni Mr Collwyn Williams o Fethel. Mae Mr Williams yn un o brif swyddogion Gwasanaeth Tân Gwynedd ac fe dynnodd sylw yr aelodau at beryglon yn y cartref a moddion diogelu. Rhoddwyd y te gan Jinnie Roberts a Mair Williams, rhoddwyd anrheg y mis gan Jackie Jones ac fe'i henillwyd gan Mrs Mair Griffiths.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Daeth canghennau Brynrefail, Bethel a Brynrefail at ei gilydd yn y Waen, a bu y fenter mor llwyddiannus fel y gobeithir ymuno eto yn y dyfodol. Yn yr ornest a drefnwyd, bu aelodau o Frynrefail yn llwyddiannus yn eu cyfraniadau i'r ddau dîm. Dymuna Sefydliad Brynrefail ddiolch am y croeso a'r wledd a drefnwyd. Ceir adroddiad o gyfarfod Ebrill 21 yn y rhifyn nesaf.

80 OED – Llongyfarchiadau i Mrs Margaret Closs-Parry, Bryniol, ar ei phen-blwydd yn 80 oed ar Ebrill 23.

CLWB PEDWARUGAIN – Enillwyd mis Mawrth:  
Mawrth 4 – 1. Vera Price 2. Norma Green 3. Eirlys Williams.

Mawrth 11 – 1. Dafydd Ellis 2. Mrs Mowl 3. Meurig Jones  
Mawrth 18 – 1. Ken Jones 2. Sheila Williams 3. Delyth Cae'r Bythod  
Mawrth 23 – 1. Wilburt Williams 2. Alwyn Roberts 3. Derek Davies  
Mawrth 30 – 1. Islwyn Jones 2. Carol Houston 3. Megan Jones

LLONGYFARCHIADAU – I Carl a Gwawr Wager, Manceinion ar enedigaeu eu plentyn cyntaf, mab – Gareth Antony – ŵyr i Bert ac Anne Parry, Llys Orwig, Stryd Newton a Mr a Mrs Colin Wager, Llythyr, Brynrefail, 20 Ebrill – yr un diwrnod â phen-blwydd ei daid Llanberis. Mae Carl a Gwawr wedi ymgartrefu yn Ashton-under-Lyme ers tair blynedd. Bydd y bedydd yn Eglwys Nant Peris yn y dyfodol agos.

### RHODDION

£5 – Di-enw, Llanberis.  
£3 – Mrs Moss Williams, Gallt-y-foel, Deiniolen; Mrs Kate Griffith, Arwelfa, Dinorwig; Mr a Mrs Bernard Evans, Stryd Newton, Llanberis.  
£2 – Mrs Nan Owen, 8 Rhes Efrog, Llanberis; Di-enw Deiniolen.  
£1 – Di-enw, Deiniolen; Di-enw Cwm-y-glo; Di-enw Bethel.

## Y TRAMP – a CHAPEL COCH

Mae'r rhan fwyaf o'r ardalwyr wedi bod rhyw dro neu'i gilydd i fewn i Eglwys Bresbyteraidd Capel Coch mewn gwasanaeth crefyddol neu i gyngerdd. Rhaid cyfaddef fod harddwch yr adeilad a'r lliw cynnes sydd yn cael ei lewyrchu drwy'r ffenestri lliwgar yn gadael argraff ar bob unigolyn. Ond, ys gwn i a ydych wedi codi eich golwg i'r nenfwd? Dyma i chi wledd i'r llygaid ydyw'r patrymau cywrair a chrefftus sydd wedi eu peintio â phaent aur. Bob tro yr af i Gapel Coch byddaf yn cofio hanesyn bach difyr iawn a fyddai fy ewythr yn ei adrodd i mi, a rhywbeth yn debyg i hyn fyddai'r hanesyn.

Yn Lorne House, Stryd Fawr byddai John Roberts, Peintar yn byw. Siop yn gwerthu papur papuro oedd Lorne House, ac yn y selar roedd gweithdy a siop baent John Roberts. Un bore gwelodd gwraig John Roberts rhyw drempyn yn syllu o gwmpas y gweithdy. Aeth i'r drws a gofynnodd i'r trempyn a allai ei helpu ac atebodd y trempyn – "chwilio am waith yr ydwyf – peintiw'r ydwyf wrth fy ngalwedigaeth, ac yn gweld yn amlwg fod peintiwr yn byw yma – hwyrach y byddai angen gweithiwr arall ganddo". Edrychodd Mrs Roberts yn graff arno a gwelodd ei fod yn garpiog a gwelw yr olwg roedd yn dra boneddigaidd. "Dowch i'r gegin – gwnaf gwpaned o deichi – bydd fy mhriod yma am gwpaned tua naw o'r gloch a chewch sgwrs gydag ef". Roedd John Roberts wedi derbyn cytundeb gan swyddogion Capel Coch i beintio'r adeiladau i gyd – tu allan ac oddi mewn, a hwyrach y gallai wneud â gweithiwr ychwanegol.

Wedi i John Roberts sgwrsio â'r trempyn a'i holi am wahanol ddulliau o beintio sylweddolodd fod y gŵr yma yn beintiw'r proffesiynol a gwnaeth gytundeb yn y fan a'r lle. Yr unig broblem ynglŷn â pheintio'r capel ydoedd y nenfwd. Ni wyddai John Roberts ddim am waith mor gelfydd â hyn, ac wedi dangos y cyfan i'r trempyn gofynnodd iddo a fedrai ef ymgymryd â'r cyfan o waith addurno'r nenfwd. "Gadewch y

cyfan i mi Syr – fydd gennych ddim i bryderu drosto" meddai'r trempyn.

Felly y bu – gwnaeth Mrs Roberts ystafell gysgu i'r trempyn yng nghornel y gweithdy, oblegid gwrthodai fynd i gysgu i'r tŷ, dim ond i'w brydau bwyd. Aeth misoedd heibio – cwblhawyd y gwaith yn llwyddiannus iawn fel y gwelwch hyd heddiw, ac roedd y trempyn yn hwylio i symud ymlaen, er i John Roberts geisio ei berswadio i aros. Na ni ysgwigiai yr un fer – roedd yn benderfynol a phendant ei fod am fynd ymlaen dros Fwlch Llanberis.

Cyn gadael dyna'r trempyn yn cyflwyno darlun olew hardd iawn i wraig John Roberts am ei charedigrwydd iddo. Ni fyddai'r creadur byth yn symud allan o'r gweithdy ar ôl diwrnod o waith – dim ond yn difyrru ei hun drwy beintio. Gwelais y llun olew yma lawer gwaith. Roedd o faint reit fawr (tua llathen a hanner o hyd a thua tri chwarter llath o led). Wedi marw John Roberts a'i briod cyflwynodd ei ferch Jennie y darlun olew i'r Cyngor Plwyf, ac yn ystafell y Cyngor Plwyf y syllais arno lawer gwaith. Fel y cofiwch – yn y llyfrgell, uwchben Siop Griffith Jones, y Teiliwr yr oedd y llyfrgell ac ystafell y Cyngor Plwyf. 'Y Bisto' sydd yno heddiw. Pan symudwyd y llyfrgell, gwnaed i ffwrdd â'r ystafell gynghori, a symudwyd y llun olew hefyd.

Sut lu oedd o gofynnwch? Mae'n amlwg fod y peintiwr wedi sefyll wrth geg y llyn – yn 'Ynys Felan' ac wedi tynnu llun o Lyn Padarn a'r haul yn mynd i lawr. Ar ochr chwith i'r llun roedd y trên yn rhedeg allan o'r twnel ger Pen-llyn, ac wrth ei bod hi yn noswyllo roedd y goleuadau bach o bob rhan o'r tren yn adlewyrchu yn nŵr y llyn. Welais i yr un tebyg iddo erioed. Ys gwn i lle'r aeth y llun pan orffennodd y Cyngor Plwyf ddefnyddio'r ystafell?

Ni chlywyd dim o hanes yr hen drempyn chwaith wedi iddo gerdded dros Fwlch Llanberis, ond ers ei waith cywrair hyd y dydd hwn.

M.B.H.

## CLWB CYMRAEG CAERDYDD

Mae amryw ohonoch yn y fro hon yn cael achos nawr ac yn y man i ymweld â Chaerdydd. Y tro nesa y byddwch yn y brifddinas beth am droi i mewn i'r Clwb newydd?

Clwb gydag aelodaeth uniaith Gymraeg ydi o ac fe'i agorir yn swyddogol ddiwedd mis Mai.

Lleolir yr adeilad yn agos at y Castell yng nghanol Caerdydd yn Heol y Fwch Goch (Womanby St.) – o fewn canllath i'r Stadiwm Cenedlaethol. Mae tri llawr iddo gydag organ drydan, offer chwaraeon gan gynnwys dau fwrdd

snwcer maint-llawn, neuadd gyngerdd a thri bar.

Mae aelodaeth gysylltiedig ar gael i Gymry sy'n byw tu allan i siroedd Morgannwg a Gwent, sef £2 y flwyddyn. Ac os oes unigolyn, neu bâr priod eisiau gwaith, yna mae'r pwyllgor yn chwilio am stiward i reoli'r Clwb, ceisiadau at yr Ysgrifennydd, 135 Keppoch St., Y Rhâth, Caerdydd (Ffôn 497414). Pwy bynnag o'r fro hon fydd yn llwyddiannus, peidied iddo ag anghofio gwneud trefniadau i dderbyn Eco'r Wyddfa trwy'r post!

## GWILYM JONES Monumental Works LLANRUG

FFÔN CAERNARFON 2898

COFADEILWAITH O BOB MATH  
MEWN LLECHI A GWENITHFAEN  
GAN GREFFTWYR LLEOL



SIOP AMAN Stryd Fawr

DEINIOLLEN Ffôn: Llanberis 871210

Mae'r siop yn awr ar ei hail flwyddyn ac yn mynd o nerth i nerth



# DEINIOLEN

**Gohebydd:** Mrs Nancy Rowlands, 12 Pentre Helen (Llanberis 870267)

**DIOLCHIADAU** – Dymuna Yvonne, Pam a Gloria ddiolch ar ran y Guides i ferched tîm darts y Bull, am eu rhodd iddynt.

Dymunant hefyd bob llwyddiant ar y gwaith da o godi arian i amryw fudiadau yn yr ardal y maent yn ei wneud. Hwyl fawr i chwi ferched a phob llwyddiant eto yn y dyfodol.

Dymuna Mr Moss Williams, Wylfa, Penincle, Gallt-y-Foel, ddiolch yn fawr iawn i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau a'r rhoddion a galwadau ffôn tra bu'n yr Ysbyty yn Llundain yn derbyn llawdriniaeth. Diolch yn fawr iawn i bawb am eu caredigrwydd.

Dymuna teulu y ddiweddar Mrs Annie Lloyd Jones 5 Cynfi Terrace ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gareidigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli mam annwyl. Diolch hefyd am y rhoddio a dderbyniasant – £116. Mae'r rhodd hon wedi ei throsglwyddo i Patient Amenity Fund, Bryn Seiont Hospital, Caernarfon.

**NOSON GOFFI** – Cynhelir Noson Goffi yn y **Clinic** nos Wener Mai 13. Yr elw at Glwb Elidir.

**SEFYDLIAD Y MERCHED** – Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Ebrill 11. Y gŵr gwadd oedd Mr John Roberts, Groeslon. Cawsom noson ddifyr iawn ganddo yn dweud hanes am Eisteddfodau. Croesawyd Mr Roberts gan y llywydd, Mrs Rita Jones Becws, a ddiolchwyd iddo gan Mrs J. Eirlys Williams. Darllenodd y llywydd y llythyr misol. Cydymdeimlwyd hefyd ag aelodau a fu mewn profedigaethau yn ddiweddar. Rhoddwyd y te gan Mrs Rita Jones, Mrs Marian Williams a Mrs Maureen Evans. Enillwyd y raffl gan Miss Nancy Roberts. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fai 9fed pryd y bydd V.C.O. yn siarad am yr A.G.M. yn Llundain, cafwyd ymddiheuriad gan amryw o'r aelodau oedd yn methu â bod yn bresennol. Bydd cystadleuaeth hefyd am y Cwpan a Soser mwyaf deniadol yn y cyfarfod nesaf.

**CLWB ELIDIR** – Cyfarfu'r uchod ar Fawrth 22 yn y Clinic. Llywyddwyd gan Mrs C. Marren. Anfonwyd cofion at amryw o'r aelodau sydd yn cwyno. Rhoddwyd y te gan y llywydd a thalwyd diolch iddi gan Mrs Megan Morris. Enillwyd y raffl gan Miss Kathleen Jones, rhoddedig gan Mrs Nancy Rowlands, 12 Pentre Helen.

Cynhaliwyd cyfarfod Ebrill 12 yn y Clinic dan lywyddiaeth Mrs C. Marren, y llywydd. Cydymdeimlwyd â theulu'r ddiweddar Mrs Jane Griffith, 10 Tai'r Faenol, yn eu profedigaeth. Daeth nifer dda o'r aelodau ynghyd, rhai wedi bod yn absennol ers peth amser. Treuliwyd prynhawn hynod o ddifyr yng nghwmni Miss E.W. Jones, Ty'n y Fawnog, Dinorwig pan ddarllenodd bapur o waith ei mam oedd wedi cystadlu yn Eisteddfod Gwaun Gynfi yn ddiweddar. Rhoddodd enwau siopau Deiniolen pan oedd hi yn hogan bach – mae Mrs Jones yn awr wedi cyrraedd yr oedran teg o 85. Roedd yr hanes yn hynod o ddiddorol. Diolchwyd i Miss E.W. Jones gan Mrs Marren a Mrs E. Williams, 2 Bwthyn. Dymunwyd pen-blwydd hapus i amryw oedd yn cael eu pen-blwydd a rhai yn ddiweddar. Rhoddwyd y te gan y rhai canlynol: Mrs Maggie Roberts, Mrs Katie Griffith, Mrs Elsie Davies a Mrs Mary Thomas. Enillwyd y raffl gan Mrs Blodwen Parry, rhoddedig gan

Mrs Nancy Rowlands, 12 Pentre Helen. Cynhelir noson Goffi yn y Clinic nos Wener Mai 13.

Byddwn yn falch o unrhyw rodd at y noson hon mewn nwyddau neu arian. Diolch.

**DYMUNA** Mr Hugh Jones, 6 Tai'r Faenol ddiolch yn ddiffuant i Feddygon a gweinyddesau Ward Lawfeddygol Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor ac i staff Ysbyty Eryri, Caernarfon am eu hymroddiad a'u caredigrwydd mawr, hefyd i'w berthnasau am bob cymorth a charedigrwydd tra yn yr Ysbytai ac ar ôl dychwelyd adref, diolch hefyd am bob ymweliad, a holiadau, rhoddion a chardiau. Diolch yn fawr iawn i bawb.

**MERCHED Y WAWR** – Cynhaliwyd cyfarfod o'r uchod yn y Ganolfan nos Lun Ebrill 18, y llywydd oedd Mrs Miriam Lewis. Cafwyd noson ddifyr gan Mrs J. Eirlys Williams. Bu'n siarad am y siopau oedd oedd hi yn eu cofio pan yn blentyn. Diolchwyd iddi gan y llywydd. Cydymdeimlwyd â Mrs M. Jones, 7 Hafod Oleu a Mrs Falmal Williams, 2 Tai'r Faenol ar golli mab a brawd, hefyd gweddill y teulu yn eu profedigaeth sydyn a gawsant yn ddiweddar. Bydd Mrs Miriam Lewis a Mrs Jane Eirlys Williams yn mynd i gynrychioli'r gangen mewn cyngor a gynhelir yn Aberystwyth dydd Sadwrn, Mai 7fed. Rhoddwyd y te gan Mrs Jane Jones 3 Stryd Newydd a Mrs Mary Morris, 91 Pentre Helen. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Lun Mai 16 yn y Ganolfan. Y wraig wadd fydd Miss Jane Jones, Swyddog lechyd.

**LLONGYFARCHIADAU** i Ellen Williams, 3 Victoria Terrace, merch fach Mr a Mrs Neville Williams ar basio ei Gradd Gyntaf ar ganu'r piano.

**PLAID CYMRU** – Cyfarfu pwyllgor y gangen yn Bro Dawel nos Fawrth, 12 Ebrill. Dewiswyd Mrs Hannah Roberts a Mrs Gina Keller i gynrychioli'r gangen pan fyddai'r Blaid yn canfasio yng Nghaergybi y dydd Sadwrn dilynol.

Gwnaed trefniadau ar gyfer y noson yng nghwmni Miss Phyllis Ellis, yn y ganolfan, nos Wener, 29 Ebrill, am 7 o'r gloch. Bydd croeso cynnes i bawb.

Enillwyr Clwb Cant mis Ebrill oedd: £10 – Rhif 9 – Mr Eifion Hughes, Tai'r Faenol £8.50 – Rhif 24 – Mr Idwal Jones, Tŷ Capel Libanus, Clwt-y-Bont.

Nos Wener, Mai 20 cynhelir noson amrywiol yng nghwmni Dafydd Iwan yn y Ganolfan. Erfynnir ar i'r aelodau gefnogi'r gweithgareddau sy'n cael eu trefnu ar eu cyfer.

## CÂN ACTOL, YSGOL GWAUN GYFNI, 1936



**Yn eistedd (chwith i'r dde):** - Elizabeth Jones, Carmen Jones, Nancy Marian Jones. **Yn Sefyll:** - Beti Williams, Eirwen Morris, Jona Thomson, Sheila Thomas. **Sefyll yn y cefn:** - Eirwen Jones.

**BABI NEWYDD** – Dymuna Mr a Mrs Arnold Morris, Llechwedd, Deiniolen, ddiolch o galon i bawb am yr holl gardiau ac anrhegion a

dderbyniasant ar achlysur genedigaeth eu mab bychan, Elfed Morgan, a aned ar y 7fed o Fawrth.

## Dyn y Marathon

Ymhlith y 18,000 o redwyr ym Marathon Llundain ddydd Sul, Ebrill 17 roedd Graeme Sutherland, Pen y bont, Deiniolen. Roedd awyrgylch carnifal yn Llundain y bore hwnnw, meddai Graeme, ac roedd brwdfrydedd a chefnogaeth y dorf yn gymorth i'r rhedwyr ar hyd y cwrs o dros 26 milltir.


Gorffennodd y ras mewn 3 awr 40 munud, sef oddeutu ei amser arferol am y farathon (mae wedi cystadlu mewn tair arall yn ddiweddar). Er bod pob rhedwr cystadleuol â'i lygaid ar y cloc, nid oedd amser o bwys gan Graeme; y weithred o fod yn rhan o'r fath achlysur oedd y peth pwysig iddo. Roedd yn uchel iawn ei glod i drefnyddiaeth y ras.

Mae'n ofynnol ar i bob un sy'n bwriadu cystadlu ym Marathon Llundain anfon ei ffurflen gais ar ddyddiad penodol ac ar amser penodol (rhwng 7 a 9 y bore), tua chwe mis ymlaen llaw. Dywedodd Graeme i'w wraig Helen fynd am 3 yn y bore i giwio tu allan i Swyddfa'r Post ym Mangor er mwyn sicrhau bod ei gais yn cael ei bostio'n fuan.

Roedd wyth o'i blaen yn y ras!

Dechreuodd Graeme ymddiddori mewn rhedeg i gadw'n heini tua phedair blynedd yn ôl. Erbyn hyn mae'r 'clefyd' wedi cael gafael arno, – a theimla'n euog os nad yw wedi gallu bod allan yn rhedeg. Mae'n rhedeg tua 50 milltir yr wythnos.

Fe'i noddwyd ar gyfer y ras gan gwmni 'National Holidays' a bydd yr arian yn cael ei gyflwyno i Ysgol Pendyffryn, sef ysgol i blant awtistig yn Ninbych. Mae un o blant Graeme a Helen yn ddisgybl yno.



## SIOP HELEN

CHESTER HOUSE

DEINIOLEN

FFÔN: 870386

Dillad ysgol ar gyfer  
Ysgol Brynrefail 1983  
ar werth yma o Fehefin ymlaen.  
Esgidiau a dillad plant o bob math.



I DRWSIO'R  
TELEDU  
NEU'R  
RADIO  
FFONIWCH...

**Osmond  
W. Shaw**

DEINIOLEN

Ffôn:

LLANBERIS 870545

Gwasanaeth 'run diwrnod  
os ffoniwch cyn 10 o'r  
gloch y bore



# SIBRYDION O'R YSGOLION

## YSGOL BRYNREFAIL

### Cynrychioli Cymru

Dros y penwythnos Ebrill 22-25 bydd rhai o ddisgyblion yr ysgol yn cystadlu ym Mhencampwriaethau Eira Ysgolion Prydain yn Aviemore, yr Alban. Dyma'r tro cyntaf i'r pencampwriaethau yma gael eu cynnal ar eira. Bydd pedwar o'r ysgol, sef Tim Lloyd, Kirsty McCann, Mathew Ingle a Brian Glass yn ffurfio un o dimau Cymru a byddant yn cystadlu yn erbyn 17 o dimau eraill. Hoffai'r tîm a'u hyfforddwraig Mrs Marjorie Wroe, ddiolch yn arbennig i Cabs Padarn am ddarparu mini-bws ar dermau hynod o resymol. Pob hwyl iddynt ar yr eira yn Aviemore.

### Cinio Ysgol - Malwod a Choes Llyffant?

Yn ystod y pythefnos diwethaf bu nifer o ddisgyblion yr ysgol yn croesawu i'w cartrefi aelodau o barti o blant a ddaeth drosodd o Gourin, yn Llydaw, Ffrainc. Bu'r plant yn arod gyda hwy ac yn mynd i'r ysgol yn y bore. Ar y bore cyntaf, sef dydd Mawrth, cafwyd gwasanaeth groeso arbennig, a diolch i'r corau a'u hyfforddwyr, Rhian a Sian a hefyd Alicia am roi croeso mor gynnes i'r ymwelwyr.

Bob prynhawn buont ar dripiu yn yr ardal - i gastell Caernarfon, Amgueddfa'r Chwarel, Llanberis, siopau Llandudno a phwll nofio Caernarfon. Bu tair taith i bawb a oedd yn cymryd rhan yn y gyfnewid - un i Sir Fôn yn cynnwys ymweliad â Gorsaf Bwer Wylfa. Ynys Lawdd, a Phlas Newydd, trip prynhawn i dref Biwmares, y castell a'r carchar, ac un i Felin Wlân Bryncir, castell Harlech a Chwarel Llechwedd. Un diwrnod buont ar daith gerdded ar yr Wyddfa, ond oherwydd yr eira ni chyrraeddwyd y copa!

Nos Fercher, 20 cynhaliwyd disco i'r ymwelwyr. Hoffai pawb diolch i Mr Parry am gynnig ystafell i'r disco yng Ngwesty'r Victoria, Llanberis, fel na bu'n rhaid defnyddio neuadd yr ysgol. Diolch yn fawr Mr Parry. Hoffent ddiolch hefyd i'r BCCT am ddarparu cinio hyfryd, yn rhad ac am ddim, yn ystod yr ymweliad â Wylfa.

Diolch i athrawon yr ysgol am ddioddef dosbarthiadau chwyddedig ac i'r rhai a fu'n cynorthwyo ar y teithiau. Hefyd diolch yn arbennig i'r rhieni am fod mor barod dderbyn yr ymwelwyr i'w cartrefi. 'n olaf, ond yn bwysig iawn, hoffai'r disgyblion ddiolch o galon i'r prifathro, Mr Thomas, a'r athrawes Ffrangeg, Mrs Edwards, am drefnu'r daith gyfnewid a'r holl dripiu eraill a baratowyd ganddynt. Hoffem ddiolch iddynt am ymweliad hwylus a llwyddiannus.

### Croeso Bethan! Diolch Carys!

O'r mis hwn ymlaen Bethan Hughes o Lanberis fydd yn gyfrifol am y newyddion o Ysgol Brynrefail yn yr 'Eco'. Mae Bethan yn y chweched dosbarth (blwyddyn 1af) yn astudio Ffrangeg, Saesneg a Chymraeg. Croeso i'r Eco Bethan a gobeithiwn y byddi'n mwynhau'r gwaith.

Golyga hyn, wrth gwrs, fod Carys Jones yn gorffen ei gwaith gyda'r Eco. Pob lwc iti gyda'r arholiadau lefel A Carys ac yn dy yrfa fel nys yn Lerpwl ymhellach ymlaen. Diolch iti hefyd am dy waith trylwyr yn ystod y flwyddyn sydd wedi mynd heibio.

### Ennill Ysgoloriaeth

Mae Sian Wyn Gibson o Ddeiniolen wedi ennill ysgoloriaeth o £500 y flwyddyn gan Goleg Cerdd y Drindod, Llundain. Hwn yw un o'r colegau cerdd enwocaf ym Mhrydain a phrin iawn yw ei hysgoloriaethau. Mae'n amlwg i lais Siân wneud argraff fawr arnynt. Bydd yn cychwyn yno fis Medi nesaf. Pob lwc Sian!

### Gemau Tai

Cynhaliwyd y gemau tai yn ystod yr wythnos olaf o dymor y Pasg.

Tŷ Gwyrfa'i enillodd y pêl droed o dan 13 ac Eilian y pêl droed dan 15 oed. Roedd Gwyrfa'i ac Elidir yn gydradd 1af yn y Pêl Rwyd dan 15 oed ac Eryri oedd y tŷ llwyddiannus yn yr adran Hŷn. Yn yr Hoci roedd Eilian ac Elidir yn gydradd 1af.

Cyfanswm Pwyntiau: Gwyrfa'i 67½, Eilian 62½, Eryri 60, Elidir 50.

### Criced

Ar ôl mwynhau cwrs criced am chwe phenwythnos yn y Coleg Normal, Bangor, mae tri o fechgyn y 3edd flwyddyn, sef Rheon Larsen a Dylan Edwin Jones o Benisarwaun ac Alwyn Williams o Fethel wedi ennill gwobrau am gyrraedd safon arbennig. Cyflwynwyd y gwobrau gan John Hopkins, batiwr agoriadol Morgannwg, a John Cartwright, yr hyfforddwr cenedlaethol.

### Traws Gwlad

Ar Ebrill 20, cynhaliwyd rasmus traws gwlad yr ysgol. Dyma'r canlyniadau:

**Bechgyn Dan 13:** 1af Paul Grant (Llanrug) 16 m., 23 eil. (Record); 2. Lee Griffith (Dinorwig); 3. Jason Roberts (Llanberis)

**Bechgyn dan 15:** 1. Martin Roberts

(Llanrug) 15 m., 46 eil. 2. Mathew Ward (Llanrug) 3. Russell Williams (Bethel)

**Bechgyn Hŷn:** 1. Steven Riley (Dinorwig) 26 m., 15 eil. 2. Tim Lloyd (Pen y Pass) 3. Steven Owen (Cwm y Glo)

**Genethod dan 13:** 1. Jenny Williams (Deiniolen) 21 m., 48 eil. 2. Lynne Parry (Llanberis) 3. Mandy Roberts (Llanberis)

**Genethod dan 15:** 1. Rhian Lewis (Deiniolen) 17 m., 37 eil. (Record) 2. Anna Wood (Ceunant) 3. Andrea Roberts (Llanberis)

**Genethod Hŷn:** 1. Melanie Sellars (Llanberis) 19 m., 4 eil. 2. Susan Jones (Llanrug) 3. Linda Jones (Hendre) gynt o Ceunant.

**Cyfanswm Pwyntiau:** Gwyrfa'i 126; Elidir 107; Eryri 83; Eilian 79.

## ENILLWYR TRAWS GWLAD



Cefn, chwith i'r dde: Steven Riley, Martin Roberts, Paul Grant. Blaen, chwith i'r dde: Rhian Lewis, Melanie Sellars, Jenny Williams.

## CRICEDWYR MEDRUS



Dylan Edwin Jones, Rheon Larsen ac Alwyn Williams.

## AR WERTH

Beic i fachgen 7-10 oed; mewn cyflwr da, £25.

Cwcer drydan GEC, maint cyffredin, yn gweithio'n iawn. Angen ei lle. Ffôn, Caernarfon 4839.

**Wavell  
Roberts  
CIGYDD**

LONDON HOUSE  
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574  
PEN CIGYDD Y FROI

Yr ŵyn lleol mwyaf  
blasus

Selsig cartref, cigoedd  
parod i'w bwyta  
Archebion ar gyfer  
y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU  
A DEWCH ATOM NI!

## EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YNYS MÔN 1983

### GWLEDD O GYNGHERDDAU YN Y BRIFWYL

**NOS SADWRN.** Gorffennaf 30 Cyngerdd dan naudd BBC Cymru i ddathlu 60 mlynedd o ddarlledu yng Nghymru. Artistiaid amrywiol.

**NOS SUL.** Gorffennaf 31 Cyngerdd gyda Stuart Burrows a Cherddorfa Symbion Gynreig y BBC. Noddir gan British Telecom. Bardd Cymru a'r Gomer.

**NOS LUN.** Awst 1 Eisteddfod fin nos. Noddir y noson gan Fanc y T.S.B.

**NOS FAWRTH.** Awst 2 Pasiant y Plant - tri phasiant oddeutu 35 munud yr un - 'How Cymunod', 'Madam Wen' a 'Santes Dymwain'. Noddir gan Gwmni Adeiladu Principality.

**NOS FERCHER.** Awst 3 Cerddorfa Ieuencid Genedlaethol Cymru. Noddir y cyngerdd gan Gwmni BP yng Nghymru.

**NOS IAU.** Awst 4 Côr yr Eisteddfod a Cherddorfa Philharmonia Llundain yn perfformio 'Nabucco' (Verdi). Arweinydd: Owain Arwel Hughes; Unauddyr: Elizabeth Vaughan, Michael Rippon, David Gwynne, Wynford Evans, Eirian James a Merril Jenkins. Noddir gan Fanc Barriays.

**NOS WENER.** Awst 5 Breithyn Cartref - cyngerdd traddodiadol ar y thema 'Y Teulu' gyda Hogiau'r Ddwyllan (Y Tad), Adar Rhianon (Y Fam) a Pharti Lluchwr (Y Plentyn).

**NOS SADWRN.** Awst 6 Eisteddfod fin nos - Cystadleuaeth Rhuban Glas. Noddir gan Gwmni Oleu Shell.

Am docynnau, cysylltwch 'NAWR' â Swyddfa'r Eisteddfod, Y Stad Ddiwydiannol Llangefni, Ynys Môn LL77 7JA Ffôn Llangefni 724444

Wrth droed yr Wyddfa . . .



**BWYTY FFERM  
BRON ERYRI  
LLANBERIS** Ffôn 870391

Perchnogion: Mr a Mrs AW Hughes



# BETHEL

**Gohebydd – Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)**

**MERCHED Y WAWR** – Treuliwyd noson yng nghwmni difyr Mrs Antoinette Hughes o Goleg Glynllifon. Diolchwyd iddi gan Mrs Lynwen Morris, Perthi. Y gwestwagedd oedd Mrs Anne Elis, Cilgeran, Mrs M.G. Williams, Gwylfa, Mrs Sally Hughes, Bro Rhos.

Dewiswyd Mrs Beti Owen, Crud yr Awel ar bwyllgor Celf a Chrefft. Cafwyd adroddiad o'r Pwyllgor Anabl gan Mrs M.G. Williams.

Dyma swyddogion y gangen ar gyfer '83-'84:

Llywydd, Mrs Ann Hopcyn Evans; Is-Lywydd, Mrs Glenys Griffith; Ysgrifennydd, Mrs Alys Jones, Is-ysgrifennydd, Mrs Meinir Roberts; Trysorydd, Mrs Mair Read; Is-drysorydd, Mrs Mair Jones.

Pwyllgor: 1. Mrs Beti Owen 2. Mrs Mary Evans 3. Mrs M.G. Williams 4. Mrs M. Griffith, Tre Gof 5. Mrs M. Griffith, 19 Y Ddôl 6. Mrs Eirlys Sharpe.

Mrs Val Guy a Mrs B. Farrar oedd yn cyfri'r pleidleisiau.

Cyfarfod nesaf yn yr ysgol, Mai 11. Miss Mari Wyn Meredith, Benllech ar Drefnu Blodau.

**YR URDD** – Bydd ymarferiadau ar gyfer Cymanfa'r Carnifal yn dechrau yn y Neuadd ddydd Mawrth Mai 17 am 6 o'r gloch, ac yna brawn Gwener am 3. Croeso i holl aelodau'r Urdd.

**YR YSGOL FEITHRIN** – Nos Fercher Mai 4 cynhelir Bingo yn y neuadd. Dyma'r tro cyntaf i ni gael Bingo felly gobeithio y ceir cefnogaeth dda gan bawb.

Ddydd Mercher Mai 11eg bydd plant yr ysgol feithrin a'u mamau yn mynd i Barc Eirias Bae Colwyn i ymuno â phlant meithrin Gogledd Cymru mewn picnic mawr i ddathlu'r Wyl Feithrin. Mae sôn y bydd SuperTed, Mabon, Wil Cwac Cwac ac eraill yn galw i weld y plant.

**GWYLIAU YNG NGWLAD BELG** – Yn ystod gwyliau'r Pasg aeth nifer dda o blant Safon 3 a 4 i ymweld â Gwlag Belg a'r Iseldiroedd. Yn ystod eu gwyliau buont yn Ostend, Bruges, Middleburg a mynwent ryfel yn Ypres i weld bedd y bardd Hedd Wyn. Roedd y plant wedi mwynhau eu hunain yn fawr iawn a rhai'n sôn yn barod am ddychwelyd yn fuan iawn. Mae'r plant i gyd yn diolch yn fawr iawn i Miss L.P. Roberts, Mrs Helen Sutherland, Mrs Sian Jones a'r holl athrawon o'r ysgolion eraill am edrych ar eu hôl.

**CYDYMDEIMLO** – Cydymdeimlwn â theulu'r diweddar Mr Thomas Hughes, Coed Belyn Mawr a fu farw ddydd Iau Ebrill 14.

Cydymdeimlwn â theulu'r ddiweddar Mrs Kate Williams, Trigfa, Erw Bian a fu farw'n ddiweddar.

**CLWB FFERMWYR IEUAINC** – Cynhaliodd y Clwb Helfa Drysor y noson o'r blaen. Enillydd y noson oedd Myfanwy Jones, Glan Gors. Llongyfarchiadau iddi hi.

**DIOLCH** – Dymuna Mrs Jones a'r teulu, Trigfa, Erw Bian, Bethel, ddatgan eu diolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli eu mam yn ddiweddar.

**CÔR CADNANT** – Cynhaliwyd noson Goffi gan y Côr yn y Neuadd nos Wener Ebrill 22. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Bu'r côr yn canu yng Nghymanfa'r Annibynnwyr a gynhaliwyd yng nghapel Bethel nos Sul Ebrill 28.

Mae'r côr yn brysur yn ymarfer at gystadlu yn Eisteddfod Llanrwt ym mis Mehefin.

## ETHOLIAD CYNGOR BWRDEISTREF ARFON



**CYDYMDEIMLO:** Cydymdeimlwn â Mrs Rhian Birkett ar golli ei thad yng Nghaeathro.

**DYMUNIADAU GORAU** – Mae Mr a Mrs Huw Hughes, Cremlyn bellach wedi hedfan i Canada am dair wythnos o wyliau. Gobeithio y byddant yn mwynhau eu hunain ac edrychwn ymlaen at eu cael adref yn ôl.

Pob hwyl hefyd i Mrs Jones Pen Buarth ar ei thaith i Sri Lanka i ymweld â'r teulu.

**LLONGYFARCHIADAU** i Morlais a Delyth ar enedigaeth merch fach ar Ebrill 20; i Gareth Davies, Trem Eryri oedd yn 18 oed ar Ebrill 6 ac i David E. Griffiths 19 Y Ddôl fydd yn dathlu ei ben blwydd yn 18 oed ar Fai 24.

**CARNIFAL BETHEL DYDD SADWRN GORFFENNAF 2il**

Estynnir gwahoddiad cynnes i holl freninesau carnifal Bro Eco'r Wyddfa i Garnifal Bethel brynhawn Sadwrn, Gorffennaf 2il.

Os ydych am dderbyn y

gwahoddiad cysyllter ag ysgrifenyddes y carnifal, Mrs Rhian Birkett, Stad Eryri, Bethel.

Dyma'r ddau sy'n ymladd am sedd Llanddeiniolen ar Gyngor Arfon — sef Samuel Jones (Annibynnol), y cynghorydd presennol, a Gwen Aaron (Plaid Cymru). Dydd Iau, Mai 5 yw diwrnod yr etholiad.

**Llety**

*tŷ bwyta* *restaurant*

**Trefnwch eich digwyddiad yn Nhŷ Bwyta Trwyddedig**

**LLETY CAEATHRO**

**Ffôn: Caernarfon 4753**


Dan berchnogaeth newydd Mrs Eirlys Birch (o Ddinorwig) a'i mab Richard. Dros ugain mlynedd o brofiad o gadw gwesty yn Llandudno at eich gwasanaeth yn y Tŷ Bwyta hyfryd hwn, sydd wedi ei foderneiddio'n chwaethus gan gadw naws y' sguor gwreiddiol.

**O 1af Mai darperir cinio Sul am £3.45 y pen.**

**Boed briodas, cinio dathlu neu noson gymdeithasol cysylltwch ar unwaith i drefnu lle — gallwn gymryd hyd at 70 ar y tro.**



# CROESAIR MAI



## AR DRAWS

3. Gwlad yn Ewrop (7)
7. "Mieri lle bu ..." (6)
8. Mynd i rywle i weld, neu i edrych am rywun (6)
9. Cysegru (8)
11. Hwn oedd fy nghydymaith i Dywyn (4)
12. Y ... Cymreig - Byddin
17. Suddo (4)
18. Golwg, gwedd (8)
19. Mae arwerthiant mewn socs i wnïo! (6)
20. Perthynas (6)
21. Amlhau (7)

## I LAWR

1. Caseg (3,4)
2. Rhagor (7)
3. Gwlad fawr am aceri! (7)
4. "... 'r Teulu" - rhaglen gwis teledu (5)
5. Arian i ddigolledu (7)
6. Gafael (5)
10. Cyflwr y corff (5)
13. Nawr ac yn y man (7)
14. Gwneud duw o rywbeth (7)
15. Arbennig (7)

16. Cylch, neu daith y ddacur (3,1,3)
17. Mae'r creadur yn rhan o'r brogarwch (5)
18. Blaendal (5)

Un llythrennau ydi ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th.  
Anfonwch eich cynigion i: **Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug.** Bydd gwobr o £2 i'r ateb cywir cyntaf i'w dynnu.

## Atebion Crosair Ebrill

**Ar Draws:** 1. Sgerbwd, 5. Llygod, 8. Opera, 9. Dyweddio, 10. Cymanwlad, 12. Wal, 13. Pantri, 14. Cerdded, 17. Nye, 18. Teilyngdod, 20. Arswydd, 21. Wyneb, 23. Tlodid, 24. Darogan.

**I Lawr:** 1. Sionc, 2. Ebe, 3. Blaenwr, 4. Didoli, 5. Llewod, 6. Goddiweddyd, 7. Dioglyd, 11. Manteisio, 13. Pendant, 15. Emynwyr, 16. Dim ond, 18. Twyni, 19. Diben, 22. Nag.

**Enillydd:** Gareth Hughes, 27 Bro Rhos, Bethel.

## CHWARAEON

### PÊL-DROED

Mae'r tymor pêl-droed yn raddol dirwyn i ben - mae drosodd yn barod bron i Lanrug a Bethel - a thymor i'w anghofio gafodd y ddau dîm, gyda Bethel druan yn diweddu ar waelod y Gynghrair fel y llynedd, a Llanrug am y tro cyntaf ers talwm yn methu â chynraedd hyd yn oed ail rownd dwy o gwpanau'r Gynghrair.

Aeth gobeithion Llanberis am y Bencampwriaeth gyda'r gwynt ar ôl colli'n erbyn Dyffryn Nantlle y noson o'r blaen, a rhaid disgwyl ffafr gan Lanrug ym Mhwllheli os oes gobaith ganddynt am Gwpan Deanfield hyd yn oed. Yn ychwanegol at broblemau diwedd tymor Llanberis, mae anafiadau drwg wedi effeithio ar chwaraewyr allweddol, a gallai hynny achosi i Lanberis ddiweddu tymor llwyddiannus heb ennill yr hyn y maent yn ei haeddu.

Bydd gêm gyn-derfynol Cwpan Wil Evans yn cael ei chwarae ar gae Llanrug nos Lun, Mai 2 am 6.30 rhwng Llanberis a Mt Rangers.

### RHEDEG

Ein llongyfarchiadau i bawb o'r ardal a ddaeth yn ôl o Lundain yn ddi-anaf ar ôl cwblhau'r Marathon

yno. Bu gwylio brwd ar y ras ar y teledu. 'Sgwn i faint o ddarlennwyr yr 'Eco' gafodd eu hysgogi gan berfformiadau rhai o'r rhedwyr i fentro meddwl y gallant hwythau hefyd wneud yr un peth?

Tra'n sôn am redwyr, un o'r problemau y mae'n rhaid iddynt eu hwynebu yw cŵn - ac nid eu baw fel y llythyrwr y mis diwethaf - ond y pen (brathog) arall y tro hwn! Gweld mewn papur dyddiol y dydd o'r blaen i redwr gael ei frathu gan 'alsatian' tra allan yn ymarfer. Bu'n rhaid iddo gael triniaeth gan feddyg oherwydd ei anaf. Gorchmynwyd i'r perchennog gadw'r ci dan reolaeth, a bu'n rhaid iddo dalu £1 o gostau. Pe bai'r rhedwr druan wedi cam-drin y ci, byddai holl awdurdod cyfreithiol 'Cyfiawnder Prydeinig' wedi disgyn arno a'i ddirwyo am achosi poen i anifail diniwed!

Cefais brofiad tebyg fy hun y dydd o'r blaen ger Brynrefail. Rhuthrodd daeargi o dalcen tŷ yno, gan groesi'r ardd ac ar draws y lôn i frathu o gwmpas fy sodlau. Yn ffodus, cefais ddigon o nerth i anelu cic a gysylltodd â chlicied ei ên, a mawr hyderaf fod y "creadur bach diniwed" hwnnw yn parhau i ddioddef o'r ddannodd.

## DYDDIADUR

**2 Llun. Calan Mai:** LLANBERIS, Gyrfa Chwist Pêl-droed yn y Ganolfan am 7.30.

**4, Mercher, BETHEL:** Bingo dan nawdd Pwyllgor yr Ysgol Feithrin yn y Neuadd.

**5, Iau, Etholiadau Cyngor Bwrdeistref Arfon,**

LLANRUG, Noson Goffi Cymdeithas Chwiorydd Capel Mawr.

WAUNFAWR, Sefydliad y Merched.

**6, Gwener, LLANBERIS,** Te yr Henoed.

**Mai 7-14** - Wythnos Wyl Mudiad Ysgolion Meithrin.

**7, Sadwrn, LLANRUG,** Cystadleuaeth Flynyddol y Seindorf.

**9, Llun, DEINIOLLEN,** Sefydliad y Merched.

LLANBERIS, Gyrfa Chwist dan nawdd y St John yn y Ganolfan am 7.30

**Mai 10-13,** Gŵyl Ddrama leuenctid yn Theatr Seilo, Caernarfon.

**10, Mawrth, LLANRUG,** Cyfarfod Blynyddol Cangen Merched y Wawr.

DEINIOLLEN, Clwb Elidir.

BETHEL, Clwb Bro Rhos - y gŵr gwadd fydd Mr Arthur Edwards, Rhostryfan.

**11, Mercher, BETHEL,** Merched y Wawr - arddangosfa Trefnu Blodau gan Miss Mari Wyn Meredith.

Plant yr Ysgol Feithrin a'u Mamau yn ymweld â Pharc Eirias, Bae Colwyn.

**12, Iau, LLANBERIS,** Noson Goffi ac Arwerthiant er budd yr Ysgol Feithrin yn y Ganolfan am 6.30.

LLANRUG, Cyfarfyddiad Clwb Blodau'r Grug.

**13, Gwener, DEINIOLLEN,** Noson Goffi er budd Clwb Elidir yn y Clinic.

LLANBERIS, Noson o Fingo a Lluniaeth er budd y Gymdeithas i Rai â Chlefyd Siwgr, - yng Ngwesty'r Gwynedd am 7.30.

**14, Sadwrn, LLANBERIS,** Noson o Gawl a Chân yng nghwmni Hogia'r Wyddfa yn yr Erw Fair. Y noson dan nawdd y Cwmni Drama.

**16, Llun, DEINIOLLEN,** Merched y Wawr - y wraig wadd fydd Miss Jane Jones, Swyddog Iechyd.

PENISARWAUN, Clwb yr Heulwen.

LLANBERIS, Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pêl-droed yn y Ganolfan am 7.30.

**17, Mawrth, BETHEL,** Aelodau'r Urdd yn ymarfer ar gyfer Cymanfa'r Carnifal am 6.00 yn y Neuadd.

**20, Gwener, DEINIOLLEN,** Noson yng nghwmni Dafydd Iwan dan nawdd Cangen Plaid Cymru am 7.30 yn y Ganolfan.

BETHEL, Aelodau'r Urdd yn ymarfer at Gymanfa'r Carnifal.

LLANBERIS, Te yr Henoed.

Barbaciw ar lan Llyn Padarn i gerddoriaeth Seindorf Llanberis am 7.00. Gweithgaredd i ddathlu blwyddyn Jiwbili Cadlanciau St John yng Nghymru.

WAUNFAWR, Barbaciw arbennig er budd Cronfa'r Ganolfan yn Nhy'n Weirglodd, Betws Garmon.

Noson Gymdeithasol a Stondinau yn Neuadd yr Eglwys am 7.00. Er budd yr eglwys.

**Mai 23-26** - Gŵyl Ddathlu Blwyddyn Jiwbili Cadlanciau St John yng Nghymru, Cangen Llanberis.

**23, Llun, LLANBERIS,** Gyrfa Chwist St John yn y Ganolfan am 7.30.

**24, Mawrth, DEINIOLLEN,** Clwb Elidir.

**24, Mawrth a 26 Iau, LLANBERIS,** Cynhelir Disgo yn y Ganolfan. Plant Ysgol Gynradd o 6.00 tan 8.00 o'r gloch. Plant Ysgol Uwchradd o 8.00 tan 10 o'r gloch.

Helpa Drysor.

Ceir gwybodaeth pa weithgaredd a gynhelir ar y dyddiad cywir ar y Poster yn ffenestri'r siopau. Cynhelir hwy dan nawdd y St John.

**25, Mercher, LLANBERIS,** Bingo dan nawdd y St John yng Ngwesty Dolbadarn am 7.30.

**27, Gwener, YR ARDAL,** Yr ysgolion ar gau dros Wyl y Sulgwyn.

**Mai 31 - Mehefin 4,** Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Aberafan.

## DYDDIADAU I'W COFIO

**Mehefin 17** - Waunfawr, 'Noson Gerddorol' gyda phlant yr Ysgol Gynradd a Dafydd Iwan.

**Mehefin 24** - Taith Ddirgel Cangen Plaid Cymru deiniolien.

**Mehefin 26 - Gorffennaf 2** - Wythnos Garnifal Bethel.

## CYMDEITHAS ADDYSG Y GWEITHWYR

Ym Mhlas Tan-y-bwlch, Maentwrog  
dydd Sadwrn, Mai 21, 1983


Testun: **CHWARELYDDIAETH A LLENYDDIAETH**

Siaradwyr: **Mrs Eigra Lewis Roberts  
Mr Emrys Evans**

Manylion pellach gan y trefnydd:  
Ifor Baines

Rhif ffôn: Penygroes 881328

AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD  
I BLE BYNNAG Y BO . . .



**BWSIAU ARFON**

**LLANRUG**

(ERIC MORRIS)

Ffôn: Caernarfon 5175  
neu Bangor 51981



# CHWARAEON

## 'NABOD ARDAL

Does neb hyd yma wedi dangos unrhyw ddiddordeb ynglŷn â'r bwriad i drefnu taith gerdded o gylch yr ardal. Ond gan fod crwydro llwybrau a cherdded mynyddoedd yn rhan o hamddena'r gwanwyn a'r haf, dyma roi blas ar brofiadau Goronwy Owen yn crwydro Cwm Doethwch.

## Cwmdaethwch

ENW o'r Mabinogion medden nhw. Digon posibl, ond 'rwy'n sicr o un peth, yno gall y tywydd fod yn erchyll. Tro nesaf yr ewch yno, sylwch fel mae wal y mynydd wedi'i hadeiladu hefo tyllau yn ei bôn, i roi cyfle i'r defaid ddod lawr cyn eira, ac i'r gwynt fynd trwyddi yn lle ei chwythu i lawr. Diolch byth, yng nghanol glaw, stormydd ac eira, daw ambell i em, ac mewn wythnos rewlyd un mis Ionawr, daeth yr haul allan, a newid yr hin, yn gyfan gwbwl. Anodd yw dweud beth sy'n trefnu cynlluniau bechgyn, ond y bore hwnnw, penderfynom ni hogiau Llainwen fynd i fyny i Gwmdaethwch. Hefo'r Parch J.P. Davies a Dafydd Roberts, Bodeilian Newydd yr es i yno gyntaf, ar daith gerdded Adran yr Urdd, a dilyn yr un ffordd wnaethom y bore hwnnw, heibio'r Hafod Uchaf, croesi Afon Hwch, ac ymlaen gydag ochor y nant. Roedd y tir mawnog wedi rhewi'n gorn, ac yn hawdd cerdded arno. Cyrraedd glannau'r llyn, taflu carreg neu ddwy i'w ddyfroedd distaw ac archwilio'r hen gwt cwch.

"Beth am fynd rownd y llyn?"

"O'i amgylch i gyd?"

"Ia."

"Mae'n beryglus. Fe fyddwn ni'n sincio yn y donnan." Dyna Gymraeg coeth oedd ganddom.

"Na, mae hi wedi rhewi."

"Awn ni dipyn bach o'r ffordd."

Ac yn wir, roedd 'na gaenan o rew ar y gors, yr ochr uchaf'r llyn. Wadars 'sgota Rhys fy mrawd oeddwn i'n ei wisgo, ac roedd y croen o fwsog melyn yn rhoi rhyw fymryn hefo pob cam, ond roedd 'na ddigon o rew i ni gerdded o amgylch glannau'r llyn yn saff. Dyna'r unig dro i mi erioed wneud hynny

Yn yr ysgol, byddai Robert Morris yn pwysleisio pwysigrwydd llyfrau. Holai ni ...

"Be 'dach chi'n ddarllen, 'r wythnos yma?"

"Peth a'r peth?" neu "Llyfr a'r llyfr."

Weithiau "Dim byd" oedd yr ateb, ac os felly, dywedai,

"Dowch i fyny i'r tŷ heno, ac mi gewch fenthgyn ..."

Cefais ddarllen peth wmbreth o'i lyfrau ac mi ydw i'n ddiolchgar.

Yn haf 1937, rhoddodd fenthgyn imi ei gopi o Gyflawn Waith Bernard Shaw, un llyfr trwchus, ac roeddwn yn cario hwn fel rhyw Feibl, i fyny i lonyddwch Cwmdaethwch, bob diwrnod braf, a'i ddarllen o glawr i glawr. Roedd yno fan heddychol, distaw ar brynhawn heulog yng nghwyliau'r haf. Er hynny, ddwywaith, cefais fymryn bach o fraw yno.

Cofiaf ddod gartre, y Pasg 1948, - ar ddiwedd gaeaf oer, pan rewodd Llyn Padarn. Yn ymyl Llundain roeddwn i yn gweithio pryd hynny, ac yn ôl fy arfer, yn anelu am y mynyddoedd, y cyfle cynta gawn, sef yn syth ar ôl brecwast y bore canlynol. Fel yr oeddwn yn dod i olwg y llyn gwelwn y defaid i gyd yn rhedeg i lawr o ddwy ochr y cwm, heb neb yn eu gyrru, ac yn dod tuag ataf o bob cornel, nes roeddynt yn sefyll yn un gyrr fawr ddi-fref o fy amgylch. Roedd yna tua pum can pâr o lygaid yn syllu arnaf. Aeth rhyw ias i lawr fy nghefn, - rhedeg i ffwrdd roedd pob dafad wedi'i wneud o'r

blaen. Sefais yn eu canol am rhyw funud, fel carcharor yng nghanol llwyth o Indiaid Cochion, cyn rhesymu bod y ffermwyr wedi bod yn eu bwydo drwy'r amser caled a newid cymeriad yr anifeiliaid. Nid rhywbeth i ddianc oddi wrtho oedd dyn mwyach, ond cynhaliwr angenrheidiol a ffrind personol.

Ond y profiad mwyaf trawiadol a gefais oedd ar un gyda'r nos heulog o Orffennaf pan oeddwn yn un ar bymtheg oed. Roedd arholiadau C.W.B. bron drosodd a seibiant bach gennyf. Droed roedd fy nhad wedi dweud wrthyf am y 'Volunteers' yn amser y rhyfel De Affrica ar droad y ganrif. Gwyddwn am y ddau gwt haearn ar ochr Drum Mawr lle cadwent eu bwledi a'u drylliau, ac o'r lle roeddynt yn saethu. Roedd lleoliad y targed hefyd yn adnabyddus i mi, a mwy nag unwaith y dyheuais fynd ar draws y llyn tuag ato ond erioed wedi mynd.

Dyna oedd fy mwriad y tro yma, doed a ddelo, ac wrth ddringo'r boncan 'rochr yma i'r llyn, clywais gri cudyll coch o gysgodion tywyll Clogwyn Du, ym mhen uchaf'r cwm, tra disgleiria'r haul ar ddyfroedd fan-donnog y llyn, yr ochr yma. Dilyna i y llwybr heibio'r cwt cwch, a daeth cri'r cudyll eto, ac yn awr, gwelwn ef yn hofran yn yr awyr glir, yr ochr draw. Galwodd eto, ac eto, ac er gryn syndod i mi, gwelwn ei fod yn dod tuag ataf. Cyn i mi fynd llawer pellach, roedd uwch fy mhen, yn araf droelli a disgyn ychydig. Yn amlwg, roedd gan yr aderyn nyth yng nghyffiniau Clogwyn Du, a chywion ynddo. Nifer prin iawn, iawn o bobl - dim ond pysgotwyr, helwyr a bugeiliaid - fyddai'n mynychu'r cwm, cyn y rhyfel. Lle hynod o unig ydoedd. Roedd yr aderyn, heb os nag onibai, yn fy nghyfrif i yn dresmaswr. Doedd gen i ddim hawl i fod yno, ac agosaf oeddwn at y nyth, isaf yr oedd en' hofran, ac amlach roedd e'n galw ei gri - cri hanner yn hanner rhwng babi'n crio a chwrcath mewn tymer.

Codais ddwy garreg, un ymhob llaw. Doeddwn i ddim yn mynd i roi mewn i'r un aderyn. Cedwais hanner llygad ar yr hofrennydd uwch fy



mhen, oedd yn dod yn is ac yn is, pellaf yr awn. Roedd e'n fawr, yn fygythiol, a'i gri'n llawn casineb. Gwyrtais i lawr, crafais ymysg y cerrig a'r baw, lle arferai'r targed fod. Codais ddau neu dri bwled a'u rhoi yn fy mhoced.

Gafaelais yn y garreg a ollyngais, a'i thro'i hi am adra. Dilynodd y cudyll fi, gan godi'n araf, pellaf yr awn o'r targed, a rhoddais ochenaidd fach o ryddhad, pan gyrhaeddais yr ochr yma i'r llyn. Roedd o wedi codi i fyny i'r awyr unwaith eto, ac roedd eco'i gri o fuddugoliaeth yn atseinio o esgair Foel Eilian. Clywais a darllenais am adar o'r math yma yn ymosod ar bobl, a chredaf hyd heddiw, pe tawn i wedi cerdded

tipyn ymhellach y gyda'r nos honno, fe fyddwn wedi teimlo crafangau'r gwalch. Erbyn heddiw, mae'r cudyll coch wedi ymledu drwy'r wlad, ac wedi arfer â dynion. Eisteddant yn hapus ar y polion teliffon hyd ochr y ffordd yn Nyfed, ac maent yn hofran uwch ben Parc Margam, a chae rygbi Pont Rhydyfen, yn aml; rhan o ddatblygiad naturiol y ganrif hon.

Dywedodd Bobbie Tŷ Mawn wrthyf unwaith mai llyn bas iawn ydy Llyn Cwmdaethwch, ac iddo gerdded i mewn iddo droeon i ymguddio yn yr hesg, i saethu hwyaid gwylltion, ond bob tro yr es i yno wedyn, i fyny oedd fy ngolygon i'n codi. Oes 'na gudyll yn nythu ar Glogwyn Du y dyddiau yma?

## CLWB PÊL-DROED DEINIOLLEN



ERS RHAI BLYNYDDOEDD bellach, ni bu tîm pêl droed i rai hŷn o Ddeiniolen mewn unrhyw gynghrair. Ond erbyn hyn, trwy ymdrechion Mr Alan Wyn Williams ac eraill, mae tîm o Ddeiniolen wedi bod yn perthyn i Gynghrair y Sul (Bangor a'r cylch) am y chwe mis diwethaf.

Mae'r gynghrair honno wedi dod i ben erbyn hyn, a phedwerydd oedd safle tîm Deiniolen erbyn diwedd y tymor. A hefyd aeth Deiniolen drwodd i rownd cyn-derfynol y gwpan, ond fe'u trechwyd gan dîm o Fangor.

Mae'r clod am hyn i gyd yn eiddo i Mr Alan Wyn Williams yn arbennig, am iddo fod yn gyfrifol am y tîm, a chynnal diddordeb y bechgyn.

Y chwaraewyr eu hunain sydd wedi cefnogi'r fenter newydd hon yn ariannol. Gyda'r math o ddiddordeb ag sydd wedi cael ei ddangos yn barod, tybed a all Deiniolen berthyn i'r un gynghrair â Llanberis, Llanrug a Bethel rywbryd yn y dyfodol?

Dymunir y gorau i'r bechgyn yn eu hymdrechion, a gobeithir y cânt bob cefnogaeth gan bentrefwyr Deiniolen.